# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 1AF RHAGFYR, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 24/11/16)

## PWYLLGOR ARCHWILIO

**AELODAETH (19)**

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
E. Selwyn Griffiths
Michael Sol Owen
John Wyn Williams
Gweno Glyn
Charles Wyn Jones
W. Tudor Owen
Gareth Wyn Griffith
Dilwyn Morgan
Gethin Glyn Williams

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards
John Brynmor Hughes
Angela Russell
Thomas G. Ellis
John Pughe Roberts

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Aeron M. Jones

### Llafur (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

### Aelod Lleyg (1)

John Pollard

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi 2016, fel rhai cywir.

**5. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** 8 - 44

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

**6. CYLLIDEB REFENIW 2016/17 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2016)** 45 - 65

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**7. RHAGLEN GYFALAF 2016/17 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2016)** 66 - 71

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 19/9/16 - 18/11/16** 72 - 116

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

**9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** 117 - 123

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2016/17.

**10. ADOLYGU'R CYFANSODDIAD** 124 - 125

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

# PWYLLGOR ARCHWILIO 29/9/16

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen J. Davies, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, Gareth Wyn Griffith, E. Selwyn Griffiths, Charles Wyn Jones, Michael Sol Owen, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Aelod Lleyg:** John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi - ar gyfer Eitemau 5 a 6 ar y rhaglen), Ian Howse (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr John B. Hughes, Aeron M. Jones, Dilwyn Morgan a W. Tudor Owen.

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Estynnwyd croeso i aelod newydd o'r Pwyllgor, y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith, a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf.

Llongyfarchwyd Ffion Madog Evans ar gael ei phenodi yn Uwch Reolwr Cyllid.

Croesawyd Ian Howse o gwmni Deloitte i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2016, fel rhai cywir.

## 4. DATGANIAD O GYFRIFON 2015/16

### i) Datganiad o'r Cyfrifon

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd bod yr adroddiadau gan Deilotte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwynwyd y fersiwn cyn-archwiliad i gyfarfod 14 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

### ii) Adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

### a) Cyfrifon y Cyngor

Yn unol â'r drefn Archwilio Flynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Deilotte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Ian Howse, Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte.

Adroddwyd bod y gwaith archwilio wedi ei gwblhau a bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2015/16.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Bod un camddatganiad na gywirwyd o ran cam-ddosbarthu arian parod a dderbyniwyd wedi ei ddarganfod ond gan ei fod yn fater o ran amseru ac nid oedd yn newid y sefyllfa ariannol roedd yr archwilwyr yn fodlon nad oedd yn cael ei gywiro;
- Bod un camddatganiad a gywirwyd i'w boddhad;
- Nid oedd unrhyw faterion oedd angen sylw wedi eu hamlygu gan y tîm archwilio yng nghyswllt y risgiau sylweddol a brofwyd;
- Bod y cyfrifon yn rhagorol a'i ddiolch i'r tîm cyfrifo am eu gwaith ac ansawdd y cyfrifon a oedd yn hwyluso eu gwaith o'u harchwilio.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed y camddatganiad a gywirwyd yng nghyswllt cam-ddosbarthu darpariaeth cyflog cyfartal, nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn fater cyfrifyddu technegol ac fe gywirwyd i adlewyrchu'r defnydd o'r arian.

**b) Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Nododd Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2015/16.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol:

- Yng nghyswllt camddatganiadau na gywirwyd, o ran prisio buddsoddiadau eiddo ei fod yn fater o farn felly roeddent yn fodlon nad oedd yn cael ei gywiro gan nad oedd yn ystyriaeth faterol;
- Bod un camddatganiad na gywirwyd o ran camddosbarthu arian parod a dderbyniwyd wedi ei ddarganfod ond gan ei fod yn fater o ran amseru ac nid oedd yn newid y sefyllfa ariannol roedd yr archwilwyr yn fodlon nad oedd yn cael ei gywiro;
- Nid oedd unrhyw faterion oedd angen sylw wedi eu hamlygu gan y tîm archwilio yng nghyswllt y risgiau sylweddol a brofwyd;
- Bod cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn gymhleth iawn a'u bod yn gyfrifon rhagorol.

Nododd aelodau eu gwerthfawrogiad o waith y swyddogion wrth baratoi'r cyfrifon.

Nododd y Pennaeth Cyllid ei werthfawrogiad o gyd-weithrediad yr archwilwyr.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

**5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2016/17 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol. Nodwyd oherwydd y sefyllfa ariannol yn dilyn penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd a phenderfyniad banc Lloegr i leihau cyfradd sylfaenol i 0.25%, y rhagwelir y bydd cyfraddau yn lleihau a byddai effaith ar y llog a dderbynnir fel cyfanswm yn erbyn y gyllideb. O ganlyniad, ni ellir adrodd ar hyn o

bryd y cyrhaeddir y targed a osodwyd yn y strategaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ond fe adroddir pan ddaw'r sefyllfa yn gliriach. Nodwyd bod y perfformiad yn unol â'r hyn a ddisgwylir yn y cyfnod at 31 Awst 2016.

Dosbarthwyd copi o'r wybodaeth ar gyfer y tabl ar dudalen 139 o'r rhaglen.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid nid oedd y Cyngor yn buddsoddi tramor. Ychwanegodd bod y sefyllfa ychydig yn wahanol o ran y Gronfa Bensiwn gyda buddsoddiadau trawsffiniol.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid mai'r strategaeth hirdymor oedd lleihau'r hyn a fenthycir a lleihau'r hyn a fuddsoddir. Nodwyd os byddai llogau yn codi fe ailymwelir a'r strategaeth ac fe adroddir ar y mater i'r Pwyllgor. Holwyd os byddai'r aelodau efo diddordeb mewn cynnal sesiwn efo cwmni Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor i drafod Rheolaeth Trysorlys. Roedd yr aelodau yn awyddus i gynnal sesiwn.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed faint oedd y Cyngor yn hunan fenthyca, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor yn hunan fenthyca tua £40miliwn. Eglurodd nad oedd yn bosib i'r Cyngor hunan fenthyca mwy nag isafswm y llif arian ar y pryd gan y byddai'r Cyngor yn talu crocbris o ran gorddrafft. Nodwyd nad oedd yn cael ei ddatgan fel arbediad yn yr atodlen arbedion ond ei fod yn osgoi costau sylweddol, ystyrir cynnwys y swm yn yr adroddiad blynyddol i adlewyrchu faint y byddai'r Cyngor wedi talu mewn llog pe bae wedi benthyg.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nodwyd bod y Cyngor wedi adennill 98% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable a rhagwelir derbyn dosraniadau pellach. Nodwyd yn gyson â'r hyn adroddwyd ers 2008, fe ddylid adennill y swm llawn, ond nid yw'r amseriad wedi ei gadarnhau gan ei fod yn ddibynnol ar ganlyniad achos llys sy'n parhau.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad er gwybodaeth;**
**(ii) cynnal sesiwn efo cwmni Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor i drafod Rheolaeth Trysorlys.**

## 6. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/7/16 – 16/9/16

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 8 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi ei gwblhau a 3 archwiliad dilyniant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Rheoli Gwybodaeth**

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed hyfforddiant, nododd y Rheolwr Archwilio bod y Cyngor yn darparu hyfforddiant ar-lein a dogfennau yn y ganolfan bolisi yng nghyswllt rheoli gwybodaeth. Nodwyd y gobeithir bod Rheolwyr ac Uwch Reolwyr yn annog swyddogion i gwblhau'r hyfforddiant ond bod hefyd cyfrifoldeb ar yr unigolyn i gwblhau'r hyfforddiant.

Mewn ymateb i sylw dilynol gan yr aelod o ran defnyddio llarpiwr yn hytrach na sachau dinistrio data, nododd y Rheolwr Archwilio bod y Cyngor yn symud i ffwrdd o ddefnyddio sachau dinistrio gan ddefnyddio llarpiwyr fwy. Ychwanegwyd bod symudiad i fuddsoddi mewn llarpiwyr a fyddai'n rhatach yn y pendraw na gweinyddu'r drefn o ddefnyddio sachau dinistrio data.

**Gwyliau Gofalwyr**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, eglurodd y Rheolwr Archwilio y derbyniwyd cais gan y 3 Rheolwr Ardal i edrych ar hawliau gwyliau Gofalwyr Cymunedol gan fod y gweithwyr yn teimlo nad oedd y gwyliau ychwanegol yr oeddent yn derbyn yn wir adlewyrchu eu hawl o bosib. Nodwyd ei fod yn faes cymhleth a bod llawer o waith dadansoddi a gwirio wedi ei gwblhau fel rhan o'r archwiliad a daethpwyd i'r casgliad bod hawliau gwyliau Gofalwyr Cymunedol yn cael eu cyfrifo'n gywir.

Holodd aelod pam nad oedd categori barn wedi ei nodi ar yr archwiliad hwn. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio oherwydd mai ar gais y rheolwyr y cynhaliwyd yr archwiliad y rhoddir sylwadau i'r Adran eu hystyried.

**Cartref Preswyl Plas Gwilym, Penygroes**

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau o ran eu pryderon bod themâu yn amlygu yn rheolaidd mewn archwiliadau o gartrefi preswyl y Cyngor, nododd y Rheolwr Archwilio bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi ymrwymo o ran hyfforddiant yn y maes gofal a rheoli meddyginiaeth. Nodwyd nad oedd gan weithwyr mewn cartrefi gofal fynediad at fodiwlau e-ddysgu ar hyn o bryd ond bod symudiad at eu galluogi i gael mynediad i'r modiwlau. Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb y Rheolwyr Ardal oedd sicrhau bod y trefniadau priodol mewn lle ac fe obeithir bod y materion a godir yn yr archwiliadau yn derbyn ystyriaeth yn holl gartrefi preswyl y Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2016 hyd at 16 Medi 2016 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2016/17.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol hyd at 16 Medi 2016 wedi cwblhau 26.5% o'r cynllun, gyda 22 o'r 83 archwiliad yng nghynllun 2016/17 wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2016/17.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.35am

__________________________

**CADEIRYDD**

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO**

DYDDIAD: **01 Rhagfyr 2016**

TEITL: **Adroddiadau Archwilio Allanol**

PWRPAS: **Cyflwyno crynodeb o gamau gweithredu sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio**

AWDUR: **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol**

AELOD CABINET: **Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

---

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol, yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth, gan sicrhau bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu.

## 2. Dilyniant o'r adroddiad blaenorol

Darparir eglurhad/ gwybodaeth bellach ar y materion isod a adnabuwyd yn y cyfarfod arbennig ar 23ain Mehefin 2016.

2.1 Yn dilyn ymlaen o Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14 a'r maes gwella 'Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth' ydi'r Adran yn fodlon bod pob plentyn yn cael cynnig eiriolaeth?

> "Mae pob plentyn a pherson ifanc sydd yn gymwys i wasanaethau eiriolaeth statudol yn derbyn gwybodaeth ar sut i gysylltu gyda'r gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu yn rhanbarthol gan Tros Gynnal Plant ar sail 'issue based advocacy'. Mae gofalwyr a rhieni yn derbyn gwybodaeth am y gwasanaeth ac ar sut i gyfeirio atynt petai'r plentyn neu'r person ifanc yn dymuno hynny. Mae rhai plant yn dewis cysylltu gyda gwasanaeth eiriolaeth ffurfiol ac rydym yn cadw'r niferoedd a'r rhesymau am y cyfeiriadau ac yn monitro hynny gyda'r darparwr yn chwarterol, ond mae nifer uchel o blant yn dewis person sydd yn agos atynt, er enghraifft gofalwr, rhiant, gweithiwr cymdeithasol i eiriol ar eu rhan yn hytrach na mynd at wasanaeth ffurfiol."

2.2 O dan Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14 a'r maes gwella 'Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant' oes modd cael mwy o wybodaeth o ran pam nad ydi swyddogion yn medru mynychu'r cynadleddau achos, a beth yw'r camau posib sydd angen eu cymryd i ddatrys y broblem?

> "Gwelir o'r ystadegau fod cynnydd sylweddol mewn nifer y cynadleddau yn ystod 2015/16. Roedd hyn yn gyfnod hynod o brysur, gydag achosion cymhleth a nifer o deuluoedd efo mwy na 2 o blant (e.e. 5 mewn un teulu ac 8 mewn un arall). Roedd y pwysau gwaith yn arbennig o heriol ac mae'n hawdd anghofio bod cynadleddau ond yn rhan fechan o'r dyletswyddau a'r gwaith mae

gweithwyr yn ei wneud. Roedd mwy o gyfarfodydd strategaeth, mwy o achosion ger bron y llysoedd ac roedd adegau pan oedd adnoddau'r adran yn ei chael yn anodd ymdopi a'r llwyth gwaith. Rhesymau pam roedd rhai cynadleddau y tu allan i amserlen:

i) Mae'r Canllawiau Amddiffyn Plant yn rhoi 15 diwrnod gwaith i gyflawni'r ymchwiliad amddiffyn plant a dod a'r achos i gynhadledd. Os oes nifer o achosion angen ymchwiliad S47 ar yr un pryd mae'n anodd sicrhau fod pob un ohonynt yn cael eu cyflawni o fewn 15 diwrnod. Does dim pwrpas cynnal cynhadledd os nad yw'r ymchwiliad wedi ei gwblhau a gwybodaeth ddigonol ar gael.

ii) Mae adnoddau Heddlu hefyd yn fwy prin ac mae'n anodd trefnu ymchwiliad ar y cyd lle bo'r angen, pan mae'r Heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol yn brin o staff i wneud y gwaith, neu fod y staff sydd ar gael eisoes yn brysur gydag achosion.

iii) Argaeledd Cadeirydd. Am y rhan helaeth o'r cyfnod, un swyddog oedd ar gael i gadeirio ( erbyn hyn mae swyddog arall ar gael ac yn cadeirio 2 gynhadledd yr wythnos). Yn Arfon fe glustnodir dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfer cynnal cynadleddau, a diwrnod yn Nwyfor/ Meirionnydd. Roedd yn arferiad i'r Cadeirydd yn ystod y cyfnod prysur i gadeirio 8 i 10 cynhadledd yr wythnos. O gofio mor ddwys ag anodd yw natur y cyfarfodydd yma a'r angen i deithio i rai ohonynt, roedd hyn yn cynrychioli "productivity" uchel iawn, oedd yn anodd ei gynnal yn ddiogel. Mae' anodd darganfod "slot" rhydd i gynhadledd ar adegau.

i) O bryd i'w gilydd, mae salwch yn ffactor, gweithiwr neu gadeirydd yn sâl.

v) Mae pob asiantaeth berthnasol i'r maes yma yn ceisio gwneud y gorau gallent yng ngwyneb hinsawdd ariannol heriol. Mae'r Heddlu wedi gwneud penderfyniad na fyddent yn anfon cynrychiolaeth i gynadleddau adolygol. Mae hyn yn golygu fod un asiantaeth statudol yn absennol i gychwyn. Gall asiantaethau eraill fod yn absennol, e.e. ysgolion (sydd yn ei chael yn anodd ar adegau i lenwi'r bwlch i alluogi staff i fynychu). Mae meddygon plant cymunedol yn ceisio mynychu, ond maent yn gweithio ar draws ardaloedd mawr ac yn aml yn methu dod. I fod yn "quorate" mae angen 3 asiantaeth statudol i fod yn bresennol. Mae'r cadeirydd yn ystyried os oes posib cynnal y gynhadledd gyda'r gynrychiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael. Ar adegau, mae angen gohirio, ac mae hyn yn eithriad."

2.3 Oes modd cael ffigwr o ran faint o bobl ifanc NEET sydd gennym yng Ngwynedd?

"Data Hydref 2016:-
139 o rai 16/17 oed yn NEET - Data 5 haen Gyrfa Cymru sef y system genedlaethol i dracio pobl ifanc
305 o rai 18-24 oed yn NEET (di-waith)- Data DWP o NOMIS

Cyfanswm o 444 (Hydref 2016)

Er gwybodaeth pe bai'r 444 yn aros yn NEET ac yn peidio ag ymgysylltu gyda byd gwaith fel oedolion byddai'r gost i'r wlad yn £1 miliwn ( Cole et al 2010)

Er gwybodaeth hefyd rydym newydd dderbyn ffigyrau NEET 2015 sef disgyblion blwyddyn 11 gadawoch ysgol y flwyddyn yma yn NEET - 1.8%. Mae 1.8% ymysg y gorau yng Nghymru h.y. mae gennym ni lai o bobl ifanc yn gadael ysgol y NEET na'r cyfartaledd cenedlaethol."

2.4 O dan 'Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau' nodwyd y cynnydd aruthrol mewn ceisiadau ers dyfarniad llys yn achos Cheshire West. Mae'r Pwyllgor yn gofyn sut mae'r Adran y delio gyda hyn a beth yw'r ymateb i'r cynnydd hyn.

"Mae cyfrifoldebau diogelu yn ei gyfanrwydd yn trosglwyddo yn llawn yn ôl i'r Adran
Rydym am benodi Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd i gymryd perchnogaeth graffu'r materion yma ar draws yr Adran. Bydd y Rheolwr yma yn rheoli ac yn arwain ar waith Uned newydd yn gweithio ar draws yr adran (uned diogelu a sicrwydd ansawdd)
Bydd gwaith DoLs yn rhan allweddol o waith yr uned yma
Ar ôl sefydlu'r rôl Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd bydd bid yn cael ei gyflwyno er mwyn gosod y rôl bresennol DoLs yn barhaol. Bydd Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn cael ei sefydlu gyda mwyafrif o'r tîm yn gwneud asesiadau DoLs (BIA) ac yn rhannu'r baich gwaith yma o dan arweiniad y Rheolwr newydd
Mae cadarnhad wedi ei dderbyn wythnos diwethaf ein bod am dderbyn cyllideb fach (just o dan £20K) er mwyn helpu i ni ymdrin ar lwyth gwaith cynyddol. Byddan yn defnyddio'r gyllideb i dalu am asesiadau a thaliadau ffi i helpu cwblhau asesiadau ar y rhestr aros.

Rhaid cofio fod y patrwm llif gwaith cynyddol yma i weld ar draws Prydain, gyda sawl pryder wedi ei godi a'r mater ar raglen y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Grŵp gweithredol diogelu oedolion Gwynedd ac Ynys Môn. Felly, nid yw yn bell o fod yn fater i Gwynedd yn unig."

## 3. Crynodeb o'r adroddiadau yn Atodiad 1

Ceir crynodeb isod o'r adroddiadau sydd yn Atodiad 1.

3.1 Cyflwynir yn Atodiad 1 restr o arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol dros y blynyddoedd diwethaf ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella, eu cynlluniau gweithredu a'r cynnydd sydd wedi digwydd hyd yma. Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a yw'n fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi digwydd.

3.2 Mae'r wybodaeth wedi ei nodi mewn trefn gronolegol er hwylustod ac yn cynnwys ymateb i adroddiadau cenedlaethol yn ogystal â rhai sy'n benodol i Wynedd.

3.3 Ceir restr o'r adroddiadau a'u ffynonellau yn Atodiad 2.

3.4 O'r 69 o gynigion / argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1, mae crynodeb o'r cynnydd arnynt fel a ganlyn:

| Cynnydd | Nifer |
|---|---|
| Heb gychwyn | 4 |
| Wrthi'n cael ei gynllunio | 2 |
| Ar waith | 34 |
| Wedi'i gwblhau | 29 |
| **Cyfanswm** | **69** |

3.5 Gwelir fod **29** allan o 69 wedi eu cwblhau.

**4. Cynnwys yr adroddiad i'r dyfodol**

4.1 Ar hyn o bryd rydym yn adrodd ar yr holl argymhellion sydd yn nodi eu bod heb eu cwblhau o adroddiadau sydd yn mynd yn ôl cryn flynyddoedd, 2012 erbyn hyn. Rydym felly yn gofyn i chi ystyried a fyddai'n fwy priodol ar gyfer adroddiadau sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, i gynnwys yr adroddiad diweddaraf yn unig.

4.2 Mae hyn ar y tyb y byddai unrhyw beth sydd heb ei gyfarch yn yr adroddiad blaenorol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad diweddaraf.

**5. Argymhellion**

5.1 **Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a yw'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau'r archwilwyr allanol a restrir yn Atodiad 1 wedi eu gweithredu, gan benderfynu os ydyw am alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.**

5.2 **Ystyried a oes angen cynnwys adroddiadau blynyddol hanesyddol yn y rhestr i'w gwirio ai peidio.**

## ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

### 1. Ebrill 2012 - Adborth ar Adolygiad Rheoli Gwybodaeth Cyngor Gwynedd - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r Cyngor wella'r cynllun gweithredu sy'n ategu'r strategaeth wybodaeth i gynnwys camau gweithredu i ganfod anghenion gwybodaeth a chudd-wybodaeth y Cyngor a chydlynu gweithgarwch yr ystod o wasanaethau gwybodaeth i fodloni'r anghenion hyn. | Rheolwr Gwybodaeth | Rôl y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth yw darparu canllawiau ac arbenigedd ar sut i reoli gwybodaeth unwaith mae wedi cyrraedd y Cyngor (o ran diogelwch, gwaredu, cywirdeb, cadw am gyfnodau priodol). Dyma yw rôl gwasanaethau rheoli gwybodaeth ym mhob Cyngor.<br>Rôl yr Uned Ymchwil yw ymateb i anghenion gwybodaeth gwasanaethau.<br>Mae'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn mynd i gael ei diweddaru yn fuan felly gallwn ymgorffori hyn i'r dyfodol os oes dymuniad i wneud hynny. | | Mae Is-Grwp Cynllun Gwybodaeth wedi bod yn cyfarfod er mwyn llunio Cynllun Gwybodaeth newydd sydd yn ehangach na gwaith yr hen Strategaeth Gwybodaeth. Bydd yn cynnwys elfennau ychwanegol megis data agored, defnydd o wybodaeth ac ansawdd gwybodaeth.<br><br>Hefyd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dod yma ym mis Ionawr i edrych ar Reoli Gwybodaeth unwaith eto a bydd modd cael barn ar gyfeiriad y gwaith yma felly yn dilyn yr ymweliad hwnnw. | **Wedi'i gwblhau** |
| 2 | Datblygu fforwm priodol i gydlynu gweithgareddau timau gwybodaeth y Cyngor. | Rheolwr Gwybodaeth | Mae yna gydweithredu gyda'r tîm gwybodaeth Adran Oedolion yn digwydd eisoes a byddwn yn sicrhau ein bod yn glir am bwrpas ac amcan y fforwm.<br><br>Byddwn hefyd yn edrych i mewn i'r dull mwyaf priodol o gydlynu gweithgareddau timau gwybodaeth y Cyngor | | Mae hyn ddigwydd yn naturiol fel rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun Gwybodaeth newydd. Mae hefyd yn digwydd yn anffurfiol eisoes e.e. rhwng y tîm Ymchwil a'r tîm data Gwasanaethau Cymdeithasol. | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

## 2. Blwyddyn 2012-2013 - Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Derbyniwyd 28 Hydref 2013.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Ionawr 2014, ac i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 13 Chwefror 2014.



| Cyf | GWEITHRED | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi un o'r canlynol: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cael gafael ar gymorth** | | | | | |
| **1** | Rhagweld y galw am gymorth cymunedol | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | • Parhau i fonitro er rhagweld y galw<br>• Ymchwil a dadansoddi mewn perthynas â newidiadau demograffig a'r effaith ar y gwasanaeth | Mawrth 2014 Parhaus | Mae gwaith dadansoddi demograffi yn rhan allweddol o'r cylch cynllunio. Mae'r manylion yma yn cael eu cyflwyno gan yr adran, er mwyn sicrhau fod cynnydd mewn demograffi yn cael eu hadlewyrchu o fewn cyllidebau.<br><br>Yn ogystal mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mae trefniadau mewn lle i greu Set Data Gyffredinol fydd yn cael ei ddefnyddio i ragweld galw am wasanaethau i'r dyfodol. | **Wedi'i gwblhau** |
| | | | | | | |
| | **Y gwasanaethau a ddarparwyd** | | | | | |
| **2** | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant | Pennaeth Addysg | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn benodol:<br>• Cytuno ar fodel newydd o ddarparu profiadau a chyfleoedd addysgol i blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Penderfynu ar safleoedd posibl ar gyfer sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd yn ardal Dwyfor-Meirionnydd | Mawrth 2014 | Model Newydd<br>• Wedi derbyn cymeradwyaeth y cabinet i fabwysiadau Strategaeth ADYaCh newydd (ar draws awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn) sydd efo'r nod o:<br>"Sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0-25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi'u cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu."<br><br>• Bydd y Gwasanaeth ADYaCh yn darparu gwasanaeth integredig cynhwysfawr ar draws lleoliadau addysgol y ddwy sir er mwyn:<br>• Hybu datblygiad ysgolion i fod yn lleoliadau cynhwysol.<br>• Lleihau effaith ADY ar ddeilliannau plant a phobl ifanc trwy wella sgiliau a chyraeddiadau.<br>• Darparu addysg addas ac o safon uchel i blant a phobl ifanc gyda ADY.<br>• Lleoli gwasanaethau o safon uchel yn lleol.<br>• Ystyried dyheadau ac anghenion unigol a bod pob plentyn a pherson ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth ac ymyrraeth sydd yn cael ei ddarparu ar ei gyfer/chyfer.<br>• Sicrhau sgiliau o ansawdd uchel o fewn gweithlu canolog a gweithlu ysgolion er mwyn gwella perchnogaeth lawn a chynhwysedd ADY o fewn ysgolion y ddwy sir.<br>• Cyfrannu at wella ansawdd bywyd a lles trwy gyfoethogi'r ddarpariaeth | **Wedi'i gwblhau** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | addysgol sydd yn cael ei ddarparu.<br>• Lleihau'r garfan o blant sydd angen ymyrraeth ychwanegol oherwydd ADY trwy wella cynhwysedd o fewn darpariaethau addysgol.<br>• Cryfhau cysylltiadau ac atebolrwydd am ADY ar draws haenau'r model darparu.<br><br>Y bwriad yw sicrhau fod strwythur staffio'r tîm integredig newydd yn ei le erbyn Medi 2017.<br><br>Canolfan Ragoriaeth Addysg Arbennig newydd Meirionnydd/Dwyfor:<br>• Ysgol newydd Hafod Lon wedi agor ym Mhenrhyndeudraeth diwedd Hydref 2016 | |
| | **Yr effaith ar fywydau pobl** | | | | | |
| **3** | Gwella'r broses o gynllunio addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd / Pennaeth Addysg | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos<br>• Rôl allweddol i'r Cydlynydd Addysg Grwpiau Bregus i sicrhau a chodi ymwybyddiaeth ymysg ysgolion Gwynedd am bwysigrwydd cwblhau'r cynlluniau addysg bersonol yn amserol | Parhau s | Ers Mis Mehefin 2015 mae'r adran wedi ail dylunio'r swydd cydlynydd addysg grwpiau bregus i fod yn swyddog plant mewn gofal yn unig er mwyn canolbwyntio'n llwyr ar anghenion plant mewn gofal a sicrhau bod pob plentyn gyda Cynllun Addysgol Personol gyfredol.<br><br>Mae perfformiad o ran cwblhau Cynllun Addysgol Personol (PEP) wedi gwella gyda pherfformiad chwarter 2, 2016 yn 67%, sydd yn gynnydd sylweddol o berfformiad 15/16 (37.9%)<br><br>Mae perfformiad o ran cwblhau PEP wedi gwella gyda pherfformiad chwarter 2, 2016 yn 67%, sydd yn gynnydd sylweddol o berfformiad 15/16. | **Wedi ei gwblhau** |
| | | | | | | |
| | **Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **4** | Sefydlu system sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau i oedolion | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | • O ran data - datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data'r Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data<br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol<br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth<br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth | Mawrt h 2014 | Datblygwyd system newydd erbyn Mawrth 2014 er mwyn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data'r Adran gan amlygu unrhyw faterion ansawdd data. Defnyddir o hyn allan er mwyn adrodd ar ddata perfformiad neu reolaethol yn unol â'r angen.<br><br>Strategaeth sicrwydd ansawdd wedi ei chreu a fydd yn sail i raglen waith y Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd fydd mewn lle ddiwedd Tachwedd 2016. | **Wedi ei gwblhau** |
| | | | | | | |
| | **Darparu Cyfeiriad** | | | | | |
| **5** | Sicrhau cefnogaeth gorfforaethol i | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi | • Datblygu Strategaeth<br>• Gweithredu'r Strategaeth | Ebrill 2014 | Mae Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn y broses o gael ei gwblhau, a bydd ffocws ar sicrhau cefnogaeth addysg i blant mewn gofal yn derbyn sylw.  Mae'r strategaeth wedi bod mewn ffurf drafft ers cyfnod, ac yn dilyn | **Ar waith** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig ym maes cynllunio addysg | Teuluoedd | | | colli swydd bu oediad yn y gwaith o'i gwblhau. Ers Hydref 2015 mae penderfyniad fod y cyfrifoldeb gweithredol am waith y Panel Rhiant Corfforaethol yn eistedd gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn hytrach na gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, ac mae sicrhau fod strategaeth a chynllun gweithredu clir mewn lle yn flaenoriaeth o ran y rhaglen waith.<br><br>Mae strategaeth wedi ei chyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod 2016 ac mae gweithdy ar gyfer trafod rhaglen weithredu wedi ei gynnal ar ddechrau Gorffennaf. Mae trafodaethau cyfredol yn cymryd lle i edrych ar gryfhau rôl y panel ac aelodau'r panel ar gyfer y dyfodol gyda phwyslais ar gryfhau cyfranogiad plant a phobl ifanc i'r drefn. | |

## 3. Mai 20 – 22 Mai 2014: Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) yng Nghymru 2014 – Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)

| **Cyf** | **Cynigion pellach ar gyfer gwella** | **Cyfrifoldeb** | **Cynllun Gweithredu** | **Erbyn Pryd** | **Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn** | **Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:**<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd barhau i ddatblygu dealltwriaeth am y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ar bob lefel. Dylent sicrhau eu bod yn adeiladu ar wybodaeth a sgiliau presennol rheolwyr gofal mewn gwasanaethau oedolion er mwyn sicrhau, lle ceir achosion awdurdodedig o golli rhyddid, bod adolygiadau rheoli gofal yn adlewyrchu ystyriaeth i ganlyniad ac effeithiolrwydd yr achosion hynny. Dylai'r cysylltiadau rhwng rheoli gofal a monitro contractau mewn gwasanaethau oedolion fod yn fwy cadarn. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Mae rhaglen hyfforddiant mewn lle gyda chyfleoedd hyfforddiant ar gael ar gyfer pob aelod o staff ac unrhyw berson perthnasol arall sydd yn gweithio yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol (2005). Sesiynau penodol wedi eu cynnal ym mis Medi a Hydref gan gyfreithiwr arweiniol yn y maes ar gyfer aelodau etholedig a staff.<br><br>Mae Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn cael ei sefydlu bydd yn arwain ar y gwaith Diogelu rhag Colli Rhyddid.<br><br>Mae'r Adran wedi mabwysiadu trefn Rheolaeth Categori sy'n cryfhau'r cysylltiad rhwng monitro contractau a rheolaeth gofal. | **Wedi ei gwblhau** |

## 4. Mai 2014 – Craffu Da? Cwestiwn Da

Nid ydi'r adroddiad hwn yn cynnwys Argymhellion a oedd wedi eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru gan hynny, mae'r cyfeirnodau ar gyfer yr argymhellion hynny wedi eu gadael allan.

| Cyf | **Argymhellion Gwella** | **Cyfrifoldeb** | **Cynllun Gweithredu** | **Cynnydd** | **Ystyriwch eich cynnydd:**<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses craffu | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae'r rhaglen waith craffu eleni yn cynnwys mwy o eitemau polisi sydd yn derbyn ystyriaeth ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth nad yw hyn yn mynd yn ddigon pell. Bydd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn trafod cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhelliad yn y flwyddyn newydd. *Linc electronig* | Mae Adolygiad 360 gradd y Cyngor a gwaith diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod angen gwneud rhywbeth am y gagendor sydd wedi bod rhwng craffu a'r Weithrediaeth.<br>Mae Is-grŵp sydd yn arwain ar ymateb i adroddiad SAC eisoes wedi cymeradwyo rhai camau i fynd i'r afael â hynny o ran edrych ar y model craffu ac adnabod eitemau blaen-graffu penodol.<br>Bydd gweithdai ddiwedd mis Tachwedd ar fodelau posib newydd ar ôl etholiadau 2017 gydag argymhellion wedyn yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror cyn mynd i'r Cyngor ym mis Mawrth. | **Ar waith** |
| 2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, mae cwrs hyfforddi wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a'i beilota ar gyfer aelodau craffu. Mae'r cwrs peilot wedi ei gynnal a bydd cwrs pellach ym mis Chwefror. *Linc electronig* | Mae sesiynau hyfforddi wedi eu datblygu a'u rhedeg ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda 21 o aelodau yn mynychu dros 2 sesiwn.<br>Bwriedir ail-redeg sesiwn o'r fath yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chynnal sesiynau 1:1 gydag unrhyw aelodau craffu newydd.<br>Mae sesiwn pellach eisoes wedi ei drefnu ar gyfer Ionawr 2017 i ganolbwyntio ar sgiliau a dulliau cwestiynu. | **Ar waith** |
| 3 | Datblygu prosesau blaen raglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>Darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau<br>Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae'r broses ar gyfer llunio'r rhaglen waith yn gadarn ond mae angen sicrhau mwy o gysondeb o ran ei weithredu. Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig* | Eleni, wrth lunio blaen-raglen y pwyllgorau craffu am y flwyddyn, rhoddwyd sylw penodol i gyfran o eitemau blaen-graffu gwahanol.<br>Maent wedi eu nodi fel eitemau blaen-graffu a byddwn yn adrodd arnynt felly ac yn medru dilyn trywydd a mesur dylanwad y blaen-graffu wrth i benderfyniadau gweithredol ddigwydd.<br>Mae fwy eto o achosion o blaen-graffu wedi eu gweld ar bynciau mawr arwyddocaol yn ystod y flwyddyn. | **Ar waith** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | chysoni rhaglenni craffu a threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor | | | | |
| 4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig* | Mae'r drefn yn ei le i ganiatáu i'r Pwyllgor Archwilio gyfeirio materion i bwyllgorau craffu ond nid yw wedi ei weithredu eto. Fel mae'n digwydd mae amryw o faterion adroddiadau archwilwyr allanol wedi cael eu hadnabod ar gyfer blaen-raglen 2016/17 | **Wedi'i gwblhau** |
| 5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig*.<br>Yn y cyfamser, rydym wedi cychwyn trefn o gyflwyno prif argymhellion pwyllgorau craffu i'r Cabinet. | Mae'r pwyslais gan Craffu eleni ar geisio bod yn llawer mwy miniog a phendant o ran argymhellion craffu er mwyn medru tracio dylanwad y craffu hynny ar weithredu.<br>Bydd hynny o fudd wrth ysgrifennu'r adroddiad ar graffu 2016/17 a bydd modd gwerthuso effaith y craffu yn gyffredinol yr adeg hynny. Ni chanfuwyd unrhyw fethodoleg i wneud hynny eto ond byddwn yn adlewyrchu ar hyn wrth lunio'r adroddiad blynyddol. | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |
| 6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae'r Cyngor yn bwriadu edrych ar arfer da a dysgu o gynghorau eraill. Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig*. | Mae gwaith yr Is-Grwp Trefniadau Craffu wedi cynnal gwerthusiad o'r trefniadau ar hyn o bryd ac wedi dod i gasgliad y meysydd penodol sydd angen eu gwella, sef:-<br>• Cryfhau'r cysylltiad â deialog rhwng Craffu a'r Cabinet gan wneud mwy o waith datblygu polisi ar y cyd (y Craffwyr â'r Cabinet)<br>• Bod angen eglurder ar pam bod angen craffu ac adnoddau a sgiliau addas<br>• Ffiniau aelodaeth Pwyllgorau rhy sanctaidd a'r pwysau gwaith yn anghyson<br>• Arafwch y broses ac amlder cyfarfodydd<br><br>Mae Cynllun Gweithredu i ymateb i hynny ar waith ac yn agosáu at ei derfyn gydag argymhellion yn cael eu llunio. | **Ar waith** |
| 7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer | Uwch Reolwr Democratiaet | Y Cynllun Gwaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn y flwyddyn newydd. | Mae'r Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar waith ac yn cael ei ddatblygu ymhellach gan yr Is- | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | h a Chyflawni | | grŵp Trefniadau Craffu (Gweler y sylwadau uchod am gynnydd gyda'r gwaith). | |
| 8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu a'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu a'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig*. | Mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi pwyso a mesur trefniadau ymgysylltu'r Cyngor yn ystod 2015/16.<br>Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo Egwyddorion Cyfranogaeth Cymru a bydd yr egwyddorion hynny yn cael eu dilyn mewn gwaith pellach y mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol am ei gyflawni yn 2016/17 am y defnydd o iaith syml a dealladwy (sydd yn rhan o'r egwyddorion) | **Wedi'i gwblhau** |

## 5. Gorffennaf 2014: Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – Darganfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwella'r broses o werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal sydd wedi'i bwriadu i leihau'r gyfran o bobl ifanc sydd yn NEET. | Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol | Fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a'r cynllun gweithredu mae angen mynd ati i ddatblygu system gwerthuso ar gyfer mesur effeithiolrwydd y 6 maes - parthed y system adnabod gynnar a'i effaith, rôl ac effaith y gweithwyr allweddol, system tracio a chadw mewn cyswllt, effaith y ddarpariaeth leol.<br>Rydym wedi bod yn cydweithio ar lefel rhanbarthol gyda'r system adnabod gynnar ac mae opsiynau pellach parthed cydweithio i gael systemau mesur effaith amrywiol. | Mae cynllun mewn lle ar gyfer datblygu trefnu i fesur effaith y system adnabod gynnar cyn 16 oed ar draws y rhanbarth. Mae'r Rheolydd ymgysylltu yn cael cyfarfodydd cyson gyda Rheolydd TRAC rhan mesur effaith y grŵp sydd wedi cael eu hadnabod.<br>Mae gwaith mapio gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc 16-24 oed wedi ei gwblhau yn ddiweddar ac mae'r data wedi bod yn ddull effeithiol o fonitro pa wahaniaeth mae rhai gwasanaethau yn cael ei gael ar ymgysylltiad pobl ifanc. | | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

### 6. Blwyddyn 2013-2014: Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Cyhoeddwyd 31 Hydref 2014.

Cylchredwyd yr adroddiad i swyddogion perthnasol a'r aelodau perthnasol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11 Rhagfyr 2014 gan Marc Roberts a Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyda chynllun gweithredu'r Cyngor. Yn ogystal cyflwynwyd adroddiad Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Cabinet ar 19 Chwefror 2015 ble y cytunwyd i roi sêl bendith i'r rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion a meysydd gwella yr Arolygaeth.



| | **Maes Gwella** | **Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14** | **Cynllun Gweithredu** | **Sut ydym yn monitro** | **Sefyllfa cynnydd diweddaraf** | **Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth** | **Cyfrifoldeb** | **Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:**<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cael gafael ar gymorth** | | | | | | | |
| **1** | **Amseroldeb gwaith asesu cychwynnol yn y gwasanaethau plant.** | Mae angen gwella canran yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod; yn 2013- 14, llwyddodd y cyngor i gwblhau 67% o asesiadau cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith, o'i gymharu gyda chanran gyfartalog o 72% yng Nghymru. | • Un swydd gweithiwr cymdeithasol wedi ei ychwanegu at sefydliad y Tîm Derbyn cyfeiriadau.<br>• Trefniant mewn lle i uwch weithiwr fod yn cymeradwyo'r asesiadau er mwyn gwella'r perfformiad 7 diwrnod.<br>• Gwaith gwella'r trefniadau, megis adroddiadau rheolaidd yn cael ei gynhyrchu i atgoffa rheolwr o achosion sydd angen eu cau. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc | Nid yw hwn yn berthnasol mwyach gan fod y dangosydd yma wedi diflannu gyda'r Ddeddf Gwas Cym a Llesiant. Erbyn hyn mae un asesiad cyfansawdd yn cael ei gwblhau sydd yn cyfatebu gydag anghenion ac mae cyfanswm o 42 niwrnod i gwblhau asesiad a chreu cynllun gofal a chymorth, ond yr ydym yn lleol yn anelu i osod targed i gwblhau asesiadau syml mewn 10 diwrnod gwaith. | Bydd y Gwasanaeth yn monitro'r drefn newydd | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |
| **2** | **Gwelliant parhaus er mwyn gostwng nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio.** | Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y plant sy'n cael eu hailgyfeirio o 39% yn 2011-12 i 26.6% yn 2013-14; fodd bynnag, mae'r ganran hon yn parhau i fod yn uwch na'r ganran gyfartalog yng Nghymru ac mae'n faes y mae angen gwneud gwelliant parhaus ynddo. | • Yr Adran Plant a Theuluoedd yn monitro hwn yn agos er mwyn sicrhau a chynnal y gwelliant parhaus.<br>• Systemau'r Adran Plant a Theuluoedd bellach yn gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau a hysbysiadau, lle nad oedd hyn yn wir yn y gorffennol, sydd wedi arwain at welliant. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu | 1. Cyrhaeddiad ddiwedd 2015/16 (SCC/010) yn 24.8% sydd yn welliant pellach ar gyrhaeddiad ddiwedd 2014/15 o 25.7%.<br>2. Cyfeiriad y mesur felly yn symud i'r cyfeiriad cywir | Ymdrechion yn parhau a threfniadau dal yn cael eu gweithredu i sicrhau cynnal gwelliant. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |

## ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | **Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. (Iechyd)** | Nododd yr arolygiad cenedlaethol o LAC yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhiantu corfforaethol, dylai'r cyngor sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol.<br><br>Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gostwng o 92.5% yn 2012-13 i 78.4% yn 2013-14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella 15% i 46%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%. | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'r sefyllfa'n agos.<br>• Parhau i gynnal y drafodaeth gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol.<br>• Y maes yma yn cael ei adrodd arno yn rheolaidd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol | Cyfarfodydd mesur perfformiad gydag iechyd yn digwydd yn chwarterol er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau yn cael eu datrys yn syth.<br>Gwaith gwella sustemau hysbysebion LAC mewn lle er mwyn sicrhau bod swyddogion LAC yn derbyn gohebiaeth amserol ar ôl i blentyn dod i ofal am y tro cyntaf.<br>Perfformiad chwarter 2 2016 yn 67%. | Mae hyn yn peri pryder i'r Cyngor ac mae'n faes sydd yn cael sylw gan y Panel Rhiantu Corfforaethol sydd yn parhau i geisio cynnal y drafodaeth gyda BIPBC i well gwelliant yn y sefyllfa. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |
| | **Yr effaith ar fywydau pobl** | | | | | | | |
| 4 | **Amseroldeb cynhadledd-au amddiffyn plant.** | Mae'r cyngor wedi gostwng nifer y plant y mae'n gofalu amdanynt o 203 yn 2012-13 i 185 yn 2013-14. Mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o ran amseroldeb adolygu cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, gyda 94.3% yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol bellach, o'i gymharu gyda 75.4% yn 2012-13. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos.<br>• Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn rhesymau gan y Cydlynydd Amddiffyn Plant Adolygu Annibynnol ar gyfer pob cynhadledd sy'n hwyr a gweithredu fel bo'n briodol. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Grŵp Gweithredol Diogelu Plant Gwynedd ac Ynys Mon | 1. Gwaith monitro a derbyn rhesymau am gynadleddau hwyr yn parhau.<br>2. Cyrhaeddiad ddiwedd 2015/16 (SCC/014) yn 86.7% a SCC/034 yn 85.5%.<br>3. Perfformiad cronnus ar ddiwedd chwarter 2 2016/17 yn 96.9% sydd yn welliant ar berfformiad | Mae'r Adran yn cadw llygad agos ar y rhesymau pam fod cynhadleddau yn hwyr ac yn gweld patrwm clir o fethu cael cworwm (yn unol a Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru gyfan) i gynnal cynhadleddau adolygol yn | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | | (95.9%). | | | blaenorol ac yn uwch na'r targed (90%) | benodol. Mae'r cadeirydd yn gwneud penderfyniad ar sail barn broffesiynol i barhau â'r gynhadledd heb y partneriaid allweddol, neu i ohirio er mwyn sicrhau presenoldeb. Mae'r materion yn cael eu dwyn i sylw'r partneriaid statudol yn rheolaidd i geisio datrysiad. | | |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | | |
| **5** | **Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau** | Canfu arolygiad DoLS AGGCC bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'r aseswyr arbenigol a oedd yn cael eu cynorthwyo gan reolwyr gwybodus a phrofiadol. Nid yw hyfforddiant lleol a gweithgarwch i hyrwyddo DoLS y tu allan i'r cyngor wedi arwain at ymwybyddiaeth eang a dealltwriaeth o'r trefniadau diogelu. Mae'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant DoLS yn adlewyrchu angen mwy cyffredinol i brif-ffrydio DoLS ar draws y cyngor, gofal cymdeithasol ac iechyd. Nododd arolygwyr y dylai'r cyngor ystyried ei drefniadau rheoli er mwyn sicrhau na cheir gwrthdaro rhwng buddiannau rhwng y corff goruchwylio sy'n goruchwylio proses asesu DoLS a'r awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am y gofal a ddarparir.<br><br>Mae cyfraith achosion diweddar wedi ehangu'r cwmpas ar gyfer gweithrediad posibl trefniadau diogelu DoLS yn sylweddol, ac mae hyn eisoes yn cael effaith amlwg ar y galw a'r angen i'r cyngor ymateb mewn ffordd briodol. Mae gan y cyngor 9 o aseswyr budd pennaf ac mae mewn sefyllfa dda i fodloni'r cynnydd o ran y galw. | • Addasu gweithdrefnau Gwynedd o ran DoLS.<br>• Penodi Cydlynydd DoLS i Wynedd.<br>• Trefniadau hyfforddi staff o ran gweithdrefnau a gofynion DoLS.<br>• Llunio rhaglen waith DoLS ar gyfer gwaith pellach o ran ymateb yn lleol gydag oblygiadau DoLS.<br>• Llunio a chyflwyno bid ariannol fel am adnoddau parhaol, ar gyfer ariannu swydd y Cydlynydd DoLS ac ariannu cyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol i ymgymryd â'r gofynion DoLS, o 2015 ymlaen fel rhan o broses bidiau'r Cyngor. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Panel Strategol Diogelu | 1. Addasu gweithdrefnau Gwynedd o ran DoLS wedi digwydd.<br>2. Cydlynydd DoLS i Wynedd wedi ei phenodi.<br>3.Bid wedi ei lunio a'i gyflwyno am adnoddau parhaol, ar gyfer ariannu swydd y Cydlynydd DoLS ac ariannu cyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol i ymgymryd â'r gofynion DoLS, o 2015 ymlaen fel rhan o broses bidiau'r Cyngor.<br>4. Trefniadau hyfforddi staff o ran gweithdrefnau a gofynion DoLS.<br>5. Y gwaith o lunio rhaglen waith DoLS ar gyfer gwaith pellach o ran ymateb yn lleol gydag oblygiadau DoLS i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015. | Mae rhaglen hyfforddiant mewn lle. Mae sesiynau penodol wedi eu cynnal ym mis Medi a Hydref gan gyfreithiwr arweiniol yn y maes ar gyfer aelodau etholedig a staff. Mae Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd wedi ei phenodi a bydd yn cymryd perchnogaeth graffu'r materion yma ar draws yr Adran. Bydd y Rheolwr yma yn rheoli ac yn arwain ar waith yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd. | Pennaeth Adran Oedolion Iechyd a Llesiant | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6** | **Sicrhau ansawdd – Adran Oedolion Iechyd a Llesiant** | Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru.<br><br>Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15.<br><br>Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol. | • O ran data - datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data'r Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data.<br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol.<br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth.<br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Adroddiad Cynnydd Blynyddol i AGGCC | Datblygwyd system newydd erbyn Mawrth 2014 er mwyn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data'r Adran gan amlygu unrhyw faterion ansawdd data. Defnyddir o hyn allan ac er mwyn adrodd ar ddata perfformiad neu reolaethol yn unol â'r angen.<br><br>Mae'r gwaith o greu strategaeth sicrwydd ansawdd yn derbyn sylw ac yn cael ei gynllunio o fewn y strwythur newydd yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. | Mae Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn y broses o gael ei sefydlu, a bydd yn cymryd trosolwg o faterion ansawdd yr Adran. Mae bwriad i gyflwyno adroddiad sicrwydd ansawdd chwarterol i amlygu materion ansawdd yr Adran. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | **Ar waith** |
| **7** | **Sicrhau ansawdd - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru.<br><br>Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15.<br>Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan | • Uned Ddiogelu ag Ansawdd i'w sefydlu yn atebol yn strwythurol i Bennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd<br>• Ffurfioli'r fframwaith gwarantu ansawdd plant fel rhan o raglen waith Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yng nghyfnod blwyddyn berfformiad 2015/16 | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1. Uned Ddiogelu ag Ansawdd wedi ei sefydlu yn Ebrill 2014 sy'n atebol yn strwythurol i Bennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd.<br>2. Gwaith yn mynd rhagddo o ran datblygu'r uned yma. | Yn 2015/16 bydd ymdrechion penodol ar ffurfioli'r fframwaith gwarantu ansawdd plant fel rhan o raglen waith Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol. | | | | | | |
| **Darparu cyfeiriad** | | | | | | | | |
| **8** | **Cymorth rhiantu corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor a phartneriaid.** | Mae'r cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol o ran ei drefniadau rhiantu corfforaethol, ond mae angen datblygu'r rhain ymhellach nawr. Bydd y panel rhianta corfforaethol yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014-15 er mwyn darparu amlinelliad i'r camau gweithredu y bydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo plant mewn gofal. Bydd angen i aelodau ddarparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yn cael eu perchen mewn ffordd effeithiol a'u troi yn gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r cyngor a chan asiantaethau partner; gan sicrhau gofal iechyd priodol, mwy o gymorth addysgol a chyflogaeth dros dro yn y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. | • Datblygu Strategaeth.<br>• Gweithredu'r strategaeth.<br>• Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiantu Corfforaethol wedi ei gyflwyno i'r Cabinet. | Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Cyfarfod diwethaf o'r Panel 20 o Ebrill 2015.<br>2. Trafodwyd:<br>- drafft o'r Strategaeth<br>- Adroddiad iechyd yn ymwneud â phlant a ofelir amdanynt<br>- Gofal iechyd plant mewn gofal<br>- Adroddiad chwarterol plant mewn gofal<br>- Adroddiad cynlluniau addysg bersonol plant mewn gofal<br>- Y gwasanaeth maethu<br>- Cynllun dechrau i'r diwedd | Tim Trothwy gofal wedi cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Panel Rhiant Corfforaethol ac wedi gwneud cyflwyniadau mewn 2 gynhadledd genedlaethol fel esiampl o arfer arloesol da. Gwasanaeth maethu wedi derbyn archwiliad cadarnhaol pellach. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**

## 7. Hydref 2014 - Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Archwiliwyd Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Hydref 2014. Yn dilyn hyn cyflwynwyd y cynigion isod yn adroddiad y Cynghorydd Wyn Williams i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014. Er mwyn sicrhau fod gweithredu wedi digwydd o ran y cynigion, cyflwynwyd yr adroddiad dan sylw, ynghyd a'r adroddiad cenedlaethol, i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29 Medi 2015). Cytunwyd yn y cyfarfod i'r Grŵp Gweithredol ystyried yr argymhellion cenedlaethol a'r cynigion lleol gan adrodd ar unrhyw fylchau sydd yn parhau ac angen sylw pellach. Bydd y Grŵp Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ar y 02 Rhagfyr 2015.

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Adolygu'r gofynion o dan Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus - 02.12.15. | 02.12.15 | Aneglurder wedi codi o ran yr argymhelliad, a'r Adran wedi cysylltu gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn trafod yn union beth sydd o dan sylw. Yn disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru. | **Ar waith** |
| **2** | Gwella'r craffu ar elfennau allweddol trefniadau diogelu'r Cyngor, drwy, er enghraifft, adrodd yn rheolaidd am berfformiad ynglŷn â recriwtio diogel; presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu a'i effaith; a chanlyniad y rhaglen archwilio ysgolion blynyddol. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Planc ac Oedolion Bregus - 02.12.15.<br>5. Dylid pwysleisio bod bodolaeth y Panel Strategol Diogelu yn dystiolaeth yn ei hun o graffu'r maes diogelu - dyma ydi un o'r rhesymau i'r Panel fodoli sef i fonitro a chraffu'r maes.<br>Cafodd yr eitem ei adnabod yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. | 02.12.15 | Cynhaliwyd hyfforddiant gan arbenigwr allanol i aelodau'r Pwyllgor Craffu ar 21 Medi 2016.<br><br>Cafwyd sicrwydd gan yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd wrth gyflwyno Adroddiad Perfformiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 27/09/16 ar y canlynol:<br>- bod y Cyngor yn gweithredu cynlluniau i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff am drefniadau diogelu.<br>- bod pob Adran o'r Cyngor wedi dynodi person fel pwynt cyswllt ar gyfer diogelu.<br>- Bod grŵp tasg wedi'i sefydlu i fesur effaith y cynlluniau a bod Awdit Ymwybyddiaeth yn dangos cynnydd.<br><br>Croesawyd penodiad Swyddog Diogelu i gydlynu'r gwaith yn yr Ysgolion ac anogwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd i gyfrannu'n ymarferol at y gwaith fel Llywodraethwyr ysgolion drwy gynnig cynnal noson i godi ymwybyddiaeth rhieni. | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

## 8. Hydref 2014: Cyflawni a llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) | Mae'n gynyddol anodd sicrhau fod y gwasanaeth iechyd amgylchedd yn cyrraedd y safon uwch presennol o ran darparu gwasanaethau iechyd Amgylchedd. Gyda mwy o doriadau yn cael eu hystyried bydd yn effeithio ar wasanaethau statudol rheng flaen - fe fydd yn anodd hyd yn oed cyrraedd y safonau arfer gorau sylfaenol o 2016 ymlaen. Fe fydd y safonau diwygiedig yn adlewyrchu'r cyd-destun ariannol, ac fe fydd hyn yn creu gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o ran pa lefelau gwasanaeth fydd yn bosib. Rydym yn anelu at gyrraedd y safonau arfer da sylfaenol, lle mae cyllidebau yn gwneud hynny yn bosib. | Mae Safonau Arfer Gorau Cenedlaethol newydd wedi cael eu cyhoeddi.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i gyrraedd y safonau a chyfarch dyletswyddau statudol a rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer hyn, sydd yn cynnwys adolygu strwythur staffio'r gwasanaeth. Nodir y bydd y toriad o 2 swydd rheng flaen yn weithredol o'r 1 Ebrill 2017 ac mae'n debyg y bydd yr effaith o geisio cyflawni gyda llai yn cael ei weld yn ystod 2017/18.<br><br>Nodir fod gwasanaeth iechyd yr Amgylchedd (sef Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd) wedi uno'r barhaol gyda'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd ers 1 Ebrill 2016. Bydd adolygiad o'r strwythur staffio'n cynnwys creu 1 Uned Gefnogol ar gyfer y Gwasanaeth cyfan fydd yn weithredol o'r 1 Ebrill 2017. | Effeithlonrwydd, cysondeb, a rheoli disgwyliadau yn ogystal â gallu canolbwyntio ar gyfarch dyletswyddau statudol. | **Ar waith** |
| 2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae gwaith pellach mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac adolygiad 360 gradd fewnol ar y gweill. Bydd hwnnw yn edrych ar ddatblygu sgiliau craffu aelodau. | Mae sesiynau hyfforddi penodol wedi eu llunio ar gyfer aelodau craffu a bydd ffocws mwy clir eleni yn y gwaith craffu ar yr hyn y mae Craffu yn ceisio gwella.<br><br>Ar ben hynny, bwriedir cynnal un neu ddau o ymarferion eleni i geisio adnabod ffyrdd gwell o fod yn trafod perfformiad | Gwell craffu ar ganlyniadau. | **Wedi'i gwblhau** |
| 3 | Ymgysylltu'n well a thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy: | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) | Fe fydd y Cabinet yn defnyddio canlyniadau'r holiaduron a'r broses ymgynghori i'w cynorthwyo i wneud penderfyniad ar ba wasanaethau fydd | Dinasyddion ac aelodau wedi derbyn gwybodaeth fel rhan o'r broses Her Gwynedd. Adolygiad Unedau'r Gwasanaeth yn mynd ei flaen a bron wedi ei gwblhau ar gyfer yr elfen | Y cyhoedd yn ymwybodol o'r oblygiadau ynghlwm a'r toriad swyddi. | **Ar waith** |

## ATODIAD 1

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • ymgynghori a thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion, a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau new newid safonau gwasanaeth. | | yn cael eu torri. Mae pryder gwirioneddol nad oes gan wasanaethau iechyd yr Amgylchedd broffil ddigon uchel a dyweder, gwaith gwasanaethau cymdeithasol ymysg y cyhoedd, ac mae ymdrechion wedi bod i geisio sicrhau fod y cyhoedd ac aelodau etholedig yn deall beth yw'r risgiau o dorri'r gwasanaethau hyn | trwyddedu ond bydd angen cyflawni sawl tasg ar gyfer gweithredu'n dilyn yr adolygiad. Mae'r adolygiad wedi cynnwys canfod barn trigolion ar y Gwasanaeth. Bydd yr Adolygiad yn un fydd yn cymryd amser i'w weithredu ar draws y Gwasanaeth.<br><br>Adolygiad o strwythur y Gwasanaeth yn cael ei gynnal er mwyn ymateb i effaith ymarferol o golli dwy swydd rheng flaen fel rhan o'r toriadau .<br><br>Adolygiad o ffioedd ar gyfer 2016/17 nawr yn weithredol ac wedi adnabod cyfle i godi ffioedd am wasanaeth drwy adennill costau ar gyfer cynnig cyngor, gyda'r bwriad i hyn fod yn weithredol yn Ebrill 2017. | | |
| 4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol: | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) | Mae holl ffioedd perthnasol sydd ynghlwm a'r gwasanaethau a gynigir yn cael eu hadolygu fel bod y gwasanaethau yn symud tuag at adennill costau. Mae opsiynau posib o integreiddio neu gydweithio yn agosach gyda gwasanaethau eraill yn y Cyngor wedi eu hystyried er mwyn darganfod os yw yn bosib cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau ymhellach. Mae lleihad wedi bod yn y gweithgareddau hynny nad ydynt yn statudol eisoes. Mae polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu fel bod yr hyn a ddisgwylir fel gwasanaeth yn eglur i'r cyhoedd. Rydym yn symud tuag at ddarparu mwy o wybodaeth ar lein gan gynyddu'r hyn sy'n bosib drwy hunan wasanaeth. | Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi eu hadolygu dros y 3 blynedd diwethaf er mwyn adnabod beth sydd yn statudol ac yn anstatudol. Rydym hefyd wedi adnabod y dyletswyddau statudol rheini lle mae hyblygrwydd yn y ffordd yr ydym yn gallu eu cyflawni , er mwyn defnydd mwy effeithiol o gyllidebau , a thargedu adnoddau at y gwasanaethau rheini na ellir eu cyflawni mewn ffordd wahanol.<br><br>Mae'r cyngor yn ymwybodol iawn o beth yw ei flaenoriaethau creiddiol; ac mae ymdrech yn cael ei wneud o dan amgylchiadau sy'n gynyddol anodd i ddiogelu cyllidebau'r gwasanaethau rheini sydd yn greiddiol i sicrhau iechyd y cyhoedd. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys diogelwch bwyd , iechyd a diogelwch busnesau a rheoli llygredd.<br><br>Mae enghreifftiau o weithio ar y cyd ar | Gwell effeithlonrwydd . Targedu adnoddau yn fwy effeithiol. Effaith yn y dyfodol yn anodd ei ragweld eto hyd nes y bydd penderfyniad terfynol wedi ei wneud ynglŷn â pha doriadau pellach fydd i wasanaethau rheng flaen greiddiol fel diogelwch bwyd a rheoli llygredd. | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>• gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>• cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>• defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>• lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | | | brosiectau penodol gyda Chynghorau eraill er mwyn sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau gyda hyn yn digwydd yn bennaf yn y maes safonau masnach. | | |
| 5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail benderfyniadau ar wasanaethau iechyd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) | Mae mesurau perfformiad lleol yn cael eu hadolygu er mwyn bod yn sicr o'n gallu i fesur galw am ein gwasanaethau yn effeithiol a bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth safonol ac amserol. Fe fydd y mesuryddion yn gallu cael eu defnyddio i gynllunio os fydd angen adolygu sut mae adnoddau'r unedau gwasanaeth yn cael eu rhannu. | Mae gwaith wedi ei wneud i adnabod pwrpas y Gwasanaeth gyda mesuryddion perfformiad wedi eu datblygu sydd yn benodol berthnasol i'r pwrpas.<br><br>Mae trefniadau mesur ac asesu perfformiad wedi ei ddatblygu i wneud y dinesydd yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei gyflawni ac i geisio mesur yr hyn sydd yn bwysig i'r dinesydd ac yn cwrdd a phwrpas y Gwasanaeth.Rydym yn herio'r data llawer mwy er mwyn ceisio deall ac i gyflwyno newidiadau lle bo angen ac yn dal i weithio ar wella rhai mesuryddion.<br><br>Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithredu ar raglen hyfforddiant i wella'r defnydd a'r | | **Ar waith** |

## ATODIAD 1

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | | | dealltwriaeth o'r system swyddfa gefn sydd gennym. Mae hyn yn mynd law yn llaw gyda phrosiect hunan wasanaeth sydd yn y broses o gael ei weithredu. Bydd hyn yn cynnwys treialu gweithio'n symudol fydd yn cychwyn cyn diwedd 2017-18 a symud tuag at uchafu'r cyfleoedd i weithio'n ddigidol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cadw golwg ar system swyddfa gefn Tascomi – sydd yn cael ei chyflwyno mewn awdurodau eraill i ystyried os oes cyfleoedd i'r dyfodol. | | |

ATODIAD 1

## 9. Chwefror 2015 - Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rydym yn argymell y dylai corff cyhoeddus:<br>• Sicrhau bod cynghorwyr neu aelodau bwrdd yn cael cyfle i ystyried a yw cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn rhoi gwerth am arian, trwy gyfrwng eu trefniadau craffu/llywodraethu presennol.<br>• Sicrhau bod cynghorwyr a/neu aelodau bwrdd yn cymeradwyo pecynnau mwy costus, fel y rhai ar gyfer uwch reolwyr.<br>• Ystyried defnyddio archwilwyr mewnol i roi sicrwydd bod yr holl gynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn cael eu rheoli'n ddigonol. | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | | Cyflwynwyd adroddiad i bwyllgor craffu corfforaethol y Cyngor oedd yn cyfeirio at rai elfennau yn ymwneud ag ymddeoliadau cynnar. Nid oes gennym enghreifftiau diweddar le bo angen derbyn cymeradwyaeth cynghorwyr ar gyfer pecynnau mwy costus. Roedd yr uned archwilio fewnol wedi rhaglennu archwiliad yn y maes hwn ar gyfer 2016/17 ond yn wyneb diffyg adnodd gwnaed penderfyniad nad oedd cynnal archwiliad ar reolaeth yn y maes hwn yn flaenoriaeth. | | **Wedi'i gwblhau** |
| 2 | Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yn briodol beth yw effaith pob trefniant ar gyfer ymadael yn gynnar o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig os yw corff cyhoeddus yn gweithredu cynllun penodol lle gallai llawer o bobl ymadael. | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | | Rydym wedi adnabod asesu effaith cydraddoldeb fel blaenoriaeth gyffredinol o fewn Cynllun Cydraddoldeb 2016 - 2020 y Cyngor. | | **Ar waith** |
| 3 | Dylai cyrff cyhoeddus fonitro'r arbedion a ddisgwylir ac a sicrheir yn sgil ymadawiadau cynnar a dylent roi adroddiad arnynt fel rhan o'u trefniadau llywodraethu mewnol. Bydd hyn o | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau | Bydd ystyriaeth o'r elfen hon yn ymchwiliad yr uned archwilio fewnol y cyfeirir ato yn A3 uchod. | Mae'r arbedion a wireddir yn cael eu monitro ond nid oes adroddiad ffurfiol yn cael ei chyflwyno ar ymadawiadau cynnar yn benodol ar hyn o bryd.. | | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gymorth pan wneir cynlluniau i leihau costau yn y dyfodol. | Dynol | | | | |
| **4** | Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu trefniadau ar gyfer cadw cofnodion pan wneir trefniadau i staff ymadael yn gynnar, fel y bydd gwybodaeth hollbwysig wrth law ganddynt gan gynnwys nifer yr ymadawiadau cynnar mewn cyfnod penodol a chostau'r rhain, ynghyd â gwybodaeth am y cyfnod ad-dalu yn seiliedig ar gyflogau a chostau Yswiriant Gwladol a phensiwn y cyflogwyr a gwybodaeth am gytundebau setlo. | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion manwl ynghylch penderfyniadau yn ymwneud ag ymadael yn gynnar, gan gynnwys y costau sydd ynghlwm. Rhagwelir y bydd yr archwiliad y cyfeirir ato yn A3 uchod yn rhoi peth ystyriaeth i'r elfen hon. | Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion manwl ynghylch penderfyniadau yn ymwneud ag ymadael yn gynnar, gan gynnwys y costau sydd ynghlwm. Mae'r ffaith nad yw'r Uned Archwilio Fewnol yn ystyried hyn yn flaenoriaeth ar gyfer archwilio pellach yn un arwydd bod trefniadau priodol mewn lle. | | **Wedi'i gwblhau** |



## 10. Blwyddyn 2014-15 - Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Cyhoeddwyd 7 Gorffennaf 2015.

Bu cyflwyniad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Aelodau Cabinet, Penaethiaid, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio ar **30 Gorffennaf 2015**.

| Cyf. | Gweithred | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Sylwadau / Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi un o'r canlynol:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Cymryd rhan lawnach yng Nghynllun Gwastraff ac Adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn dilysu a/neu wella cynlluniau ailgylchu gwastraff a lleihau costau. | Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Cais wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru i gael gwneud ymarferiad 'Toolkit Waste & Resources Action Programme'(WRAP) dan y 'Collaborative Change Programme' (CCP). Dim cyllideb ar gael dan Raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud hyn eleni, ond yn fodlon ystyried hyn ar gyfer 2016/17. | WRAP, gyda chynhorthwy'r Adran yn gwneud yr adolygiad Kerbside Analysis Tool (KAT) ar hyn o bryd. Disgwyl adroddiad drafft ar yr adolygiad ym mis Rhagfyr. | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**

## 11. Gorffennaf 2015 – Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghymru

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy: | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Modiwl e-ddysgu diogelu plant ac oedolion bregus wedi ei ddatblygu . Yn ogystal mae polisi'r Cyngor ar gael yn y Canolfan Bolisi ar fewnrwyd y Cyngor.<br><br>Mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn gyrru'r agenda hwn yn gorfforaethol ac yn anelu i fod yn sicrhau dealltwriaeth lawn o gyfrifoldebau. | | **Wedi'i gwblhau** |
| 2 | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol: | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor | Adroddiad yn cael ei gyflwyno gan y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion bob 6 mis i'r Cabinet sy'n cynnwys diweddariad ar brosiectau strategol y maes Diogelu yn ogystal â data perfformiad perthnasol. | | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**



## 12. Blwyddyn 2014-15 – Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – Cyhoeddwyd 30 Hydref 2015

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 26 Tachwedd 2015.
Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 15 Rhagfyr 2015.
Cyflwynwyd cynllun gweithredu drafft cyntaf i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 28 Ionawr 2016 a chynllun gweithredu llawn i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 23 Chwefror 2016.

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Gwelliannau yn yr arfer o amddiffyn oedolion agored i niwed | 6.6 - Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion.<br><br>6.7 - Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. | Mae Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn y broses o gael ei sefydlu gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd gwaith yr Uned yn cynnwys gwaith amddiffyn oedolion agored i niwed. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | **Ar waith** |
| **1.2** | Moderneiddio gwasanaethau anableddau dysgu | 6.10 - .... Canfu'r cyngor fod angen moderneiddio ei wasanaethau anableddau dysgu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person i gynyddu annibyniaeth. Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r model datblygu sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae hwn yn ceisio gwireddu dyheadau'n well wrth wneud pobl yn annibynnol. Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo dysgu sgiliau newydd ac yn helpu pobl i wneud cymaint o bethau ag y gallant drostynt eu hunain. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2014-15, mae'r cyngor hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad o wasanaethau i oedolion. Mae'r cyngor yn nodi y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2015. | Mae'r gwasanaeth wedi bod trwy ail-strwythuro, gan ddod a staff Darparu Anabledd Dysgu a gweithwyr cymdeithasol at ei gilydd. Mae Tîm Rheoli Anabledd Dysgu wedi ei sefydlu i gydlynu'r gwaith. Mae'r her o gyrraedd arbedion effeithlonrwydd wedi ei gyrraedd. Mae'r gwasanaeth yn gosod ethos gwaith yn seiliedig ar gefnogaeth actif ac ymddygiad positif. Mae nifer o ffrydiau gwaith yn cael eu gweithredu, gan gynnwys peilot Mentrau Cymdeithasol, gofal dydd a gofal ysbaid. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | **Wedi'i gwblhau** |
| **1.3** | Strategaeth a gwasanaethau comisiynu iechyd | 6.10 - Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn | Bydd gwaith y gwasanaeth iechyd meddwl yn dod o dan gyfrifoldeb y Rheolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd. Rydym felly yn cymryd y cyfle i gymryd | Pennaeth Adran | **Ar waith** |

## ATODIAD 1

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|
| | meddwl | 2015-2016..... | cam yn ôl er mwyn cynllunio trefniadau llywodraethu addas ar gyfer heddiw ac i'r dyfodol. | Oedolion, Iechyd a Llesiant | |
| **2.1** | Diogelu oedolion | 6.6 - Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion....<br><br>6.7 - Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. | Mae prosiect diogelu o fewn Cynllun Strategol y Cyngor sef D3 - Diogelu oedolion bregus. Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion.<br><br>Mae sefydlu'r Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd hefyd yn gam gadarnhaol i wella ein trefniadau diogelu. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | **Ar waith** |
| **2.2** | Cymorth i ofalwyr | 6.14 - Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132. | Er mwyn cefnogi cynllunio gwasanaethau gofalwyr i'r dyfodol, rydym wedi bod yn gweithio ar yr asesiad anghenion poblogaeth.<br><br>Rydym wedi bod yn ymgynghori ac yn gwrando ar lais gofalwyr. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r wybodaeth yma'n mynd yn ei flaen. Bydd y wybodaeth allan o hwn yn llywio ein rhaglen waith i'r dyfodol. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | **Ar waith** |

# ATODIAD 1

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **3.2** | Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant | 6.23 - Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd. | Mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd o blant sydd yn derbyn gofal ac felly mae llwyth gwaith y swyddogion adolygu wedi cynyddu. Ar ddiwedd chwarter 2 yn 15/16 cynhaliwyd 132 o adolygiadau ac ar ddiwedd chwarter 2 16/17 cynhaliwyd 153 o adolygiadau gyda 134, sef 88% ohonynt o fewn yr amserlen statudol. Mae cynnydd o 16% ar y nifer o adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod yr un cyfnod. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fonitro yn rheolaidd ac yn casglu gwybodaeth fanwl am y rhesymau dros amseroldeb y rhai sydd ddim yn cael eu cynnal ar amser. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Ar waith |
| **3.3** | Amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant | 6.23 - Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd. | Fel y nodir uchod yn 3.2 mae cynnal cynadleddau adolygol amddiffyn plant o fewn amserlen yn her yn bresennol am y rhesymau a nodir uchod. Mae perfformiad chwarter 1 a 2 wedi bod yn heriol - 71% ar ddiwedd chwarter 1 a 77% ar ddiwedd chwarter 2. Mae dangosyddion mesur presenoldeb cynadleddau achos amddiffyn plant yn dangos fod gweithwyr cymdeithasol yn bresennol yn 100% ohonynt, ond fod her i sicrhau fod cworwm o asiantaethau partneriaid ymhob cynhadledd adolygol. Pan nad oes cworwm mae'r cadeirydd yn gorfod gwneud penderfyniad i un ai barhau a'r gynhadledd neu i ohirio hyd nes bydd cynrychiolaeth ofynnol yn bresennol er mwyn gwneud penderfyniad. Mae'r materion yma yn derbyn sylw penodol gyda'r asiantaethau hynny ar lefel weithredol a strategol. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Ar waith |
| **3.4** | Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal | 6.31 - Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y cyngor o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%). | Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers nifer o flynyddoedd i geisio datrys y problemau o ran cynnal asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal yn amserol. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn dal y Bwrdd iechyd i | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Ar waith |

**ATODIAD 1**

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyfrif er mwyn herio ymarfer a sicrhau fod gwelliannau yn y drefn yn digwydd. Er hynny, mae'r cynnydd wedi bod yn hynod o siomedig, ond yn ystod y flwyddyn hon rydym yn gweld gwelliant yn y perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn gan fod canlyniadau chwarter 1 yn dangos fod 60.7% wedi eu cynnal o fewn amser a 63.4% ar ddiwedd chwarter 2. Mae hyn yn galonogol ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd yn lleol (60%). Mae yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, ond rydym o'r farn ein bod wedi datrys y problemau mwyaf o ran trefniadau a phrosesau er mwyn gweld cynnydd parhaus. | | |
| **4.2** | Craffu a goruchwylio rhoi rhaglenni moderneiddio ar waith | 1.5 - Bydd y newidiadau a fwriedir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am newid mewn arfer a diwylliant sefydledig. Mae natur a graddfa'r newidiadau mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn achosi risgiau sylweddol y bydd angen lefel uchel o graffu a chymorth arnynt er mwyn eu cyflenwi mewn dull amserol. Dylai'r trefniadau newydd, gydag aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, ei gwneud yn haws i weld y datblygiadau gwasanaeth newydd ac i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd. | Mae trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle gydag Aelod Cabinet ar gyfer y maes Oedolion ac Aelod Cabinet ar gyfer y maes Plant. Mae'r ddau aelod yn atebol am y newid sydd yn digwydd o fewn eu meysydd ond hefyd, fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, yn craffu'n barhaus gan gynnig cefnogaeth lle bo angen. Mae hyn yn cael ei wneud yn ffurfiol trwy'r trefniadau Cyfarfodydd Perfformiad Adrannol a chyfarfodydd Cabinet. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn craffu'r prif raglenni trawsffurfio'r maes.<br><br>Fel rhan o'r newid diwylliant sydd ar waith yn y Cyngor, o fod yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth wnawn, rydym yn anelu at gael sefydliad sydd yn craffu'n barhaus ein penderfyniadau. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

## 13. Hydref 2015 - Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn | Uwch Reolwr Tai | • Penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• Ail-alinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• Penodi eiriolwr o blith yr aelodau ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• Diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a'r rhanddeiliaid. | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gyfrifol am arwain gwaith y cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn.<br>Rheolwr Llesiant wedi ei phenodi ac yn gyfrifol am sicrhau fod cynllun gweithredu heneiddio'n dda Cyngor Gwynedd yn cael ei weithredu. Rhaglen waith penodol i'w osod o fewn y misoedd nesaf.<br>Pencampwr Pobl Hŷn wedi ei adnabod, ac yn cynrychioli buddion pobl hŷn Gwynedd. | **Wedi'i gwblhau.** |
| 2 | Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethau i bobl hŷn yn well | Uwch Reolwr Tai | • Sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol;<br>• Ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau. | Drafft Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda wedi ei ddatblygu, ond heb ei gymeradwyo. Trafodaethau i'w cynnal gyda'r Tîm Rheoli Corffoaethol ar beth i'w flaenoriaethu a sut i symud ymlaen.<br>Yn dilyn cyfarfod gyda Tim Arweinyddiaeth y Cyngor, ac ymweliadau â 5 Adran y Cyngor gan y Rheolydd Llesiant, mae Cynllun Heneiddio'n Dda gyda phwyslais newydd ar gefnogaeth ar draws adrannau'r Cyngor yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno i'r Cabinet ar y 13eg Rhagfyr 2016.<br>Age Cymru Gwynedd a Môn wedi ymgysylltu gyda phobl hŷn i adnabod beth yw eu blaenoriaethau.<br>Adroddiad Age Cymru Gwynedd a Môn, sy'n adnabod blaenoriaethau pobl hŷn, yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Heneiddio'n Dda | **Ar waith** |
| 3 | Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn | Uwch Reolwr Tai | Sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y | Rhaglen waith i'w ddatblygu o dan Her Gofal i godi ymwybyddiaeth cymunedau o beth yw gofynion y | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy | | sawl sy'n eu derbyn. | Ddeddf newydd a sut gallant chwarae rôl wrth hybu annibyniaeth pobl hŷn a chyd-gomisiynu gwasanaethau ar eu cyfer.<br><br>Bwriad i ddefnyddio Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd ar ei newydd wedd fel dull ymgysylltu gyda phobl hŷn i ddangos sut mae Adrannau yn cyfrannu. Rhoi enghreifftiau o ymarfer da i ddangos sut mae'n bosibl hybu annibyniaeth trwy gynlluniau gwahanol sydd wedi eu comisiynu ar y cyd rhwng y Cyngor, Iechyd a'r 3ydd sector. | |
| **4** | Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy: | Uwch Reolwr Tai | • Pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r cyngor;<br><br>• Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol;<br><br>• Sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. | Bydd pwyntiau gweithredu penodol o dan wahanol benodau y Cynllun Heneiddio'n Dda wedi eu llunio i'w gweithredu gan Adrannau ac asiantaethau penodol. Disgrifir beth yw'r canlyniadau a ddisgwylir a byddir yn adrodd ar gynnydd y pwyntiau gweithredu yn flynyddol. gyferMesurau wedi eu hadnabod yn y Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda, ond trafodaeth i'w gynnal ynglyn a'u priodoldeb a dull monitro. Y mwyafrif o'r allbynnau wedi eu selio ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | **Ar waith** |
| **5** | Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb | Uwch Reolwr Tai | • Nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• Mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• Nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd yn effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• Sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr | Mae'r gwaith o gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar doriadau arfaethedig y Cyngor trwy Her Gwynedd wedi ei gwblhau.<br><br>Mae trefniadau corfforaethol mewn lle i gefnogi cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Yn ogystal mae prosiect o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2016-20 yn benodol i wella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb. | **Wedi'i gwblhau.** |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt hwy. | | |

## 14. Rhagfyr 2015 - Cyflawni a Llai - Gwasanaethau Hamdden

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden: | Uwch Reolwr Economi a Chymuned | • pennu gweledigaeth gytunedig i gynghorau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; ac<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol. | Mae'r Gwasanaeth ar waith yn gweithredu model busnes Ffordd Gwynedd gan ddatblygu pwrpas a mesurau cyflawni. Mae'r gwaith hwnnw yn cymryd ystyriaeth o'r anghenion cenedlaethol, rhanbarthol a hefyd anghenion pobl Gwynedd.<br><br>O safbwynt Chwaraeon, mae Cyngor Gwynedd yn cymryd rôl flaenllaw mewn datblygu model amgen ar gyfer cynllunio a chomisiynu gweithgareddau yn rhanbarthol. Mae'r achos fusnes bellach wedi ei gytuno ac rydym yn symud ymlaen i weithredu fel bod y corff newydd mewn lle ym mis Ebrill, 2017. | **Wedi'i gwblhau** |
| **2** | Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden. | Uwch Reolwr Economi a Chymuned | Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y cyngor o ran iechyd y cyhoedd; | Mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau astudiaeth lefel uchel ar yr opsiynau posib ar gyfer gweithredu model amgen newydd yng Ngwynedd. Mae'r astudiaeth hwnnw wedi dangos bod modd datblygu sawl model amgen byddai'n rhyddhau arbedion effeithlonrwydd pellach i'r Cyngor ond bod angen cwblhau achos fusnes manwl cyn dod i benderfyniad terfynol. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cyllideb ar gyfer cyflawni'r achos fusnes ac anelir i'w gwblhau ym mis Ebrill, 2017. Bydd yr achos fusnes yn cael ei graffu'n ofalus cyn i'r Cabinet wneud unrhyw benderfyniad yn 2017/2018. | **Wedi'i gwblhau** |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith gwahanol opsiynau ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. | Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl cyflawni £820k o arbedion effeithlonrwydd erbyn 2017/2018 gan leihau'r cymhorthdal ym mhob canolfan hamdden. Gwneir hynny wrth leihau costau yn rhannol ond yn bennaf wrth weithredu yn fasnachol a chynyddu incwm. | |

## 15. Mehefin 2016 - Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu- Cyngor Gwynedd

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Dylai'r awdurdod lleol roi mwy o flaenoriaeth i gynllunio anghenion pobl ag anableddau dysgu. Mae angen arweinyddiaeth i roi cyfeiriad ar gyfer gwella, cymorth proffesiynol ar gyfer staff, ac ymgysylltiad eang gyda rhanddeiliaid. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ers Ebrill 2016 penodwyd Uwch Reolwr newydd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am wasanaethau anableddau dysgu yng Ngwynedd, gan gynnwys y darparwr mewnol anableddau dysgu. Isod amlinellir crynodeb o'r newidiadau allweddol:-<br>• Penodiad Uwch Reolwr newydd;<br>• Penodiad Rheolwr Sirol newydd;<br>• Penodiad Ymarferwyr Uwch newydd;<br>• Penodiad Rheolwr Darparu newydd;<br>• Ffocws diwygiedig ar brosiectau datblygu a moderneiddio;<br>• Uno gofal cymdeithasol oedolion a'r uned ddarparu fewnol i oedolion ag anableddau dysgu;<br>• Secondiad i swyddog hyfforddi sy'n canolbwyntio ar hybu cymorth gweithgar, dilyniant a PBS.<br>• Sefydlu tîm rheoli i'r gwasanaeth (cynhaliwyd sawl cyfarfod a dyddiau datblygu). | Wedi'i gwblhau |
| 2.2 | Dylai'r awdurdod lleol sefydlu sianeli cyfathrebu er mwyn ymgysylltu â phobl, teuluoedd a gofalwyr mewn modd ystyrlon, gan ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth yn ôl yr angen. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i sicrhau sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi sefydlu ethos newydd o hyrwyddo sesiynau ymgysylltu arweinir gan unigolyn cyffredin. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar ddull anffurfiol 'paned a thrafod'. Bydd y gwasanaeth yn parhau i hwyluso ymgysylltu mwy ffurfiol wrth geisio barn benodol ar brosiectau moderneiddio penodol. Yn ychwanegol, yn Awst 2016 fe wnaeth y gwasanaeth gyflwyno ei newyddlen ei hun. | Wedi'i gwblhau |
| 2.3 | Mae angen cynllunio strategol gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu dyheadau a chynlluniau hirdymor. Dylid | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a | Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cysylltiadau strategol cryfach gydag ein cydweithwyr iechyd, yn rhanbarthol ac yn lleol. Rydym yn anelu i ddatblygu ein strategaeth gomisiynu o ganlyniad uniongyrchol i asesiad anghenion ein poblogaeth a gyflwynir i LICC yn 2017. Yn ogystal, bydd fforwm moderneiddio yn cael ei sefydlu yn Rhagfyr 2016 gyda gwahoddiad i'r holl ran ddeiliaid allweddol (yn | Ar waith |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | datblygu strategaeth gomisiynu ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion. | Llesiant | cynnwys cydweithwyr iechyd a darparwyr allanol) i fynychu fel aelodau craidd. | |
| 2.4 | Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a gwella ei gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau, a'u cynnwys yn y gwaith o lunio datganiad o sefyllfa'r farchnad ac mewn trafodaethau am strategaeth gomisiynu ar y cyd gyda'r sector iechyd. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gwahoddir yr holl ddarparwyr i fynychu'r fforwm moderneiddio a sefydlir yn Rhagfyr 2016. Yn ychwanegol, gwahoddir yr holl ddarparwyr i fynychu digwyddiadau ymgynghori ar newidiadau gwasanaeth a all effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau. | **Ar waith** |
| 2.5 | Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau ar gyfer diogelu oedolion, gan sicrhau bod eglurder o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau a threfniadau sicrwydd ansawdd. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cytunwyd i sefydlu uned diogelu a sicrwydd ansawdd ar gyfer gwasanaethau oedolion. Ar hyn o bryd hysbysebir swydd reoli newydd ar ddiogelu oedolion a sicrwydd ansawdd a bydd y sawl a benodir yn arwain ar waith yr uned dan oruchwyliaeth yr Uwch Reolwr Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Diogelu. | **Ar waith** |
| 2.6 | Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r ffordd y mae'n diogelu hawliau pobl lle mae eu rhyddid yn cael ei amddifadu er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn iawn. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Fel yr uchod, bydd y Rheolwr newydd yn canolbwyntio ei sylw ef/hi ar y ffrwd waith penodol yma. Y nod yw y byddai sawl aelod o'r uned ddiogelu newydd yn derbyn hyfforddiant fel aseswyr 'Budd Pennaf' ac felly bydd ganddynt y sgiliau perthnasol i asesu'r oedolion hynny sy'n destun mesurau trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DoLs). Yn ychwanegol, bydd cynllun gwaith newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu systemau a mesurau diogelu a sicrwydd ansawdd yn cael ei lunio a'i weithredu yn ystod hydref 2016. | **Ar waith** |
| 2.7 | Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff perfformiad ei reoli'n briodol, a bod cyngor proffesiynol ar waith i gefnogi'r gweithlu. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Mae systemau yn weithredol i sicrhau bod y staff anableddau dysgu yn derbyn goruchwyliaeth broffesiynol gan yr Uwch Reolwr. | **Wedi'i gwblhau** |

## 16. Hydref 2016- Diogelwch Cymunedol yng Nghymru

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol. | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol | Mae'r Argymhellion yn datgan y bod hwn yn gyfrifoldeb sydd yn eistedd gyda – Llywodraeth Cymru/Swyddfa Gartref/Comisiynydd yr Heddlu, a Llywodraeth leol.<br><br>Hyd yma, does dim cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru na'r Swyddfa Gartref y bod trafodaeth yn mynd ymlaen i ddatblygu fframwaith cenedlaethol. Nes y bydd, mae'n anodd ymateb yn lleol | **Heb Gychwyn** |
| **A2** | Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol | Mae'r Argymhellion yn datgan y bod hwn yn gyfrifoldeb sydd yn eistedd gyda – Llywodraeth Cymru/Comisiynydd yr Heddlu, a Llywodraeth leol<br><br>Mae Strwythurau Cyngor Gwynedd yn gyson gyda'r anghenion statudol -HY - mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol mewn bodolaeth. Yn lleol. Mae'r Bartneriaeth leol yn cydweithio gyda'r Bwrdd rhanbarthol i dynnu gwaith at ei gilydd -fel y gofyn. - mae yna gynrychiolaeth o'r tri chorff cyfrifol (uwchben) ar y Bwrdd<br><br>Does dim trafodaethau rhanbarthol/lleol eto i benderfynu os oes angen newid strwythurau yma yng Ngogledd Cymru | **Heb Gychwyn** |
| **A3** | Gwella gwaith cynllunio trwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cynnwys gwaith pob partner ac sy'n nodi'r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol. | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol | Mae'r Argymhellion yn datgan y bod hwn yn gyfrifoldeb sydd yn eistedd gyda – Llywodraeth Cymru/Comisiynydd yr Heddlu, a Llywodraeth leol<br><br>Yng Ngogledd Cymru, mae yna Strategaeth Ranbarthol, sydd yn cynnwys blaenoriaethau'r Comisiynydd. Yn deillio o rain, mae yna gynlluniau gweithredol lleol mewn lle. | **Wedi'i gwblhau** |
| **A4** | Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymiadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrff cyflawni i wella'r gwaith o gynllunio prosiectau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol | Mae'r Argymhellion yn datgan y bod hwn yn gyfrifoldeb sydd yn eistedd gyda – Llywodraeth Cymru/Comisiynydd yr Heddlu, a Llywodraeth leol<br><br>Mae grantiau penodol Diogelwch cymunedol, mwy na lai bellach i gyd wedi ei chyfuno | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | cenedlaethol. | | | |
| **A5** | Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol | Mae'r Argymhellion yn datgan y bod hwn yn gyfrifoldeb sydd yn eistedd gyda – Llywodraeth Cymru/Comisiynydd yr Heddlu, a Llywodraeth leol<br><br>Mae yna fesuriadau rhanbarthol, Lleol a lefel gwasanaeth mewn lle.<br><br>Does dim mesuriadau cenedlaethol eto, oherwydd y sefyllfa -parthed argymell un.<br><br>Posib y bydd hyn yn cael sylw pellach ar ôl sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | **Ar waith** |
| **A6** | Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell bobl yng Nghymru | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol | Mae'r Argymhellion yn datgan y bod hwn yn gyfrifoldeb sydd yn eistedd gyda –Comisiynydd yr Heddlu, a Llywodraeth leol<br><br>Trafodaethau rhwng Comisiynydd yr Heddlu a'r Cyngor parthed hyn, ddim eto wedi digwydd | **Heb gychwyn** |
| **A7** | Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol | Mae'r argymhellion yn datgan y bod hwn yn gyfrifoldeb i Fyrddau Gwasanaethau cyhoeddus<br><br>BGC eto i gwblhau asesiad anghenion, ac eto i gwblhau strategaeth ar gyfer Gwynedd ac Ynys Mon | **Heb gychwyn** |

Adroddiadau Archwilio Allanol

| Cyf | Adroddiad | Dyddiad | Corff Archwilio | Math |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Adborth ar Adolygiad Rheoli Gwybodaeth Cyngor Gwynedd | Ebrill 2012 | Swyddfa Archwilio Cymru | Lleol |
| 2. | 2012-13 Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 2012-13 | Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | Lleol |
| 3. | Adolygiad Cenendaethol o'r Dewfnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) yng Nghymru- Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Mai 2014 | AGGCC | Lleol |
| 4. | Craffu Da? Cwestiwn Da | Mai 2014 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |
| 5. | Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddianr- Darganfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | Gorffennaf 2014 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |
| 6. | 2013-14 Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 2013-14 | AGGCC | Lleol |
| 7. | Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd | Hydref 2014 | Swyddfa Archwilio Cymru | Lleol |
| 8. | Cyflawni a llai- yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | Hydref 2014 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |
| 9. | Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru | Chwefror 2015 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |
| 10. | Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | 2014-15 | Swyddfa Archwilio Cymru | Lleol |
| 11. | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghymru | Gorffennaf 2015 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |
| 12. | 2014-15 Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 2014-15 | AGGCC | Lleol |
| 13. | Helpu Pobl i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghroau'n Gwneud Digon? | Hydref 2015 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |
| 14. | Cyflawni a Llai- Gwasanaethau Hamdden | Rhagfyr 2015 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |
| 15. | Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu- Cyngor Gwynedd | Mehefin 2016 | AGGCC | Lleol |
| 16. | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Hydref 2016 | Swyddfa Archwilio Cymru | Cenedlaethol |

Nodir: Cyflwynir adroddiadau llawn SAC ar 'Cydnerthedd ariannol Gwynedd' i'r Pwyllgor Archwilio arwahan, a rhoddir sylw ar yr adeg hynny i'r argymhellion sy'n berthnasol i ni.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Archwilio** |
| DYDDIAD: | **1 Rhagfyr 2016** |
| TEITL: | **Cyllideb Refeniw 2016/17 –<br>Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2016)** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2016/17 – Adolygiad Ail Chwarter) i'r Cabinet ar 22 Tachwedd 2016.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol. Bwriedir cyflwyno penderfyniadau'r Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Wedi'i amgáu:**
Adroddiad Cyllideb Refeniw 2016/17 – Adolygiad Ail Chwarter (Cabinet 22/11/2016)

**ADRODDIAD I'R CABINET**
22 Tachwedd 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2016/17 –
Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2016)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Trosglwyddo (£135k) o gyllideb gorfforaethol i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyllido'r costau ychwanegol o ganlyniad i'r newid yn ymwneud â chodi tâl am y chwe wythnos gyntaf o ofal preswyl a nyrsio.

- Caniatáu i'r Adran Rheoleiddio ddefnyddio (£200k) o'u tanwariant i gyllido cynlluniau penodol i wella cyflwr meysydd parcio.

- Trosglwyddo (£300k) o'r Adran Rheoleiddio i'r Gronfa Ddiswyddo Gorfforaethol er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.

- Cynaeafu (£300k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, a (£290k) o danwariant Budd-daliadau, ynghyd â (£200k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan 'Eraill', a'i drosglwyddo fel a ganlyn:

  - defnyddio (£20k) o'r tanwariant fel cyfraniad ariannol i Bwll Nofio annibynnol Harlech er mwyn gwneud taliad pontio un tro ar gyfer y cyfnod hyd at 31 o Fawrth 2017, yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar y 4 o Hydref 2016.

  - defnyddio (£135k) i gyllido oblygiadau ariannol newid yn y Ddeddfwriaeth Gofal 2014 gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

  - y gweddill o (£635k) i'w neilltuo i Gronfa Trawsffurfio.

## 2 Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 12 Gorffennaf 2016. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2016/17, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

### 2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y tuedd o orwariant fel a welwyd yn 2015/16 yn parhau gan yr Adran, ond gwelir yma gyfuniad o danwariant mewn rhai meysydd, ond gorwariant gan eraill. Eleni bu newidiadau penodol yn ymwneud â chodi tâl am y chwe wythnos gyntaf o ofal preswyl a nyrsio ynghlwm â'r Ddeddf Gofal 2014. Daeth i rym ar y 1 Ebrill 2016, ond a gyflwynwyd yn rhy hwyr i'w hadlewyrchu yng nghyllideb 2016/17. O ganlyniad gwelwyd diffyg yn yr incwm cysylltiedig a dderbynnir gan y Cyngor. Gan fod oblygiadau'r newid yn bwysau anorfod ychwanegol ar yr Adran, mi fydd yn destun bid ar gyfer 2017/18. Argymhellir felly fod cyllideb o £135k yn cael ei drosglwyddo tuag at y costau ychwanegol sydd yn cael eu hysgwyddo gan yr Adran eleni.

### 2.2 Adran Addysg

Pwysau ychwanegol ar y penawdau Ddiswyddiadau ac Ymddeoliadau Cynnar mewn ysgolion, ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond arbedion a gyflawnwyd o flaen llaw yn cynorthwyo gyda'r sefyllfa eleni. Argymhellir unwaith eto eleni i ddefnyddio cronfa wrth gefn i liniaru'r gorwariant yn ymwneud â Diswyddo ac Ymddeoliad Cynnar, er mwyn ceisio cadw'r sefyllfa o dan reolaeth.

### 2.3 Adran Rheoleiddio

Mae darlun incwm ffafriol ynghyd â gwireddu arbedion ymlaen llaw gan yr Adran Rheoleiddio eleni yn galluogi'r Adran ddarparu tuag at ariannu rhai cynlluniau penodol i wella asedau'r Cyngor. Wrth ganiatáu hynny, gellir hefyd drosglwyddo cyfran o'r tanwariant i'r Gronfa Ddiswyddo Corfforaethol.

**2.4 Corfforaethol**

Argymhellir i neilltuo tanwariant o'r sylfaen Treth y Cyngor, a thanwariant Budd-daliadau a phenawdau eraill o'r gyllideb Corfforaethol, i Gronfa Trawsffurfio, er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

**2.5 Cyffredinol**

Argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant, defnydd o adnoddau penodol wrth gefn, er mwyn sicrhau fod yr adnoddau ar gael i flaenoriaethau'r Cyngor. Wedi hynny, bydd y darlun net ar draws y Cyngor, am y tro, ac yn gyffredinol, yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar 14 Chwefror 2017 ar yr adolygiad trydydd chwarter.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn amlygu rhai achosion lle rydym yn wynebu canlyniadau annisgwyl o ran proffil gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn anorfod i ryw raddau, ond mae'r adroddiad yn amlygu ein bod yn fyw i'r materion hyn ac yn cynllunio'n rhesymol mewn ymateb iddynt.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

## Cyllideb Refeniw 2016/17 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Ail Chwarter | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17 £ '000 | Symud i/o Gronfeydd £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Chwarter Cyntaf £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 50,016 | 303 | 0 | (135) | 168 | *334* |
| **Plant a Theuluoedd** | 13,945 | 168 | 0 | 0 | 168 | *120* |
| **Addysg** | 88,883 | 216 | (203) | 0 | 13 | *479* |
| **Economi a Chymuned** | 11,570 | 73 | 0 | 0 | 73 | *65* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 22,929 | 118 | 0 | 0 | 118 | *200* |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 9,656 | (523) | 0 | 500 | (23) | *(214)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 1,181 | 70 | 0 | 0 | 70 | *122* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 642 | (29) | 0 | 0 | (29) | *0* |
| **Cyllid** | 943 | (67) | 0 | 0 | (67) | *0* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 551 | (88) | 0 | 0 | (88) | *0* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | * | (980) | 0 | 790 | (190) | *(60)* |
| **Cyfansymiau (net)** | 200,316 | (739) | (203) | 1,155 | 213 | *1,046* |

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 9,947 | 9,627 | (320) | 0 | (320) | (131) |
| Gofal Cartref | 6,354 | 6,356 | 2 | 0 | 2 | 177 |
| Eraill | 2,785 | 2,752 | (33) | 0 | (33) | (60) |
| | 19,086 | 18,735 | (351) | 0 | (351) | (14) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 479 | 419 | (60) | 0 | (60) | 23 |
| Gofal Cartref | 1,016 | 1,041 | 25 | 0 | 25 | 36 |
| Eraill | 711 | 659 | (52) | 0 | (52) | (1) |
| | 2,206 | 2,119 | (87) | 0 | (87) | 58 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 14,928 | 14,804 | (124) | 0 | (124) | (290) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,386 | 1,651 | 265 | 0 | 265 | 300 |
| Eraill | 2,004 | 1,899 | (105) | 0 | (105) | 0 |
| | 3,390 | 3,550 | 160 | 0 | 160 | 300 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolwyr | 424 | 412 | (12) | 0 | (12) | 0 |
| Tîm Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,412 | 2,403 | (9) | 0 | (9) | 0 |
| | 2,836 | 2,815 | (21) | 0 | (21) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **42,446** | **42,023** | **(423)** | **0** | **(423)** | **54** |

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 68 | 130 | 62 | 0 | 62 | |
| Gofal Dydd | (20) | 3 | 23 | 0 | 23 | |
| Gofal Cymunedol | 92 | 234 | 142 | 0 | 142 | 80 |
| Eraill | 26 | (11) | (37) | 0 | (37) | (20) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **166** | **356** | **190** | **0** | **190** | **60** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 4,392 | 4,420 | 28 | 0 | 28 | 20 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,012 | 3,520 | 508 | (135) | 373 | 200 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **7,404** | **7,940** | **536** | **(135)** | **401** | **220** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,016** | **50,319** | **303** | **(135)** | **168** | **334** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - tanwariant o (£351k) yn cael ei ragweld yn bennaf gan fod niferoedd cleientiaid mewn lleoliadau preswyl a nyrsio yn lleihau.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - rhagwelir tanwariant o (£87k) o ganlyniad i ddau achos preswyl a nyrsio sydd yn trosglwyddo i gyfrifoldeb Iechyd, nifer o achosion taliadau uniongyrchol yn lleihau, ond cynnydd yn y galw am becynnau gofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - yn dilyn yr un tuedd â'r darlun a adroddir yn Gwasanaethau Pobl Hŷn uchod, tanwariant ar preswyl a nyrsio a gwasanaethau dydd ond gorwariant ar gynlluniau cefnogol a thaliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - yr un tuedd â 2015/16 yn parhau gyda gorwariant net o £160k o ganlyniad i achosion newydd preswyl a nyrsio, ond tanwariant ar swyddi gwag.

**Gwasanaethau Darparu** - gor a thanwariant ar benawdau amrywiol o fewn y pennawd Gofal Preswyl. Amcan gorwariant o £142k ar ofal cymunedol, £85k ohono o ganlyniad i orwariant ar gostau teithio gyda'r gweddill ar staffio a gorbenion.

**Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol** - rhagwelir tangyflawni net o £508k ar gynlluniau arbedion yr Adran, gyda nifer o'r cynlluniau arbedion yn llithro, neu eto i'w gwireddu yn 2016/17. Mae bwriad gan yr Adran i gymryd camau i geisio sicrhau fod y darlun yn gwella erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a hynny drwy ail-becynnu eu cynlluniau arbedion.

Bu newidiadau penodol yn ymwneud â chodi tâl am y chwech wythnos cyntaf o ofal preswyl a nyrsio ynghlwm â'r Ddeddf Gofal 2014. Daeth i rym ar y 1 o Ebrill 2016, ond a gyflwynwyd yn rhy hwyr i'w hadlewyrchu yng nghyllideb 2016/17. O ganlyniad gwelwyd diffyg yn yr incwm cysylltiedig a dderbynnir gan y Cyngor. Gan fod oblygiadau y newid yn bwysau anorfod ychwanegol ar yr Adran, mi fydd yn destun bid ar gyfer 2017/18. Argymhellir fod cyllideb o £135k yn cael ei drosglwyddo tuag at y costau ychwanegol sydd yn cael eu hysgwyddo gan yr Adran eleni.

**Argymhellir** trosglwyddo (£135k) o gyllideb corfforaethol i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyllido y costau ychwanegol o ganlyniad i'r newid yn ymwneud â chodi tâl am y chwech wythnos cyntaf o ofal preswyl a nyrsio.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 467 | 445 | (22) | 0 | (22) | 0 |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,864 | 2,059 | 195 | 0 | 195 | 80 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,263 | 2,335 | 72 | 0 | 72 | 80 |
| Maethu Drwy Asiant | 970 | 1,032 | 62 | 0 | 62 | 70 |
| Maethu Mewnol | 1,640 | 1,696 | 56 | 0 | 56 | 60 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,448 | 1,528 | 80 | 0 | 80 | 70 |
| | 6,321 | 6,591 | 270 | 0 | 270 | 280 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 1,037 | 843 | (194) | 0 | (194) | (130) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,445 | 1,391 | (54) | 0 | (54) | (50) |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 235 | 211 | (24) | 0 | (24) | (20) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 107 | 56 | (51) | 0 | (51) | (20) |
| Gwasanaethau Eraill | 2,469 | 2,517 | 48 | 0 | 48 | (20) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,945** | **14,113** | **168** | **0** | **168** | **120** |

## Plant a Theuluoedd

**Gwasanaethau Gweithredol** - rhagolygon y bydd gorwariant o £195k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ar staffio a chostau uwch pecynnau gofal cymhleth, sydd yn dilyn yr un tuedd â'r gorwariant o £175k a adroddwyd yn 2015/16.

**Gwasanaethau Lleoliadau** - gorwariant o £270k yn cael ei ragweld ar wasanaethau lleoliadau, gyda'r amcan wedi lleihau o £10k ers rhagolygon chwarter 1. Er fod rhai achosion wedi dod i ben, rhagwelir y bydd achosion newydd lleoliadau all-sirol a maethu drwy asiant yn arwain at orwariant eleni. Gorwariant ar lwfansau, a thâl ar gadw y 'Cynllun Aros Ymlaen' maethu mewnol yn gorwario £50k. Mae'r gwaith yn parhau i gwrdd â'r targedau arbedion cysylltiedig â'r maes.

**Gwasanaethau Ôl-16** - tanwariant o (£194k) yn cael ei ragweld yn dilyn lleihad ar hyn o bryd yn y galw am gynlluniau cefnogol Ôl-16.

**Gwasanaethau Arbenigol / Derwen** - rhagwelir tanwariant o (£54k) o ganlyniad i arbedion un-tro yn ymwneud â throsiant staff.

**Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar** - ffioedd incwm ychwanegol a mân danwariant ar nifer o benawdau.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 72,236 | 72,236 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,396 | 4,433 | 37 | 0 | 37 | 36 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 347 | 550 | 203 | (203) | 0 | 267 |
| Integreiddio | 140 | 140 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| All Sirol | 992 | 992 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arlwyaeth a Glanhau | 349 | 228 | (121) | 0 | (121) | 10 |
| Addysg Meithrin | 597 | 576 | (21) | 0 | (21) | 0 |
| Grant Grant Gwella Addysg | 529 | 529 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolaeth | 1,680 | 1,650 | (30) | 0 | (30) | (20) |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1,933 | 2,118 | 185 | 0 | 185 | 186 |
| Cefnogaeth i Ysgolion Sydd yn Tanberfformio | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Bellach | 24 | 12 | (12) | 0 | (12) | 0 |
| Arian wrth Gefn Ysgolion | 219 | 219 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau | 1,607 | 1,607 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 3,804 | 3,779 | (25) | 0 | (25) | 0 |
| **Cyfanswm Addysg** | **88,883** | **89,099** | **216** | **(203)** | **13** | **479** |

## Addysg

**Diswyddo ac Ymddeol Cynnar -** yn ôl y wybodaeth ddiweddaraf rhagwelir sefyllfa gorwariant o £203k ar ddiswyddiadau ac ymddeoliadau cynnar, gyda 83% o'r costau yn berthnasol i'r ysgolion uwchradd a 17% i ysgolion cynradd. Gostyngiad yn niferoedd disgyblion, ac felly effaith demograffeg yw'r prif reswm am y sefyllfa. Bydd yr Adran yn defnyddio cronfa benodol sydd ganddynt i'r pwrpas i liniaru'r sefyllfa.

**Arlwyaeth a Glanhau -** yn ôl y rhagolygon diweddaraf, tanwariant o (£121k) yn debygol yn bennaf o ganlyniad i wireddu arbedion 2017/18 yn ymwneud ag arlwyaeth ysgolion yn gynnar.

**Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol -** amgylchiadau yn ymwneud â un ganolfan benodol yn gyfrifol am y gorwariant o £185k a ragwelir ar y pennawd yma.

Sefyllfa gymharol gytbwys gan yr Adran yn dilyn ariannu'r gorwariant ar ddiswyddiadau ac ymddeoliad cynnar o gronfa, gyda thanwariant mewn rhai meysydd yn pontio y llithriad o £64k sydd yn yr arbedion eleni.

Atodiad 2

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 902 | 902 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cefnogaeth Busnes | 173 | 192 | 19 | 0 | 19 | 40 |
| Marchnata a Gofal Cwsmer | 587 | 587 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Cymunedol | 499 | 499 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sgiliau a Mentergarwch | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tîm Prosiectau Strategol | 816 | 862 | 46 | 0 | 46 | 40 |
| Strategaeth a Datblygu | 232 | 232 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Archifau | 411 | 402 | (9) | 0 | (9) | (5) |
| Amgueddfeydd | 159 | 154 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Orielau | 77 | 77 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Neuaddau | 278 | 289 | 11 | 0 | 11 | 0 |
| Celfyddydau | 272 | 269 | (3) | 0 | (3) | 0 |
| Parciau Gwledig | 116 | 100 | (16) | 0 | (16) | 0 |
| Morwrol | 167 | 275 | 108 | 0 | 108 | 20 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 1,311 | 1,213 | (98) | 0 | (98) | (80) |
| Gwasanaeth Cymunedau'n Iach - Canolfannau Hamdden | 3,392 | 3,432 | 40 | 0 | 40 | 50 |
| Datblygu Chwaraeon | 270 | 270 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd | 1,897 | 1,877 | (20) | 0 | (20) | 0 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **11,570** | **11,643** | **73** | **0** | **73** | **65** |

## Economi a Chymuned

**Morwrol** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bydd gorwariant net o £108k, yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg incwm Hafan Pwllheli a'r harbyrau, yn dilyn lleihad yn y galw am angorfeydd. Bu ymgais gan yr Adran i leihau y bwlch yn yr incwm drwy leihau costau yn y safleoedd o £87k. Rhagwelir y bydd y tuedd yn parhau, ac felly mae bwriad gan yr Adran i gyflwyno bid i liniaru'r effaith ar gyfer 2017/18.

**Gwasanaeth Ieuenctid -** rhagwelir tanwariant o (£98k) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan y Gwasanaeth Ieuenctid, (£78k) ohono ar ddwy swydd wag swyddogion datblygu, a (£20k) ar glybiau ieuenctid, wrth i'r Adran ymgeisio i adnabod arbedion ar gyfer 2017/18 ac  ymlaen yn y meysydd yma.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 9,158 | 9,189 | 31 | 0 | 31 | |
| Gwasanaethau Peirianneg | 450 | 469 | 19 | 0 | 19 | |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 2,316 | 2,151 | (165) | 0 | (165) | 0 |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo | 1,638 | 1,685 | 47 | 0 | 47 | 200 |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | 3,713 | 3,805 | 92 | 0 | 92 | 0 |
| Gwastraff Masnachol | (20) | 105 | 125 | 0 | 125 | 0 |
| Eraill Gwastraff | 1,693 | 1,730 | 37 | 0 | 37 | 0 |
| Is-Gyfanswm Gwastraff | 9,340 | 9,476 | 136 | 0 | 136 | 200 |
| Amlosgfa a Mynwentydd | 128 | 71 | (57) | 0 | (57) | 0 |
| Eraill Bwrdeistrefol | 3,869 | 3,876 | 7 | 0 | 7 | 0 |
| | 13,337 | 13,423 | 86 | 0 | 86 | 200 |
| Unedau Gwaith Bwrdeistrefol | (16) | (34) | (18) | 0 | (18) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **22,929** | **23,047** | **118** | **0** | **118** | **200** |

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Maes Gwastraff** - nifer o resymau am yr amrywiant gan y gwasanaethau o fewn y maes gwastraff gan gynnwys:

- Gwaredu Gwastraff - rhagwelir tanwariant o (£165k) o ganlyniad i lai o wastraff yn cael ei dirlenwi.

- Safleoedd Trin a Throsglwyddo - y tuedd o ddiffyg incwm a welwyd y llynedd yn parhau, ond fod y rhagolygon yn ymddangos yn well erbyn eleni. Arbedion a gyflawnwyd ymlaen llaw a chostau staffio yn lleihau y gorwariant net i orwariant o £47k a adroddir.

- Casglu Gwastraff ac Ailgylchu - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu gorwariant o £92k ar y pennawd. Yn gyfuniad o wireddu arbedion ymlaen llaw ar wastraff gwyrdd, ond hyn yn cael ei wrthbwyso gyda £48k o leihad grant, costau gweithredol ac adnewyddu uwch a llithriad yn yr arbedion banciau ailgylchu.

- Gwastraff Masnachol - yn dilyn trefniadau newydd o resymoli biniau ysgolion, gwelwyd colled incwm o £125k. Ond yn gyfochrog â hyn, mae effaith y rhesymoli eisoes i'w weld gan fod gostyngiad yn y gwastraff sydd yn cael ei dirlenwi, ac felly tanwariant yn erbyn y gyllideb Gwaredu Gwastraff a adroddir arno uchod.

**Amlosgfa a Mynwentydd** - Rhagwelir y bydd yr incwm (£57k) uwchlaw 'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Rheoleiddio** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 371 | 343 | (28) | 28 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 372 | 343 | (29) | 29 | 0 | 0 |
| Eraill | (33) | (46) | (13) | 13 | 0 | 0 |
| | 339 | 297 | (42) | 42 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 2,432 | 2,432 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnal Adeiladweithiau | 1,136 | 1,136 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 297 | 267 | (30) | 30 | 0 | 0 |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 336 | 337 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Gwasanaethau Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,015) | (1,092) | (77) | 77 | 0 | (214) |
| Cludiant | 2,112 | 1,984 | (128) | 128 | 0 | 0 |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 426 | 287 | (139) | 139 | 0 | 0 |
| Eraill | 27 | 2 | (25) | 25 | 0 | 0 |
| | 5,751 | 5,353 | (398) | 399 | 1 | (214) |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad a Mynediad | 1,163 | 1,159 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 304 | 304 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd | 1,801 | 1,766 | (35) | 31 | (4) | 0 |
| Gwasanaethau Arlwyo, Glanhau a Gofalu | 6 | 2 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Gwasanaethau Eiddo | (79) | (91) | (12) | 0 | (12) | 0 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio** | **9,656** | **9,133** | **(523)** | **500** | **(23)** | **(214)** |

## Rheoleiddio

Rhagwelir sefyllfa tanwariant gan nifer o'r gwasanaethau o fewn yr Adran ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn cyflawni arbedion staffio 2017/18 ymlaen llaw, gan gynnwys yn Rheolaeth, Rheolaeth Datblygu, Diogelwch y Ffyrdd, Gorfodaeth a Thrafnidiaeth, a Gwarchod y Cyhoedd.

**Cludiant -** cyfuniad o danwariant ar swyddi, tanwydd a chyflenwadau a gwasanaethau.

**Gwasanaethau Parcio a Gorfodaeth Parcio -** y tueddiad o incwm uwch na'r targed yn gyson â'r darlun a welwyd y llynedd, ynghyd ag arbedion staffio.

**Crynhoad ac Argymhelliad**
Rhagwelir sefyllfa tanwariant gros o (£523k) eleni, ac felly yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet yn gyfle i'r Adran ddefnyddio (£200k) i hunan-ariannu cynlluniau penodol i wella cyflwr meysydd parcio, gan ryddhau (£300k) i'r Gronfa Ddiswyddo Gorfforaethol er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.

**Argymhellir** caniatáu i'r Adran Rheoleiddio ddefnyddio (£200k) o'u tanwariant i gyllido cynlluniau penodol i wella cyflwr meysydd parcio.
**Argymhellir** trosglwyddo (£300k) o'r Adran Rheoleiddio i'r Gronfa Ddiswyddo Gorfforaethol er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau fel Cyngor.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | 49 | 177 | 128 | 0 | 128 | 122 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 948 | 896 | (52) | 0 | (52) | 0 |
| Gwasanaethau Adeiladu | 184 | 178 | (6) | 0 | (6) | 0 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **1,181** | **1,251** | **70** | **0** | **70** | **122** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - yn ôl y rhagolygon diweddaraf bydd gorwariant tebygol o £128k o ganlyniad i ostyngiad mewn ffioedd incwm, ond yr Adran yn parhau i geisio adnabod ffynonellau eraill o incwm.

**Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd -** tanwariant o (£52k) ar swyddi a chostau teithio.

Mae'r Adran yn ymgeisio i reoli'r gyllideb, ond pe byddai'r sefyllfa gorwariant yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bwriad yr Adran yw defnyddio adnodd mewn cronfa wrth gefn i liniaru'r sefyllfa.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 642 | 613 | (29) | 0 | (29) | 0 |
| Cyllid | 943 | 876 | (67) | 0 | (67) | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 551 | 463 | (88) | 0 | (88) | 0 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **2,136** | **1,952** | **(184)** | **0** | **(184)** | **0** |

## Adrannau Canolog

**Cyllid** - amcan tanwariant o (£67k) yn ôl y rhagolygon yn dilyn llwyddiant yr Adran i ddenu incwm ynghyd â thanwariant un-tro ar swyddi.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - rhagwelir sefyllfa tanwariant net o (£88k), yn bennaf o ganlyniad i arbedion staffio un-tro. Hefyd yn gynwysedig o fewn y sefyllfa mae diffyg incwm o £32k gan Galw Gwynedd a £18k gan yr Argraffdy.

**Cyllideb Refeniw 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter**

| Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau) | Cyllideb Arfaethedig 2016/17 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2016/17 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2016/17** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (300) | 300 | 0 | 0 |
| Budd-daliadau | * | * | (290) | 290 | 0 | (60) |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 66 | 0 | 66 | 0 |
| Eraill | * | * | (456) | 200 | (256) | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(980)** | **790** | **(190)** | **(60)** |

## Corfforaethol

Rhagwelir sefyllfa ffafriol o gasgliad uwch o (£300k) ar Dreth y Cyngor, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o dai newydd yn ystod y flwyddyn. Tanwariant o (£290k) ar Fudd-daliadau, ond £66k o ostyngiad mewn Derbyniad Llog Net o ganlyniad i sefyllfa bresennol y farchnad.

O fewn y pennawd 'Eraill' cynhwysir (£295k) o arbedion net gan gynnwys arbedion a lwyddwyd i gyflawni ymlaen llaw, (£100k) bid nad oes angen mwyach, (£31k) o dderbyniad incwm ychwanegol a thanwariant o (£30k) ar gostau cyfalaf.

Pwll Nofio Harlech - cytunodd y Cabinet ar y 4 o Hydref 2016 i gyfrannu £20k eleni fel taliad pontio un-tro tuag at y fenter Pwll Nofio Harlech. O ganlyniad i sefyllfa ffafriol sydd yn cael ei ragweld eleni gan Corfforaethol, mae modd cyllido'r cyfraniad yma o gyllidebau Corfforaethol.

**Argymhellir** cynaeafu (£300k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, a (£290k) o danwariant Budd-daliadau, ynghyd â (£200k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan 'Eraill', a'i drosglwyddo fel a ganlyn:
- defnyddio (£20k) o’r tanwariant fel cyfraniad ariannol i Bwll Nofio annibynnol Harlech er mwyn gwneud taliad pontio un-tro ar gyfer y cyfnod hyd at 31 o Fawrth 2017, yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar y 4 o Hydref 2016.
- defnyddio (£135k) i gyllido oblygiadau ariannol newid yn y Ddeddfwriaeth Gofal 2014 gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
- y gweddill o (£635k) i'w neilltuo i Gronfa Trawsffurfio, er mwyn cynorthwyo efo'r newidiadau sydd o'n blaenau er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Archwilio** |
| DYDDIAD: | **1 Rhagfyr 2016** |
| TEITL: | **Rhaglen Gyfalaf 2016/17 –<br>Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2016)** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad ail chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 22 Tachwedd 2016 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol. Bwriedir cyflwyno penderfyniadau'r Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Wedi'i amgau:**
Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2016/17 – adolygiad yr ail chwarter (Cabinet 22/11/2016)

**ADRODDIAD I'R CABINET**
22 TACHWEDD 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2016/17 - Adolygiad Ail Chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd o £1.367m mewn defnydd o fenthyca arall (gan gynnwys benthyca heb gefnogaeth)
- lleihad o £1.174m mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd o £0.035m mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd o £0.938m mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**1. Cyflwyniad**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2016/17. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £60.949m am y 3 blynedd 2016/17 – 2018/19.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net o oddeutu £1.166m ers yr adolygiad chwarter cyntaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2016/17 i 2017/18
- Atodiad C: Gwariant 6 mis cyntaf 2016/17.

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £34.493m yn 2016/17, gyda £9.895m ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £2.442m o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2016/17 i 2017/18, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2016/17 i 2018/19

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 17,155 | 9,573 | 237 | 26,965 | (278) |
| Cyllid | 549 | 895 | - | 1,444 | 135 |
| Economi a Chymuned | 1,123 | 1,158 | - | 2,281 | (254) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 2,301 | 2,323 | - | 4,624 | 200 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 733 | 301 | - | 1,034 | 431 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 48 | - | - | 48 | - |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,898 | 2,963 | 3,650 | 11,511 | 569 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 418 | 263 | - | 681 | - |
| Rheoleiddio | 5,945 | 4,341 | 52 | 10,338 | 270 |
| Ymgynghoriaeth | 1,101 | - | - | 1,101 | 93 |
| Corfforaethol | 222 | 700 | - | 922 | - |
| **CYFANSWM** | **34,493** | **22,517** | **3,939** | **60,949** | **1,166** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £1.166m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad chwarter cyntaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,652 | 6,352 | 321 | 13,325 | - |
| Benthyca Arall (gan gynnwys benthyca heb gefnogaeth) | 8,705 | 4,027 | 119 | 12,851 | 1,367 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 9,895 | 4,187 | - | 14,082 | (1,174) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 591 | 1,257 | - | 1,848 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,443 | 1,644 | - | 4,087 | 35 |
| Cronfa Cyfalaf | 1,303 | 1,284 | - | 2,587 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,904 | 3,766 | 3,499 | 12,169 | 938 |
| **CYFANSWM** | **34,493** | **22,517** | **3,939** | **60,949** | **1,166** |

## 5. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2016/17 i 2018/19 (rhan 3), a**
- **chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (rhan 4 uchod).**

## 6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2016/17 - 2018/19.

## 7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n dda bod yr adroddiad yn cynnig elfen o sicrwydd i'r Cabinet am lif a reolaeth arian cyfalaf y Cyngor. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae unrhyw lithro neu ail-broffilio, fel yn y cynlluniau y cyfeirir atynt yn Atodiad B, yn medru golygu oedi mewn gwireddu buddiannau i drigolion, ac mae angen cadw llygad cyson ar hyn er mwyn sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi hynny.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiad**
Atodiad A, B a C

---------------------------

**Prif Newidiadau Fesul Ffynhonnell Ariannu:**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | Cynnydd/(Lleihad) 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall (gan gynnwys Heb Gefnogaeth)** | | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – cynnydd mewn benthyca, addasiad technegol i'r ffynhonnell ariannu er mwyn gostwng y lefel o grant a chynyddu'r lefel benthyciad gyda chefnogaeth ar gais blynyddol gan y Llywodraeth (gweler hefyd Grantiau a Chyfraniadau isod). Ni fydd y newid technegol yma mewn ariannu yn cael unrhyw effaith ar y cynlluniau, a bydd Llywodraeth Cymru yn dal i ariannu 50% o'r gost. | 1,500 | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) – gostyngiad grant, gweler Benthyca Arall am eglurhad uchod. | (1,500) | |
| • Grant Gofal Canolraddol (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) - grant gan y Llywodraeth yn bennaf ar gyfer datblygu ystafelloedd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon i greu hwb gymunedol i gleientiaid anabledd dysgu, i greu uned egwyl fer ym Mhenrhyndeudraeth, ac ar gyfer addasiadau i gartref Llys Cadfan i dderbyn gwelyau dementia ac arbenigol. | 431 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Nifer o fân gynlluniau | 35 | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Cynllun Adnewyddu Pibellau Dŵr Stadau Tai CCG (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - ariannu gwaith anorfod i reoli ac adnewyddu pibellau dŵr ar stadau tai o gronfa benodol (gweler adroddiad Cabinet 7/6/16). | 300 | |
| • Cartgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – gwariant uwch yn sgil y newid o finiau ailgylchu i'r math yma o gynhwysydd. | 210 | |
| • Pont Briwet (Adran Rheoleiddio) – defnydd o gronfa benodol i ariannu costau ychwanegol sydd yn ymwneud ag atal erydiad ar wely'r afon | 200 | |
| • Cynllun VOIP (voice over internet protocol) (Adran Gyllid) - gwariant ar drwyddedau ychwanegol, ffônau newydd a thaliadau i'r cyflenwr. | 136 | |

---------------------------

**ATODIAD B**

## Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi ei hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Rheoleiddio) | (1,350) | 1,350 |
| Cynlluniau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor (Adran Gyllid) | (427) | 427 |
| Cynlluniau Tai - Cynllun Tair Blynedd (Adran Dai) | (323) | 323 |
| Adleoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Lles) | (301) | 301 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

----------------------------

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 6 Mis Cyntaf 2016/17**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Medi) 2016/17 £'000 | GWIR WARIANT 6 MIS HYD AT 30/09/2016 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 17,155 | 7,060 |
| Cyllid | 549 | 172 |
| Economi a Chymuned | 1,123 | 204 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 2,301 | 663 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 733 | 139 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 48 | - |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,898 | 944 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 418 | 54 |
| Rheoleiddio | 5,945 | 2,335 |
| Ymgynghoriaeth | 1,101 | 770 |
| Corfforaethol | 222 | - |
| **CYFANSWM** | 34,493 | 12,341 |

**Noder:**
Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (36%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (39%). Er hynny, nid yw'n achosi pryder, gan roedd 2015/16 yn flwyddyn anghyffredin.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 RHAGFYR 2016** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 18 TACHWEDD 2016** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 19 Medi 2016 hyd at 18 Tachwedd 2016.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 18 Tachwedd 2016:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 21 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

### 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 18 Tachwedd 2016, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Grant Amddifadedd Disgyblion | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 1 |
| Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 2 |
| Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Beddgelert | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 3 |
| Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Talsarnau | Addysg | Ysgolion | C | Atodiad 4 |
| Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Tregarth | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 5 |
| Rheolaeth Gyllidebol – Ysgol Santes Helen | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 6 |
| Trothwyon Gwirio | Cyllid | Ariannol | - | Atodiad 7 |
| Strwythur Codio | Cyllid | Cyfrifeg | - | Atodiad 8 |
| Taliadau Tai Dewisol | Cyllid | Refeniw | A | Atodiad 9 |
| Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor | Economi a Chymuned | Hamdden | B | Atodiad 10 |
| Canolfan Hamdden Plas Silyn | Economi a Chymuned | Hamdden | A | Atodiad 11 |
| Canolfan Hamdden Dwyfor | Economi a Chymuned | Hamdden | B | Atodiad 12 |
| Canolfan Hamdden Bro Dysynni | Economi a Chymuned | Hamdden | B | Atodiad 13 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Casglu Incwm Traethau | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | B | Atodiad 14 |
| Rheolaeth Gyllidebol – Darparu | Oedolion, Iechyd a llesiant | Ar draws yr Adran | B | Atodiad 15 |
| Grant Cefnogi Pobl | Oedolion, Iechyd a llesiant | Cefnogi Pobl | A | Atodiad 16 |
| Plas Pengwaith, Llanberis | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 17 |
| Llys Cadfan, Tywyn | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 18 |
| Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 19 |
| Grant Refeniw Dechrau'n Deg | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Plant a Theuluoedd | B | Atodiad 20 |
| Ffioedd MOT | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | B | Atodiad 21 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | Economi a Chymuned | Hamdden | Derbyniol |
| Canolfan Hamdden Arfon | Economi a Chymuned | Hamdden | Derbyniol |
| Cartref Cefn Rodyn | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | Derbyniol |

2.3.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** - pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** - y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** - nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** - y mwyafrif o'r argymhellion heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2016**

Arwylaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol Ardudwy
Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol y Gader

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2017**

Plas y Don
Plas Hedd
Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 21 Tachwedd 2016.

- Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu – Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd *(Corfforaethol)*
- Iechyd a Diogelwch – Coed *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Defnydd o Gardiau Credyd *(Corfforaethol)*
- Y Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant (*Addysg*)
- Ysgolion – Cyffredinol *(Addysg)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Storiel – Trefniadau Llywodraethu a Rheoli *(Economi a Chymuned)*
- Cyfrifon Clybiau Ieuenctid *(Economi a Chymuned)*
- Gwerthiant Disel *(Economi a Chymuned)*
- Trefniadau Parhad Busnes/Gwasanaeth *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Diogelu Rhag Colli Rhyddid *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Taliadau Uniongyrchol *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Gweithwyr Cefnogol *(Plant a Chefnogi Teuluoedd)*
- Mabwysiadu *(Plant a Cefnogi Teuluoedd)*
- Iechyd Anifeiliaid *(Rheoleiddio)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 19 Medi 2016 hyd at 18 Tachwedd 2016, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**GRANT AMDDIFADEDD DISGYBLION**
**ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Gwelwyd bod trefniadau newydd wedi dod i rym ar gyfer 2015/16 gydag elfen newydd ar gyfer plant blynyddoedd cynnar a phlant mewn gofal yn ogystal â'r elfen hanesyddol o ddirprwyo arian i'r ysgolion ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd. Y Consortiwm Addysg Lleol sef GwE sy'n gyfrifol am weinyddu'r elfen plant mewn gofal yn ogystal â sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y GAD ac am gefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Sicrhau bod rheolaeth fewnol briodol ar gyfer gweinyddu'r GAD sy'n ymwneud ag elfennau o ddirprwyo arian yn uniongyrchol i ysgolion yn ogystal ag elfennau yn ymwneud â chefnogi plant blynyddoedd cynnar a phlant mewn gofal, er mwyn lliniaru risgiau yn unol ag amodau a thelerau'r grant. Dethol sampl o daliadau ar ffurf anfonebau, siwrnalau a chyflogau a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r gwahanol elfennau o'r grant a sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Cadarnhau bod y swm o'r grant wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod trefniadau priodol ar gyfer monitro'r grant a hawlio cyllid y grant gan Lywodraeth Cymru.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymddengys bod trefniadau da yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r GAD. Gwelwyd bod y swm priodol o'r cyllid wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion. Gwelwyd o'r sampl gwariant a archwiliwyd ar gyfer yr Uned Blynyddoedd Cynnar, yr Adran Addysg a GwE eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Yn ogystal roedd trefniadau priodol ar gyfer hawlio'r cyllid yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

3.2 Wrth archwilio sampl o daliadau yn ymwneud â'r grant, daethpwyd ar draws rhai achosion lle nad oedd defnydd pob amser yn cael ei wneud o'r slipiau pinc (TR252b) ar gyfer talu anfonebau. Gwelwyd bod y rhain yn anfonebau a broseswyd gan Adran Addysg y Cyngor sydd yn gyfrifol am wariant elfen Cyngor Gwynedd o blant mewn gofal. Mae disgwyliad bod y Cyngor yn cadw anfonebau neu unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â grantiau Llywodraeth Cymru hyd y bydd Llywodraeth Cymru wedi eu hysbysu y gellir eu dinistrio, oherwydd hyn y disgwyliad yw bod slip pinc yn cael ei atodi ar bob anfoneb sy'n ymwneud â'r GAD.

3.3 Archwiliwyd sampl o gynlluniau datblygu ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd a gwelwyd bod dadansoddiad o gyfanswm dyraniad GAD yr ysgolion wedi eu nodi yn y cynlluniau a ddetholwyd. Derbyniwyd cadarnhad hefyd gan Reolwr Busnes a Chyllid GwE bod y datganiadau hefyd wedi eu cynnwys naill ai ar safle we'r ysgol neu ar safle we GwE.

3.4 Wrth archwilio cyfanswm gwariant yr elfen plant mewn gofal sydd o dan arweiniad GwE gwelwyd bod tanwariant canolog gan GwE o £75,277.60. Mae hwn yn swm sylweddol o danwariant, fodd bynnag cafwyd eglurhad clir gan Reolwr Busnes a Chyllid GwE mewn perthynas â'r tanwariant. Derbyniwyd yr eglurhad isod a ddarparwyd gan Reolwr Busnes a Chyllid GwE ar gyfer y Cydbwyllgor:

"***GAD-PMG -****2015/16 oedd y flwyddyn gyntaf i'r grant PMG cael ei weithredu yn unol â threfniadau newydd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd cadarnhad am y trefniadau wedi ei dderbyn tan ddiwedd chwarter 1 y flwyddyn ariannol. O ganlyniad, nid oedd Cydlynydd mewn lle tan ddiwedd chwarter 1 a 2 dymor yn unig oedd ar gael i ddatblygu a darparu'r rhaglen. Rydym yn hyderus ein bod mewn sefyllfa llawer gwell eleni gan ein bod wedi derbyn amser i baratoi a datblygu'r rhaglen a fydd yn cael ei gynnal dros flwyddyn gyfan".*

Mae'r archwiliwr wedi derbyn copi o'r rhaglen sy'n amlinellu'r gwariant amcangyfrifedig ar gyfer yr elfen Plant Mewn Gofal GAD sydd o dan reolaeth GwE am y flwyddyn 2016/17. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud gan yr Uwch Gyfrifydd i dalu'r tanwariant uchod yn ôl i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ffigwr tanwariant terfynol.

**4. Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y Grant Amddifadedd Disgyblion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r Adran Addysg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Swyddog am sicrhau bod slipiau pinc TR 252b yn cael eu hatodi ar bob anfoneb sy'n ymwneud â gwariant y grant yn y dyfodol.

Atodiad 2

**GRANT GWELLA ADDYSG AR GYFER YSGOLION ADDYSG**

**1. Cefndir**

1.1 Ar 1af Ebrill 2015 bu i Lywodraeth Cymru gyfuno'r grantiau canlynol mewn un prif grant, a elwir yn Grant Gwella Addysg (GGA):

- Cyfnod Sylfaen
- Llwybrau Dysgu 14-19
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
- Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
- Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso
- Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
- Ysgolion Arweiniol a Datblygol
- Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd
- Cyllid i Ysgolion Band 4 a 5

Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau'r grant 2015/16 yn nodi bod disgwyliad isafswm o gyfanswm y cyllid gros y grant o 80% yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod lletyol ar gyfer y GGA. GwE sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y GGA ac am gefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Yn dilyn archwiliad mewnol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016 ar y grant, roedd angen cynnal archwiliad pellach er mwyn cadarnhau bod y ffigyrau terfynol a gaiff eu cyflwyno ar 'Ddatganiadau o Wariant Refeniw Awdurdod Lleol - Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion 2015-16' Cyngor Gwynedd a GwE yn gywir. Nid oedd yn bosibl gwneud hyn yn ôl ym mis Mawrth gan nad oedd y ffigyrau terfynol ar gael i'w harchwilio.

2.2 Cadarnhau bod sail i'r ffigyrau a fydd yn cael eu cyflwyno ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant a dilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfriflyfr i gadarnhau eu bodolaeth. Dethol sampl ychwanegol o daliadau ar ffurf anfonebau a siwrnalau mewn perthynas â'r grant i'r hyn archwiliwyd yn ystod archwiliad Mawrth 2016 a sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod sail i'r ffigyrau a gofnodwyd ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant, dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfriflyfr y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir.

3.2 Gwelwyd bod y gwariant pellach archwiliwyd yn rhesymol i amcanion y grant.

3.3 Gwelwyd bod cyfanswm terfynol cost gweinyddiaeth GwE wedi codi o'r ffigwr £167,750 a gytunwyd yn wreiddiol i £210,348.25, oherwydd bod rhai cynlluniau penodol o dan reolaeth GwE wedi tanwario. Deëllir gan Uwch Gyfrifydd (DR), Cyngor Gwynedd bod GwE wedi cadarnhau fod cost ac amser rhai staff penodol yn cyrraedd at y swm gweinyddiaeth £210,348.25. Roedd telerau ac amodau'r grant yn caniatáu hyn gan y nodir o dan Amod 5 'Costau Gweinyddiaeth a Rheolaeth':

***"The administration level for the first year of the Funding will be set at no more than 1.5% of the total gross grant (including match funding)."***

Mae'r gost gweinyddiaeth a weithredir gan y consortia yn erbyn y grant yn parhau yn is na'r gyfradd 1.5%, serch cynyddu cost gweinyddiaeth GwE yn erbyn y grant.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Grant Gwella Addysg 2015/16 gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad archwilio dyddiedig Mawrth 2016 eisoes wedi derbyn sylw.**

Atodiad 3

**RHEOLAETH GYLLIDEBOL - YSGOLION CYNRADD**
**YSGOL BEDDGELERT**

**1. Cefndir**

1.1 Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Penaethiaid i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliadau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol yn amrywio o un ysgol i'r llall gan fod hyn wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol ac wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Sicrhau fod trefniadau rheolaeth gyllidebol briodol yn bodoli yn ysgolion cynradd Gwynedd. Detholwyd sampl o ysgolion o bob ardal o fewn Gwynedd gan ddewis yr ysgolion ar sail cyllideb, sef dwy ysgol â chyllideb isel (llai na £200,000), dwy ysgol â chyllideb ganolig (rhwng £200,000 a £350,000) a dwy ysgol â chyllideb uchel (mwy na £350,000).

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymddengys bod trefniadau rheolaeth gyllidebol da yn bodoli yn Ysgol Beddgelert gyda materion cyllidol yn cael eu trafod mewn manylder gyda'r corff llywodraethol a thystiolaeth bod gwariant yn cael ei fonitro yn erbyn y gyllideb. Fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Ni wneir defnydd o'r system e-gaffael yn yr ysgol ar gyfer archebu nwyddau a gwasanaethau. Mynegodd y Pennaeth y byddai hi a'r athrawes yn gwerthfawrogi hyfforddiant pellach ar y system. Yn dilyn ymholiadau pellach fe hysbyswyd yr archwiliwr y bydd Cwmni Cynnal yn darparu hyfforddiant ar y system yn ystod mis Hydref 2016.

3.1.2 Ni wneir defnydd ychwaith gan yr ysgol o lyfr archeb swyddogol. Er bod y Pennaeth yn ymwybodol o'r nwyddau/gwasanaethau y mae wedi eu harchebu, byddai bod â threfn o gadw manylion yr hyn sydd wedi ei archebu yn ogystal â manylion yr anfonebau sydd wedi eu derbyn a'u hanfon i'w talu yn fuddiol iawn yn enwedig os byddai'r Pennaeth yn absennol am gyfnod hirdymor a rhywun arall angen gweinyddu'r drefn. Fe hysbyswyd y Pennaeth o fodolaeth y llyfryn 'Taflen Hysbysu Archeb', a mynegodd y byddai yn gwneud defnydd o'r llyfryn ar gyfer cofnodi manylion archebion ac anfonebau sydd wedi eu hanfon i'w talu.

3.1.3 Archwiliwyd sampl o anfonebau a gwelwyd bod un anfoneb am gofrestriad amddiffyn data wedi ei chyfeirebu i gyfeireb AA04 3319 sef 'Defnyddiau Addysgol Eraill' yn hytrach nag i'r gyfeireb gywir AA04 4806 sef 'Ffi Cofrestru Diogelwch Data'. Golyga hyn fod y gwariant wedi cael ei gyfeirebu yn erbyn y gyfeireb gwariant anghywir.

3.1.4 Nid oes trefn o ddyddio anfonebau pan dderbynnir hwy yn yr ysgol i gadarnhau pa ddyddiad maent wedi cael eu derbyn yn yr ysgol. Mae’n bwysig nodi'r dyddiad y derbynnir yr anfoneb yn yr ysgol ar yr anfoneb, oherwydd y dyddiad hwnnw y dylai’r Cymhorthyddion SIMS ei ddefnyddio i gofnodi yn y blwch ‘Pwynt Treth’ ar y slip cyfeirebu T.R.252.

3.1.5 Wrth archwilio cofnodion y corff llywodraethol, ymddengys nad yw’r corff yn adolygu ffioedd sydd o dan eu disgresiwn yn flynyddol yn unol â safonau Estyn a rheolau ariannol i ysgolion â chyllidebau dirprwyedig.

3.1.6 Caiff yr ysgol ei llogi gan fudiadau allanol ac er bod trefn dda o gwblhau taflen ‘Cais Gosodiadau Tu Allan i Oriau Ysgol’, nid oes cytundeb yn cael ei gwblhau o’r llyfryn ‘Gosod Adeilad TR184’. Mae’r llyfryn ‘Gosod Adeilad TR184’ yn rhestru'r amodau llogi a thrwy gwblhau’r cytundeb mae’r llogwr yn cytuno i’r amodau hynny.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn rheolaeth gyllidebol Ysgol Beddgelert gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r sefydliad a/neu’r Adran Addysg wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- Pennaeth a’r athrawes am fynychu hyfforddiant ar y system e-gaffael a fydd yn cael ei gynnal gan Gwmni Cynnal ym mis Hydref 2016.
- Yn dilyn derbyn y llyfryn ‘Taflen Hysbysu Archeb’, mae’r Pennaeth am gwblhau’r llyfryn gyda manylion archebion a manylion dyddiad anfon yr anfonebau i’w talu.
- Cymhorthyddion SIMS am sicrhau bod y gwariant yn cael ei gyfeirebu yn gywir ar y slipiau cyfeirebu TR252.
- Pennaeth am ddyddio a llofnodi bob anfoneb, er mwyn cadarnhau'r dyddiad mae’r ysgol wedi derbyn yr anfonebau.
- Pennaeth am gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y corff llywodraethol bod angen trafod ffioedd gosodiadau.
- Creu cytundeb cyfredol rhwng y mudiadau allanol sydd yn llogi’r ysgol a’r ysgol, drwy wneud defnydd o’r llyfr ‘Gosod Adeilad’ TR184.

Atodiad 4

**RHEOLAETH GYLLIDEBOL - YSGOLION CYNRADD**
**YSGOL TALSARNAU**

## 1. Cefndir

1.1 Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Penaethiaid i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliadau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol yn amrywio o un ysgol i'r llall gan fod hyn wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol ac wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Sicrhawyd fod trefniadau rheolaeth gyllidebol briodol yn bodoli yn ysgolion cynradd Gwynedd. Detholwyd sampl o ysgolion o bob ardal o fewn Gwynedd gan ddewis yr ysgolion ar sail cyllideb, sef dwy ysgol â chyllideb isel (llai na £200,000), dwy ysgol â chyllideb ganolig (rhwng £200,000 a £350,000) a dwy ysgol â chyllideb uchel (mwy na £350,000).

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd bod trefniadau rheolaeth gyllidebol briodol yn bodoli yn Ysgol Talsarnau, fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Nid oedd 'Polisi Dirprwyo Cyfrifoldebau Cyllidol' sef cofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliadau'r corff wedi cael ei adolygu ers 2013 er ei bod yn nodi yn y polisi bod yr hawliau yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

3.1.2 Mae'r Is-banel Cyllid yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i drafod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol, mae'r balansau yn cael eu trafod hefyd ond nid oes cofnodion swyddogol.

3.1.3 Yn dilyn y cyfarfod blynyddol yma, fe gyflwynodd yr Is-banel Cyllid 'Adroddiad yr is bwyllgor Cyllid (Cyllideb ddrafft 2016-17) + Toriad' i'r Corff Llawn ar yr 18fed o Fai 2016. Bu i'r Corff Llawn gyfarfod dair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16 ond ni thrafodwyd y sefyllfa ariannol yn y cyfarfodydd eraill yma.

3.1.4 Nid oedd cofnodion dibynadwy o ddyddiadau roedd athrawon llanw yn yr ysgol. Gwiriwyd y taflenni 'Trefniadaeth Gyffredinol wythnos' a daethpwyd o hyd i un cofnod yn dyddio yn ôl i 6ed o Hydref 2015. Awgrymodd y Pennaeth y buasai'n gallu defnyddio'r taflenni wythnosol yma i gofnodi os oedd llanw yn yr ysgol o hyn ymlaen.

3.1.5 Nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd o'r system e-gaffael ar gyfer archebu nwyddau a gwasanaethau ac nid oedd llyfr archebion na chofnod arall o archebion yn yr ysgol ychwaith. Roedd y Pennaeth yn ymwybodol o'r llyfr 'Taflen hysbysu archeb' ac yn awyddus i'w defnyddio yn yr ysgol. Mae'r archwiliwr bellach wedi gwneud trefniadau i'r Pennaeth dderbyn llyfr derbynneb 'Taflen hysbysu archeb' y Cyngor.

3.1.6 Yn ogystal, awgrymwyd y dylai'r Pennaeth Cynorthwyol fynychu hyfforddiant ar y system e-gaffael gan mai ef fyddai'n gyfrifol am archebu o fis Medi 2016 ymlaen.

3.1.7 Wrth wirio sampl o anfonebau gwelwyd mai'r cyn Glerc oedd wedi eu hardystio, yn ddelfrydol swyddogion ar lefel uwch yn unig ddylai fod yn ardystio'r taliadau.

3.1.8 Archwiliwyd sampl o anfonebau a gwelwyd bod dwy anfoneb ar gyfer dodrefn wedi eu cyfeirebu i'r cyfrif AA04 3319 sef 'Defnyddiau Addysgol Eraill' yn hytrach nag i'r gyfeireb gywir AA04 3001 sef 'Dodrefn - Pryniant'.

3.1.9 Nid oes trefn o ddyddio anfonebau pan dderbynnir hwy yn yr ysgol i gadarnhau pa ddyddiad maent wedi cael eu derbyn yn yr ysgol. Mae'n bwysig nodi dyddiad y derbynnir ar yr anfoneb, oherwydd y dyddiad hwnnw ddylai'r Cymhorthyddion SIMS ei ddefnyddio i gofnodi yn y blwch 'Pwynt Treth' ar y slip cyfeirebu TR 252.

3.1.10 Detholwyd 3 ffurflen TR34 o'r cyfriflyfr ariannol i'w cysoni yn erbyn cofnodion yr ysgol. Nid oedd y Pennaeth yn ymwybodol os oedd cofnodion yn bodoli oni bai am y cofnod sydd ar y ffurflenni TR34. Nid oedd yn ymwybodol ychwaith os oedd llyfr derbynebau yn yr ysgol. Roedd y Pennaeth yn awyddus i gael llyfr derbynebau newydd, mae'r archwiliwr bellach wedi trefnu hyn.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaeth gyllidebol Ysgol Talsarnau gan fod y sefyllfa bresennol yn gwanhau'r rheolaethau. Mae'r sefydliad a/neu'r Adran Addysg wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Adolygu'r 'Polisi Dirprwyo Cyfrifoldebau Cyllidol' yng nghyfarfod nesaf Llywodraethwyr.
- Trefnu bod yr Is-bwyllgor Cyllid yn cyfarfod yn dymhorol a bod cofnodion swyddogol ar gyfer pob cyfarfod.
- Adrodd ar sefyllfa ariannol yr ysgol yn rheolaidd i'r is banel cyllid/ y Corff.
- Cofnodi bod athrawon llanw yn yr ysgol ar y daflen 'Trefniadaeth Gyffredinol wythnos'.
- Archwiliwr i drefnu bod yr ysgol yn derbyn llyfryn 'Taflen Hysbysu Archeb' gan Swyddfa Addysg Pwllheli. Y Pennaeth Cynorthwyol i wneud defnydd o'r llyfryn wrth archebu nwyddau a gwasanaethau ac wedyn pan fydd wedi derbyn hyfforddiant ar y system e-gaffael i wneud defnydd o'r system e-gaffael ar gyfer archebu nwyddau a gwasanaethau ac wedyn ond gwneud defnydd o'r llyfryn ar gyfer nwyddau a gwasanaethau na archebir drwy'r system e-gaffael.
- Trefnu bod y Pennaeth Cynorthwyol yn mynychu hyfforddiant ar y system e-gaffael a fydd yn cael ei gynnal gan gwmni Cynnal ym mis Hydref 2016.
- Sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau lle'n bosibl wrth gwblhau archeb ac ardystio taliadau.
- Cymhorthyddion SIMS am sicrhau bod y gwariant yn cael ei gyfeirebu yn gywir ar y slipiau cyfeirebu TR 252.
- Sefydlu trefn o ddyddio a llofnodi pob anfoneb, er mwyn cadarnhau'r dyddiad mae'r ysgol wedi derbyn yr anfonebau.
- Sicrhau bod derbynneb swyddogol o'r llyfr derbynneb TR32a ar gyfer yr incwm hyfforddiant cerdd a gesglir.

Atodiad 5

**RHEOLAETH GYLLIDEBOL - YSGOLION CYNRADD**
**YSGOL TREGARTH**

**1. Cefndir**

1.1 Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Penaethiaid i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliadau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol yn amrywio o un ysgol i'r llall gan fod hyn wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol ac wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Sicrhawyd fod trefniadau rheolaeth gyllidebol briodol yn bodoli yn ysgolion cynradd Gwynedd. Detholwyd sampl o ysgolion o bob ardal o fewn Gwynedd gan ddewis yr ysgolion ar sail cyllideb, sef dwy ysgol â chyllideb isel (llai na £200,000), dwy ysgol â chyllideb ganolig (rhwng £200,000 a £350,000) a dwy ysgol â chyllideb uchel (mwy na £350,000).

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod trefniadau rheolaeth gyllidebol da yn bodoli yn Ysgol Tregarth, fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Nid yw'r Pennaeth wedi derbyn hyfforddiant penodol yn ymwneud â chyllid gan yr Awdurdod, nodwyd buasai arweiniad yn y maes yn fudd mawr gan nad oes ganddi gefndir cyllidol. Mae hyn wedi codi mewn sawl ysgol yn ystod yr archwiliad Rheolaeth Gyllidebol. Mae'r Cyfrifwyr a'r swyddogion addysg yn ymwybodol o'r sefyllfa gan fod penaethiaid yn codi hyn gyda hwy yn rheolaidd, nid oes datrysiad hyd yma ond mae'r Cyfrifwyr yn parhau i gynnal cymorthfeydd gyda'r Penaethiaid sawl gwaith y flwyddyn.

3.1.2 Nid oedd 'Polisi Dirprwyo Cyfrifoldebau Cyllidol' sef cofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliadau'r corff wedi cael ei adolygu ers 2014 er ei bod yn nodi yn y polisi bod yr hawliau yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Eglurwyd bod trefniadau wedi llithro ychydig flwyddyn diwethaf oherwydd llwyth gwaith ond mae'r polisi yn parhau i fod yn weithredol.

3.1.3 Nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd o'r system e-gaffael ar gyfer archebu nwyddau a gwasanaethau gan fod y system wedi cloi'r Cymhorthydd Clerigol allan. Awgrymwyd y dylid cysylltu gyda Cynnal er mwyn cael mynediad i'r system unwaith eto. Nodwyd buasai hyfforddiant pellach ar y system yn fuddiol i'r Cymhorthydd Clerigol fel bod modd gwneud defnydd ohoni yn y dyfodol. Yn dilyn ymholiadau pellach, fe hysbyswyd yr archwiliwr y bydd Cwmni Cynnal yn darparu hyfforddiant ar y system yn ystod mis Hydref 2016.

3.1.4 Mae taflenni pwrpasol yn cael eu defnyddio ar gyfer cofnodi'r anfonebau a dderbynnir ond nid oedd cofnod o'r archebion oedd wedi eu gwneud, fodd bynnag, mae'r Cymhorthydd Clerigol yn cadw copi o bob archeb ble'n bosib, anfoneb a derbynneb er mwyn sicrhau trywydd archwilio. Awgrymwyd y buasai modd ychwanegu colofnau at y tabl er mwyn sicrhau bod cofnod o bob archeb - roedd y Pennaeth a'r Cymhorthydd Clerigol yn cytuno ac yn hapus i wneud hyn.

3.1.5 Wrth wirio sampl o anfonebau daethpwyd o hyd i 2 achos lle'r oedd y Pennaeth wedi archebu nwyddau/ gwasanaeth ac wedi ardystio'r taliadau. Eglurwyd i'r Pennaeth yr angen i sicrhau gwahaniad mewn dyletswyddau lle'n bosibl.

3.1.6 Nid oes trefn o ddyddio anfonebau pan dderbynnir hwy yn yr ysgol i gadarnhau pa ddyddiad maent wedi cael eu derbyn yn yr ysgol. Mae'n bwysig nodi dyddiad y derbynnir anfoneb ar yr anfoneb, oherwydd y dyddiad hwnnw ddylai'r Cymhorthyddion SIMS ei ddefnyddio i gofnodi yn y blwch 'Pwynt Treth' ar y slip cyfeirebu TR252.

3.1.7 Cafwyd copïau o dderbynebau i gyd-fynd gyda'r incwm oedd wedi cofnodi ar y ffurflenni TR34 perthnasol yn y sampl, roedd y rhain yn dyddio yn ôl i Hydref, 2015. Serch hyn, dywedodd y Cymhorthydd Clerigol bod trefniadau derbynebu wedi llithro yn ddiweddar ond yn hanesyddol roedd y rhain yn cael eu cwblhau fel y gwelir gyda'r sampl archwiliwyd. Mae bwriad i ail ddechrau gyda'r drefn yma.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaeth gyllidebol Ysgol Tregarth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Adolygu'r 'Polisi Dirprwyo Cyfrifoldebau Cyllidol' yn y cyfarfod Llywodraethwyr nesaf.
- Trefnu bod y Cymhorthydd Clerigol yn mynychu hyfforddiant ar y system e-gaffael a fydd yn cael ei gynnal gan Gwmni Cynnal ym mis Hydref 2016.
- Ychwanegu colofnau at y daflen cofnodi anfonebau er mwyn sicrhau bod cofnod o fanylion pob archeb.
- Sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau lle'n bosibl wrth gwblhau archeb ac ardystio taliadau.
- Sefydlu trefn o ddyddio a llofnodi bob anfoneb, er mwyn cadarnhau'r dyddiad mae'r ysgol wedi derbyn yr anfonebau.

Atodiad 6

**RHEOLAETH GYLLIDEBOL - YSGOLION CYNRADD**
**YSGOL SANTES HELEN**

**1. Cefndir**

1.1 Corff Llywodraethol yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Penaethiaid i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliadau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol yn amrywio o un ysgol i'r llall gan fod hyn wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol ac wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Sicrhawyd fod trefniadau rheolaeth gyllidebol briodol yn bodoli yn ysgolion cynradd Gwynedd. Detholwyd sampl o ysgolion o bob ardal o fewn Gwynedd gan ddewis yr ysgolion ar sail cyllideb, sef dwy ysgol â chyllideb isel (llai na £200,000), dwy ysgol â chyllideb ganolig (rhwng £200,000 a £350,000) a dwy ysgol â chyllideb uchel (mwy na £350,000).

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod trefniadau rheolaeth gyllidebol da yn bodoli yn Ysgol Santes Helen, fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Nid yw'r Pennaeth wedi derbyn hyfforddiant penodol yn ymwneud â chyllid gan yr Awdurdod, nodwyd buasai arweiniad yn y maes yn fudd mawr gan nad oes ganddi gefndir cyllidol. Mae hyn wedi codi mewn sawl ysgol yn ystod yr archwiliad Rheolaeth Gyllidebol. Mae'r Cyfrifwyr a'r swyddogion addysg yn ymwybodol o'r sefyllfa gan fod penaethiaid yn codi hyn gyda hwy yn rheolaidd, nid oes datrysiad hyd yma ond mae'r Cyfrifwyr yn parhau i gynnal cymorthfeydd gyda'r Penaethiaid sawl gwaith y flwyddyn.

3.1.2 Roedd gan yr ysgol danwariant o £52,935 yn 2014/15 - caiff unrhyw danwariant ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf sef 2015/16. Nid oedd yr Uned Gyllid wedi derbyn 'Holiadur Balansau' gan yr ysgol ar gyfer 2014/15.

3.1.3 Roedd un athrawes yn derbyn taliadau ychwanegol (taliadau CAD[1]) yn ystod 2015/16 ond nid oedd yr Uned Contractau a Chyflogau Addysg wedi derbyn taflen 'Arolwg Cyflog Blynyddol - Medi 2015' ar gyfer yr athrawes yma er ei fod yn ofynnol ym Mholisi Cyflogaeth Athrawon Gwynedd (2015).

3.1.4 Cedwir 'Cofnod Absenoldeb Staff' ar wal y swyddfa lle cofnodir absenoldebau e.e. salwch yr athrawon a'r cymhorthyddion yn ogystal ag enw'r llanw sydd yn cyflenwi. Nid oedd y daflen yn cysoni gyda'r sampl o amserlenni a ddetholwyd. Yn ogystal, cedwir cofnod o'r athrawon llanw sydd yn llenwi i mewn ar gyfer cyfnodau digyswllt (CPA[2]) a hyfforddiant yn nyddiadur yr ysgol, roedd y cofnodion yma yn cyd-fynd gyda'r amserlenni.

---

[1] CAD – Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu
[2] CPA – Cynllunio, Paratoi ac Asesu

3.1.5 Mae ychydig o ddefnydd yn cael ei wneud o’r system e-gaffael yn yr ysgol. Mae'r Cymhorthydd Clerigol wedi mynychu hyfforddiant ac yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'r system. Nid oedd llyfr archebion na chofnod arall o archebion oedd wedi eu gwneud yn yr ysgol. Awgrymwyd y buasai'n ddelfrydol petaent yn cadw cofnod o bob archeb sydd ddim yn cael ei wneud trwy'r system e-gaffael.

3.1.6 Wrth wirio sampl o anfonebau daethpwyd o hyd i un achos ble bu i'r Pennaeth archebu nwyddau ac ardystio’r taliad. Eglurwyd yr angen i sicrhau gwahaniad mewn dyletswyddau i'r Pennaeth lle’n bosibl.

3.1.7 Nid oes trefn o ddyddio anfonebau pan dderbynnir hwy yn yr ysgol i gadarnhau pa ddyddiad maent wedi cael eu derbyn yn yr ysgol. Mae’n bwysig nodi'r dyddiad derbyn ar yr anfoneb, oherwydd y dyddiad hwnnw ddylai’r Cymhorthyddion SIMS ei ddefnyddio i gofnodi yn y blwch ‘Pwynt Treth’ ar y slip cyfeirebu TR252.

3.1.8 Roedd yn amlwg fod gan y Cymhorthydd Clerigol drefn o greu derbynebau ar ôl derbyn incwm ond nid oedd modd cysoni’r derbynebau gyda’r sampl o ffurflenni TR34 a’r dadansoddiad arian a archwiliwyd.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaeth gyllidebol Ysgol Santes Helen gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrhau bod 'Holiadur Balansau' yn cael ei gwblhau ar gyfer unrhyw danwariant o'r gyllideb sydd â balans yn uwch na’ 5% o gyllideb yr ysgol neu £10,000, p’run bynnag sydd leiaf.
- Sicrhau bod taflenni ‘Arolwg Cyflog Blynyddol’ yn cael eu cwblhau’n flynyddol a’u hanfon ymlaen i’r Gwasanaethau Cyflogau a Chontractau Ysgolion.
- Cadw cofnod yn y dyddiadur o bob llanw sydd yn cyflenwi gan gynnwys absenoldebau salwch.
- Archwiliwr i drefnu bod yr ysgol yn derbyn llyfryn 'Taflen Hysbysu Archeb' gan y Swyddfa Addysg. Y Cymhorthydd Clerigol i wneud defnydd o'r llyfryn ar gyfer nwyddau a gwasanaethau na archebir drwy'r system e-gaffael.
- Sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau lle’n bosibl wrth gwblhau archeb ac ardystio taliadau.
- Sefydlu trefn o ddyddio a llofnodi bob anfoneb, er mwyn cadarnhau'r dyddiad mae’r ysgol wedi derbyn yr anfonebau.
- Sicrhau bod derbynneb yn cael ei gwblhau ar gyfer pob incwm gwersi cerdd a dderbyniwyd.

Atodiad 7

**TROTHWYON GWIRIO**
**CYLLID**

**1. Cefndir**

1.1 Fel rhan o'r broses o ryddhau taliadau credydwyr, caiff anfonebau gwerth £10,000 (gros) ac uwch eu cludo o'r Uned Taliadau i'r Uned Gyfrifeg Ganolog er mwyn i swyddogion penodedig eu gwirio cyn eu rhyddhau i'w talu. Mae'r trothwy wedi bod yn £10,000 ers 2005, a dros y blynyddoedd mae chwyddiant wedi cynyddu'r nifer o anfonebau sydd dros y trothwy yma.

1.2 Telir yr anfonebau drwy gyfrwng BACS neu siec. Bydd gwiriadau pellach yn cael eu cynnal ar gyfansymiau a niferoedd y trafodion BACS, a hefyd y taliadau drwy sieciau. Mae'r trothwyon ar gyfer cydarwyddo sieciau yn ddibynnol ar natur y gwariant (gwariant cyffredinol, pensiynau, budd-dal a.y.b.). Mae gofyn i swyddogion flaen-lythrennu sieciau agored ('*uncrossed*'). Gyda siec agored, mae posib i'r talai ei chyfnewid am arian parod yn hytrach na'i thalu i mewn i gyfrif banc. Y trothwy cyfredol ar gyfer agor siec yn y Cyngor yw £350.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd adolygu'r gweithdrefnau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer gwirio a thalu anfonebau sydd â gwerth dros £10,000 iddynt, yn ogystal â'r trefniadau awdurdodi drwy gyfrwng sieciau, ac ystyried a yw'r drefn gyfredol yn parhau i fod yn addas.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dadansoddi cofnodion credydwyr ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16, ynghyd â chwarter cyntaf 2016/17, gan ystyried priodoldeb y trefniadau a'r trothwyon ar gyfer gwirio'r anfonebau, cydarwyddo sieciau yn ogystal â chyflwyno sieciau agored.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae amserlen pedair wythnos yn cael ei phennu o flaen llaw ar gyfer dynodi'r dasg o gynnal y gwiriadau i'r swyddogion o'r Uned Gyfrifeg Ganolog.

3.2 Pwrpas gwirio'r anfonebau yw sicrhau bod manylion y cyflenwr yn gywir o fewn y cyfriflyfr ariannol, a bod yr anfoneb yn un ddilys. Nid yw natur y gwariant yn derbyn sylw, gan nad yw'r wybodaeth ynglŷn â chefndir y taliad ar gael i swyddogion yr Uned Gyfrifeg Ganolog. Mae'r anfonebau yma eisoes yn destun gwiriadau o'r fath gan yr Uned Taliadau.

3.3 Mynegodd swyddogion yr Uned Gyfrifeg Ganolog mai prin iawn yw'r anghysondebau a ddarganfuwyd ganddynt dros y blynyddoedd diweddar. Ystyrir y gellir canfod yr anghysondebau drwy gynnal un gwiriad yn unig, sydd eisoes yn cael ei gynnal gan yr Uned Taliadau. Cwestiynwyd felly'r angen i swyddogion yr Uned Taliadau a hefyd yr Uned Gyfrifeg Ganolog gynnal yr un gwiriad.

3.4 Wrth wirio sieciau, mae'r swyddogion yn cysoni'r nifer sydd yn y swp gyda rhestr a ddarperir iddynt, ac yna'n arwyddo sieciau sydd â gwerth uwchlaw'r trothwy a blaen-lythrennu unrhyw siec agored. Nid yw natur y gwariant yn cael ei wirio, gan mai'r siec yn unig sy'n cael ei hanfon at y swyddogion i'w gwirio, nid manylion y nwyddau neu'r gwasanaethau a delir amdanynt.

3.5 Gwelwyd bod pob swp o anfonebau sy'n cael eu talu'n cael eu cofnodi gyda llaw mewn dyddlyfr gan yr Uned Taliadau. Cwestiynwyd os yw'r drefn yma bellach yn angenrheidiol o gofio bod y trywydd archwilio hefyd i'w weld o fewn y system gyfrifiadurol.

3.6 Wrth wirio'r sieciau agored oddi ar y cyfriflyfr ariannol (*sub type* 07), gwelwyd fod 4 siec wedi ei hagor yn ystod 2015/16 a chwarter cyntaf 2016/17 a oedd uwchlaw'r trothwy o £350. Roedd 3 o'r 4 yn Ad-daliad Cyfrif Imprest, ac 1 yn 'arian cefnogi teulu'. Derbyniwyd cadarnhad gan y swyddogion cyfrifol fod y taliadau yma wedi derbyn sylw a bod trefn eisoes wedi ei sefydlu o amlygu sieciau agored sydd dros y trothwy a bod gweithrediad priodol o ganlyniad.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**Barn yr archwiliad yw ei bod yn amserol i'r Adran Gyllid ystyried y buddiannau o gynnal gwiriadau annibynnol ychwanegol yn yr Uned Gyfrifeg Ganolog yn erbyn y lleihad posib mewn baich gwaith gweinyddol, a'r posibilrwydd felly o liflinio'r broses o ryddhau taliadau credydwyr. Mae'r mater hwn eisoes wedi ei drafod gyda'r Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol.**

Atodiad 8

**STRWYTHUR CODIO**
**CYLLID**

**1. Cefndir**

1.1 Mae strwythur codio cyfredol y Cyngor yn ei le ers 2001, pan symudwyd o'r system PPL i efinancials. Roedd y system PPL wedi ei osod fel bod pob cod ar ffurf 12-digid. Mae'r system efinancials yn derbyn codau 8 neu 12-digid – *Cost Centre* (4 digid), *Account* (4 digid) a *Job* (4 digid). Nid oes angen *Job* ar bob achlysur, sy'n golygu bod rhai codau yn rai 12-digid ac eraill yn 8. Mae dros 4,000 o godau *Account* yn y system ar hyn o bryd, a dros 3,000 o'r rheiny'n rhai actif.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd asesu os yw strwythur codio gwariant ac incwm y Cyngor wedi ei sefydlu mewn modd sy'n cynnig tryloywder i'r defnyddwyr, gan ystyried priodoldeb y codau sydd o fewn y strwythur er mwyn lleihau'r nifer o achosion o gam-godio.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal adolygiad o'r strwythur codio gwariant ac incwm refeniw, gan wirio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer sicrhau bod rheolaeth dros y nifer a'r math o godau sydd ar gael, a bod trafodion yn cael eu codio'n briodol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Unwaith mae cod *Account* wedi ei greu yn y system, ni ellir ei ddileu. Yr unig opsiynau yw ei wneud yn anactif, neu newid ei ddisgrifiad. Yr un yw'r sefyllfa gyda *Cost Centre* neu *Job*.

3.2 Gwelwyd fod creu codau *Account* dros y blynyddoedd wedi arwain at nifer o oblygiadau sy'n cael eu hystyried yn anffafriol, ac ystyriwyd os oedd gweithrediad addas ar eu cyfer. Trafodwyd y materion gyda'r swyddogion cyfrifol, ac fe gyflwynir crynodeb isod:

3.2.1 Mae nifer helaeth o godau *Account* yn bodoli ac sydd heb eu defnyddio ers blynyddoedd (gwnaethpwyd gwiriad yn ôl i'r flwyddyn ariannol 2010/11). Cafwyd gwybod y byddai modd eu gwneud yn anactif, ond y byddai hynny'n debygol o gael effaith andwyol ar y cyfrifon cam-godio. Byddai'r codau yn parhau i fodoli, ond ni fyddai modd postio iddynt ac felly byddai'r gwariant yn cael ei roi yn erbyn y cyfrifon cam-godio o ganlyniad. Byddai hyn yn creu baich ar yr Unedau Cyllid sydd yn clirio'r cyfrifon cam-godio. Mae yna eisoes nifer sylweddol o drafodion yn taro rhai o'r cyfrifon cam-godio, ac fe gafwyd gwybod gan yr Unedau Cyfrifeg bod ystyriaeth yn cael ei roi i gysylltu gyda'r gwasanaethau perthnasol pe byddai cam-godio rheolaidd yn digwydd ganddynt.

3.2.2 Mae'r codau *Account* sydd â disgrifiad o natur 'gyffredinol' iddynt (er enghraifft 3319: Defnyddiau Addysgol Eraill, 3439: Defnyddiau Cyffredinol, 3939: Defnyddiau Swyddfa, 4110: Ffioedd Cyffredinol) yn cael eu defnyddio ar gyfer gwariant ar ystod eang o nwyddau a gwasanaethau; ystyrir y gallai hyn fod yn effeithio ar dryloywder y wybodaeth sydd o fewn y system gyfrifo. Fodd bynnag, mae hyn yn gwrth-ddweud yr ystyriaeth ym mhwynt 3.2.1, ble cwestiynwyd os oedd modd lleihau'r nifer o godau *Account*, a fyddai o bosib yn creu natur mwy 'cyffredinol' i'r rheiny sydd yn weddill.

3.2.3 Mae achosion ble mae mwy nag un cod *Account* â'r un disgrifiad iddynt, neu ddisgrifiadau tebyg. Cafwyd gwybod, er bod disgrifiadau tebyg / unfath i'r codau, yn rhai o'r achosion a godwyd bod y 'Rhiant' yn wahanol. Er enghraifft:

*Account* 3301: Defnyddiau Swyddfa (Rhiant 33: Defnyddiau Addysgiadol);
*Account* 3939: Defnyddiau Swyddfa (Rhiant 39: Nwyddau Swyddfa).

3.3 Cynigwyd mai'r unig weithrediad na fyddai'n arwain at oblygiadau anffafriol pellach yw ail-ddechrau'r strwythur, gan gadw'r un hierarchaeth. Rhagwelir y byddai hyn yn y pen draw yn arwain yn ôl at yr un sefyllfa, gan fod yna dros 3,000 o godau sydd yn cael eu defnyddio ac y byddai angen ail-greu'r rheiny o fewn y strwythur newydd. Ystyrir hefyd fod cyfiawnhad wedi bod ar gyfer creu'r codau *Account* sydd yn bodoli eisoes, ac felly yn y pen draw y byddai'r un sefyllfa'n codi gyda'r strwythur newydd.

## 4. Barn yr Archwiliad

**Barn yr archwiliad yw nad oes gweithrediad addas a fyddai'n arwain at lifliniad yn y codau *Account* yn llwyr, ac na fyddai'n achosi oblygiadau anffafriol pellach. Cytunodd y Rheolwr Systemau fod lle i fireinio yma a thraw o fewn y strwythur, ond na fyddai hynny'n datrys yn llawn unrhyw un o'r materion a godwyd uchod.**

Atodiad 9

**TALIADAU TAI DEWISOL**
**CYLLID**

## 1. Cefndir

1.1 Yn ystod 2016/17, bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn £659,887 gan Adran Gwaith a Phensiynau'r Llywodraeth i'w ddosbarthu ar ei ddisgresiwn i unigolion neu deuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u costau tai. Mae'r Taliadau Tai Dewisol (TTD) hyn yn ychwanegol i Fudd-dal Tai sy'n daladwy, ac yn cael ei ddefnyddio i fynd peth ffordd i lenwi'r bwlch pan nad yw'r Budd-dal Tai yn ddigonol i gwrdd â'r rhent i gyd. Ers 2015/16, mae gan y Cyngor Bolisi ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod y taliadau yn dryloyw ac ar sail haeddiant, ble cydweithiwyd gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i ddatblygu model cyffredin.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod cysondeb a thryloywder yn y modd y dyrannir TTD i drigolion Gwynedd, a bod y taliadau yma'n briodol. Gwnaed hyn drwy adolygu sampl o geisiadau TTD a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 hyd yn hyn. Roedd yr archwiliad yn sicrhau bod y penderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar "Bolisi Gweithredu Ar Gyfer Rhannu Dyraniad Taliadau Tai Dewisol 2016/17".

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Mae'r gyllideb o £659,887 ar gyfer TTD yn cynnwys dyraniad ychwanegol i deuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y 'dreth llofftydd', a dyraniad pellach i adlewyrchu statws gwledig Gwynedd. Mae'r elfen wledig yma yn rhoi budd ychwanegol sylweddol mewn cymhariaeth â'r dyraniad sylfaenol, gyda Gwynedd yn derbyn dros £450,000 yn fwy o gyllideb TTD na siroedd agos tebyg sydd ddim yn derbyn yr elfen wledig.

3.2 Ers 2015/16, mae gan y Cyngor Bolisi er mwyn sicrhau bod y TTD â wneir yn dryloyw ac yn cael eu dyrannu ar sail haeddiant. Gan fod y gyllideb yn gyfyngedig, defnyddir y Polisi i flaenoriaethu amgylchiadau penodol pob cais. Manylir yn y Polisi ym mha achosion y dylid talu TTD, gan osod amgylchiadau mewn grwpiau blaenoriaeth a gallu'r ymgeisydd i reoli'r sefyllfa. Hyn yw sail matrics sgorio y Polisi â ddefnyddir i gyfrifo'r taliad â wneir i'r ymgeiswyr.

3.3 Er bod y matrics sgorio yma'n gymorth i swyddogion wneud penderfyniadau cyson, mynegir rhan 30; "*Ni fwriedir i'r polisi hwn gyfyngu disgresiwn Cyngor Gwynedd wrth wneud penderfyniadau TTD. Cynllun yn ôl disgresiwn ydyw a bydd rhai achosion bob amser gydag amgylchiadau arbennig neu anghyffredin ble fydd yr un sy'n gwneud penderfyniad yn ystyried y gellid cyfiawnhau dyfarniad TTD*." Yn y bôn, ni all y Polisi gwmpasu'r holl amgylchiadau gwahanol all godi yn y ceisiadau a rhaid i'r Swyddogion Budd-dal eu dehongli fel yn briodol.

3.4 Mae’n ofynnol i’r Archwiliad yma gymryd i ystyriaeth y ffaith bod angen i’r Cyngor ddyrannu’r gyllideb sylweddol yma gyda thrigolion, rhai gall fod mewn perygl gyda’u tenantiaeth. Gan fod y taliadau’n ddewisol ac yn destun disgresiwn y Swyddogion Budd-dal, yna roedd yr Archwiliad yn gyfyngedig i adolygu sampl o geisiadau i sicrhau eu bod yn cael eu penderfynu yn gyson ac yn unol ag egwyddorion y Polisi, ac yn atal ceisiadau anaddas rhag derbyn cymeradwyaeth.

3.5 Adolygwyd sampl o geisiadau a gwelwyd fod enghreifftiau ble nad yw’r penderfyniad a wnaethpwyd yn gwbl gyd-fynd â’r Polisi, ond yn destun disgresiwn y Swyddog Budd-dal. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw achos o daliadau oedd yn gwbl groes i’r Polisi, a bod nifer o geisiadau yn cael eu gwrthod.

3.6 Caiff y Polisi ei adolygu’n flynyddol er mwyn sicrhau bod y graddfeydd taliadau yn cyd-fynd â’r gyllideb gaiff ei dyrannu, gan nad oes sicrwydd bod y dyraniad ychwanegol gaiff Gwynedd yn parhau o un flwyddyn i’r llall. Cyflwynwyd Polisi 2016/17 gan yr Aelod Cabinet ar 21/02/16. Er na all y Polisi gwmpasu'r holl amgylchiadau all godi yn y ceisiadau, gwelwyd y gellir cryfhau y rhan asesiad ariannol gan nad yw’n crybwyll yr holl gostau a ddylid eu diystyru yn yr asesiad, megis costau ad-dalu unrhyw ordaliad budd-dal, ac unrhyw wariant uchel y disgwylir y gellir ei leihau wrth ystyried eu gallu i reoli’r sefyllfa.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau dyrannu Taliadau Tai Dewisol, gan y gwelwyd o’r sampl ddetholwyd bod y taliadau yn briodol ac yn unol ag egwyddorion y Polisi, ond yn destun disgresiwn Swyddog Budd-dal.**

**CANOLFAN BYW'N IACH A GWEITHGAREDDAU DŴR BANGOR**
**ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor yn darparu nifer o wasanaethau i'r cwsmeriaid, gan gynnwys pwll nofio, ystafell ffitrwydd a chae pob tywydd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y Ganolfan er mwyn rheoli a lliniaru risgiau, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o 4 Canolfan Hamdden yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli risgiau gall fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau ac iechyd a diogelwch.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yng Nghanolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol:

3.1.1 Wrth wirio ffurflenni 'FIN07.01 Vending Machine Reconciliation Forms' ar gyfer y 3 peiriant gwerthu, gwelwyd nad oeddynt wedi gwacau'r arian o'r peiriannau ers sawl wythnos. Nodir yng nghanllawiau IMS bod angen gwagu'r peiriant 'Rijo' yn wythnosol a'r peiriannau eraill o leiaf unwaith y mis. Eglurodd y Rheolwr Ardal bod y swyddogion sydd yn gyfrifol fel rheol am eu gwagio wedi bod ar gyrsiau yn ystod yr wythnosau diwethaf, fodd bynnag dylai bod y swyddogion oedd yn cyflenwi yn eu lle wedi cwblhau'r dyletswyddau.

3.1.2 Ymddengys bod yr arian o'r peiriannau sychu gwallt (£10.60) heb gael ei fancio ar 11/07/16. Roedd y swm wedi ei fewnbynnu i'r system Gladstone ac ar ddiwedd y dydd roedd anghysondeb o £1.45 ar y dderbynneb 'Z Reading' ond oherwydd bod y £10.60 heb ei fancio roedd gwarged o -£9.15 ar y daflen TR34. Nid oedd y Rheolwr Ardal yn ymwybodol o beth oedd wedi digwydd i'r arian yma.

3.1.3 Mae pecynnau debyd uniongyrchol ar gael yn y ganolfan, cedwir y wybodaeth mewn 'in-tray' yn y dderbynfa yn barod i'w cael eu hanfon drwy bost mewnol, nid ydynt dan glo.

3.1.4 Gwiriwyd cyfrif 5 plentyn ar y system Gladstone er mwyn gweld os oedd llun aelodaeth ar y system ar eu cyfer, roedd llun aelodaeth ar gyfrif un ohonynt yn unig.

3.1.5 Mae cwpwrdd glanhau'r ganolfan yn yr ystafell newid teuluoedd, wrth ymweld â'r ystafell yn ystod yr archwiliad gwelwyd bod y goriad wedi ei adael yn y drws ac roedd y drws ar agor. Roedd y gweithwyr yn glanhau ar yr adeg yma. Fodd bynnag ni ddylai'r ystafell wedi bod yn agored gan fod aelodau o'r cyhoedd o gwmpas.

**4. Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Egluro i'r Rheolwyr ar Ddyletswydd bod angen i'r swyddogion sydd yn cymryd eu sifft gwblhau'r tasgau. Yn ogystal, mae'r ganolfan yn defnyddio system Legend sydd yn anfon nodyn atgoffa o'r angen i gwblhau tasgau.
- Sicrhau bod y ffurflenni yn cael eu cadw dan glo yn y cwpwrdd tu ôl i'r dderbynfa drwy anfon e-bost i'r Rheolwyr ar Ddyletswydd, Derbynnydd â'r Gweinyddwr Ardal Caernarfon a Bangor.
- Anfon e-bost i'r Rheolwyr ar Ddyletswydd a'r Derbynnydd i wirio bod llun ar gyfrif y plentyn pan maent yn dod i'r ganolfan.
- Rhoi nodyn ar hysbysfwrdd y staff i'w hatgoffa o'r angen i gloi'r ystafell glanhau.

Atodiad 11

**CANOLFAN HAMDDEN PLAS SILYN**
**ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Hamdden Plas Silyn, Penygroes, yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, ysgolion yr ardal a nifer o glybiau chwaraeon; gan gynnwys ystafell ffitrwydd, neuadd chwaraeon a caeau allanol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y Ganolfan er mwyn rheoli a lliniaru risgiau, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o 4 Canolfan Hamdden yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli risgiau gall fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael, storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae'r ganolfan yn rhoi gwasanaeth da i'w gwsmeriaid ac yn amlwg mae staff y ganolfan yn gydwybodol ac yn ymroddgar. Roedd y trefniadau dros reolaeth ariannol y ganolfan yn dda gyda chofnodion yn cael eu cwblhau yn briodol a chyflawn. Gwelwyd bod yr elfennau megis iechyd a diogelwch, trefniadau diogelu a chynnal hyfforddiant hefyd yn derbyn sylw priodol.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth a threfniadau ariannol Canolfan Hamdden Plas Silyn gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 12

**CANOLFAN HAMDDEN DWYFOR**
**ECONOMI A CHYMUNED**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Hamdden Dwyfor, Pwllheli, yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, ysgolion yr ardal, Coleg Meirion Dwyfor a nifer o glybiau chwaraeon; gan gynnwys pwll nofio, ystafell ffitrwydd, neuadd chwaraeon a chaeau allanol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y Ganolfan er mwyn rheoli a lliniaru risgiau, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o 4 Canolfan Hamdden yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli risgiau gall fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael, storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Mae'r ganolfan yn rhoi gwasanaeth da i'w cwsmeriaid ac mae staff yn gydwybodol wrth weinyddu a rhoi gwasanaeth i'r cyhoedd. Fodd bynnag, roedd trafferthion staffio annisgwyl yn y ganolfan yn ei gwneud yn anodd ymdopi gyda phob tasg i'r llawn ddisgwyl, ac mae ambell i risg yn ymddangos yn y sefyllfa yma. Er hynny, roedd rheolaethau yn eu lle i ymdopi i raddau gyda'r risgiau yma, a gwelwyd fod staff yn gallu cael eu dyrchafu i fod yn gyfrifol am y mwyafrif o ddyletswyddau.

3.1.1 Er bod dau berson yn arwyddo'r ffurflenni bancio ar ddiwedd dydd, mae adegau ble dim ond un person sy'n cyfri'r arian allan o'r til, sy'n risg sy'n cael ei dderbyn ble mae swyddogion yn gweithio'n unig mewn canolfannau, ond dylid ystyried os oes angen cymryd y risg ble gellir ei osgoi. Mae hyn yn digwydd oherwydd y sefyllfa staffio bresennol, ac yn un o'r risgiau sy'n codi oherwydd hynny.

3.1.2 Mae camgymeriadau ar y til yn digwydd ar adegau pryd fydd y tiliau ddim yn gweithio. Er bod ymdrech gyfredol i ddatrys y problemau gyda thiliau a'r system, mae risg bellach yn deillio o'r trefniadau wrth gefn.

3.1.3 Oni bai am ambell eithriad, roedd rheolaeth dda ar weinyddiaeth ffurflenni bancio. Er hynny, ymddengys rhai gwendidau yn y rheolaethau. Darganfuwyd enghraifft ble roedd £391.85 o incwm wedi ei gasglu ond dim ond £147.45 oedd modd cyfrifo amdano. Yn dilyn ymholiadau, derbyniwyd eglurhad am y gwarged, a cymerwyd camau i'w gywiro.

3.1.4 Roedd sylw yn cael ei roi i ddrwg-dalwyr ac anfonebau heb eu talu, ond roedd brwdfrydedd gan reolwr y ganolfan i allu monitro drwg-dalwyr ei hun yn fyw ar y ledger, fel bod incwm yn cael ei hawlio yn gynt.

3.1.5 Gwelwyd bod cyfrifon aelodau yn parhau ar y system yn dilyn gorffen eu hymaelodaeth gan gynnwys cyfrifon wedi eu rhewi. Yn ogystal, mae ffurflenni ymaelodaeth yn cael eu cadw tu hwnt i'r cyfnod angenrheidiol. Nid oedd y ganolfan wedi trafod y risg yma o weithredu'n groes i'r Ddeddf Diogelu Data gyda'r gwasanaeth rheoli gwybodaeth.

3.1.6 Deallir bod y rhwystr staffio wedi golygu fod cofrestr eiddo heb ei ddiweddaru fel yr amserlennwyd, ond fod y gwaith ar y gweill a bydd yn cael ei gyflawni a'i gadw ar system newydd iGwynedd, pryd fydd staff yn dychwelyd. Fodd bynnag, mae eiddo ac offer critigol i waith y ganolfan yn cael ei wirio yn ddyddiol.

3.1.7 Nid oedd asesiad risg Legionella wedi ei gyflawni sy'n gyfrifoldeb i'r gwasanaeth eiddo.

3.1.8 Efallai fod cyfle yn cael ei golli i ddefnyddio arbenigedd staff sydd â chymhwyster hyfforddwr cymorth cyntaf i hyfforddi staff mewn canolfannau eraill.

3.1.9 Nid oedd rheolaeth ddigonol ar y system CCTV yn deillio allan o ddiffyg hyfforddiant a dethol cyfrifoldeb am y system, er bod y ganolfan yn adrodd iddynt allu darparu tâp i'r heddlu gyda chymorth allanol.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Canolfan Hamdden Dwyfor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru risgiau a amlygwyd:**

- Rheolwr i dderbyn hyfforddiant ar y system ledger er mwyn gallu rheoli'r gyllideb yn fwy byw.
- Diweddaru'r gofrestr eiddo.
- Trafod y risg o gadw data ymhellach i'r cyfnod sydd ei angen, a goblygiadau'r Ddeddf Diogelu Data ar gyfer hyn hefo'r gwasanaeth rheoli gwybodaeth.
- Trefnu hyfforddiant ar weinyddiaeth y system CCTV.

Atodiad 13

**CANOLFAN HAMDDEN BRO DYSYNNI, TYWYN**
**ECONOMI A CHYMUNED**

## 1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn, yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys pwll nofio, ystafell ffitrwydd a chae pob tywydd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y Ganolfan er mwyn rheoli a lliniaru risgiau, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â sampl o 4 Canolfan Hamdden yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli risgiau gall fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael, storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod rheolaethau mewnol priodol yng Nghanolfan Hamdden Bro Dysynni, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

3.1.1 Y Rheolwr Ardal sy'n gyfrifol am reoli cyllid y Ganolfan, a mynegwyd nad yw'r cyfrifoldeb wedi ei ddirprwyo i'r Rheolwyr ar Ddyletswydd yn ei absenoldeb e.e. yn ystod cyfnodau pan mae wedi ei leoli yn y Canolfannau eraill sydd dan ei reolaeth. Er nad oedd gwendidau rheoli cyllid wedi eu hamlygu, gwelwyd nad yw'r Rheolwr Ardal wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol yn y maes.

3.1.2 Roedd anghysondeb o ran amrywiant dull talu ('*payment method variance*') i'w weld ar nifer o'r adroddiadau til a gynhyrchir wrth i'r staff gyfrif a gwirio derbyniadau ar ddiwedd shifft. Golyga hyn fod y system wedi cofnodi mwy / llai o arian parod na dderbyniwyd mewn gwirionedd, ac i'r gwrthwyneb gyda thaliadau cerdyn. Cafwyd gwybod bod hyn yn bennaf o ganlyniad i gwsmer yn cyflwyno dull talu, megis arian parod, cyn newid i fod eisiau talu â dull arall, megis cerdyn, wedi i'r staff gofnodi'r dull talu ar Gladstone.

3.1.3 Nid oedd y rhan 'At Ddefnydd Swyddfa'n Unig' ar y ffurflenni Cais i Logi Cyfleusterau wedi ei lenwi gan swyddogion y Ganolfan ar bob achlysur. Mae'r rhan yma'n cynnwys gwybodaeth weinyddol sy'n cofnodi'r camau sydd yn rhan o'r broses o godi anfoneb, ac mae hefyd yn darparu trywydd archwilio.

3.1.4 Gwelwyd achlysuron ble codwyd TAW ar y cwsmer pan fo'r system Gladstone yn nodi fod y gweithgaredd wedi ei eithrio o dreth. Gwelwyd fod hyn wedi digwydd oherwydd nad oedd y swyddogion a cwblhaodd y Cais i Godi Anfoneb wedi nodi'r cod TAW perthnasol (sef 'X').

3.1.5 Mae taenlenni pwrpasol yn y Ganolfan ar gyfer rheoli'r gwariant, incwm a stoc o nwyddau a gaiff eu gwerthu e.e. o beiriannau arlwyaeth. Fodd bynnag, gwelwyd enghreifftiau ble mae'r arian a dderbyniwyd yn wahanol iawn i beth mae'r taenlenni yn awgrymu.

3.1.6 Gwelwyd fod yr asesiadau risg yn y Ganolfan wedi dyddio, ond cafwyd gwybod eu bod ar fin cael eu trosglwyddo i'r Bas-data Iechyd a Diogelwch a fyddai'n caniatáu iddynt gael eu diweddaru'n fwy aml.

3.1.7 Roedd y cloc ar y system teledu cylch cyfyng hanner awr allan o'r gwir amser. Gwnaeth aelod o staff ei gywiro yn y fan a'r lle. Fodd bynnag, gan nad yw'r mynediad i'r system teledu cylch cyfyng yn gyfyngedig, ystyrir fod risg yma o fynediad anawdurdodedig.

3.1.8 Ar y cyfan, nid yw staff y Ganolfan wedi cwblhau'r modiwlau e-Gwynedd mandadol ar Amddiffyn a Diogelu Plant a Diogelu Oedolion Bregus.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Canolfan Hamdden Bro Dysynni gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Y staff perthnasol i gael gwybod bod yr adran 'At Ddefnydd Swyddfa'n Unig' ar ffurflenni Cais i Logi Cyfleusterau i'w llenwi ar bob achlysur.
- Y staff perthnasol i gael gwybod y dylid nodi'r cod 'X' ar ffurflenni Cais i Godi Anfoneb pan fo'r cyfleuster a gaiff ei logi wedi ei eithrio o dreth ar werth.
- Sicrhau bod y mynediad i'r CCTV yn gyfyngedig, a bod y dyddiad a'r amser arno yn gywir.
- Holl staff y Ganolfan, gan gynnwys staff achlysurol i gwblhau'r hyfforddiant mandadol ar e-Gwynedd, gan gynnwys Amddiffyn a Diogelu Plant a Diogelu Oedolion Bregus.

Atodiad 14

**CASGLU INCWM TRAETHAU**
**ECONOMI A CHYMUNED**

**1. Cefndir**

1.1 Mae’r Cyngor yn darparu gwasanaethau parcio a lansio badau morwrol ar nifer o draethau’r Sir, yn ogystal â gwasanaeth rheoli a monitro yn y traethau dros dymor yr haf, ar gyfer mwyhad preswylwyr ag ymwelwyr. Mae gan Gwynedd filltiroedd helaeth o arfordir, sy’n cynnwys nifer o draethau poblogaidd ac enwog. Mae nifer o draethau Gwynedd wedi ennill cymhwyster fflag las gan gynnwys Abersoch a Morfa Bychan, sy’n arwydd fod y traethau yn rhai o’r safon uchaf.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau digonol yn nhraethau’r Cyngor er mwyn rheoli’r risgiau yn y meysydd casglu a bancio incwm.

2.2 Detholwyd sampl o draethau yng Ngwynedd i’w harchwilio drwy ymweld â'r traethau yn ddirybudd i gynnal gwiriadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r prif egwyddorion sydd yn ymwneud â chasglu incwm y Cyngor. Archwiliwyd Traeth Abersoch, Traeth Machroes a Thraeth Morfa Bychan fel sampl o draethau ar gyfer yr archwiliad. Mae dau fynediad yn bodoli ar gyfer Traeth Morfa Bychan sef mynediad A a mynediad B.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymddengys bod trefniadau da yn bodoli ar gyfer gweinyddu incwm y traethau. Gwelwyd bod y derbynebau perthnasol yn cael eu dosbarthu i gwsmeriaid. Gwelwyd sampl o’r ffurflenni TR34 ‘Derbyniadau a Bancio’ a archwiliwyd bod cywirdeb a manylder y dogfennau yn briodol. Mae trefniadau cadarn ar y cyfan mewn lle ar gyfer bancio’r arian ynghyd â chyfleusterau digonol i gadw'r incwm sydd heb ei fancio. Yn ogystal gwelwyd bod y traethau yn codi’r ffi cywir drwy hysbysu'r ffioedd yn gyhoeddus yn y traethau. Er hynny gwelwyd bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol sydd yn ymwneud yn bennaf â Thraeth Abersoch:

3.1.1 Wrth geisio cysoni’r incwm ar ddiwrnod yr archwiliad, gwelwyd bod swm sylweddol o arian ym mlwch arian Traeth Abersoch. Ceisiwyd gwirio faint o dderbynebau/tocynnau lansio oedd wedi eu dyrannu i gael cyfanswm am y diwrnod ond nid oedd modd gwirio hyn ychwaith gan nad oedd y llyfr tocynnau lansio wedi ei dyddio ar ddiwrnod yr archwiliad. O ganlyniad i hyn nid oedd modd i’r archwilwyr gysoni’r incwm ar ddiwrnod yr archwiliad.

3.1.2 Archwiliwyd sampl o ffurflenni ‘Datganiad Cysoni Arian’ sydd yn cael eu cwblhau ar ddiwedd y dydd. Gwelwyd bod Traeth Machroes a Thraeth Morfa Bychan yn eu cwblhau yn ddyddiol ond ymddengys nad hyn oedd y drefn ar gyfer Traeth Abersoch. Amlygwyd hyn mewn archwiliad blaenorol a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2014.

3.1.3 Wrth archwilio trefniadau bancio'r traethau gwelwyd bod Traeth Morfa Bychan yn bancio yn ddyddiol yn enwedig ar gyfnodau prysur yn yr haf. Gwelwyd achosion lle nad oedd traethau Abersoch a Machroes yn bancio yn rheolaidd.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau casglu incwm Traethau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Sicrheir bydd trefniant mewn lle er sicrhau fod cydymffurfiaeth â'r drefn. Archwiliad misol i'w gynnal Ebrill-Medi gan yr Uwch Swyddog Traethau er sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gofynion. Trefn tocynnau fel sydd yn weithredol ar draeth Morfa Bychan i'w roi mewn lle.
- Cyflwyno gwybodaeth yn ein hanwythiad er sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion. Prif Swyddog Traethau i sicrhau fod y drefn yn cael ei dilyn drwy dderbyn copïau o'r ddogfennaeth.
- Trefn bancio reolaidd yn cael ei drefnu a hyn yn cael ei bwysleisio i staff ac yn cael ei fonitro yn wythnosol yn 2017.

Atodiad 15

**RHEOLAETH GYLLIDEBOL - DARPARU**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Gwasanaethau Darparu'n cwmpasu 4 maes: Gofal Preswyl, Gofal Dydd, Gofal Cymunedol a Llety Cefnogol. O fewn y maes Gofal Preswyl y mae 11 cartref preswyl, gyda Rheolwr dynodedig i bob un. Mae cyfrifon terfynol 2015/16 y Gwasanaethau Darparu yn dangos gorwariant, ac mae Gofal Preswyl wedi cyfrannu'n helaeth at hyn.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod cyllidebau cartrefi preswyl yn cael eu rheoli'n effeithiol, a bod unrhyw or/danwariant arwyddocaol wedi ei gyfiawnhau.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o gartrefi preswyl a gwirio bod cyfrifoldebau wedi eu dynodi'n briodol, bod natur y wybodaeth y derbynnir gan y deiliaid cyllid yn addas ar gyfer eu hanghenion, a bod y wybodaeth honno'n cael ei defnyddio mewn modd pwrpasol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o rannu arferion da, a chynhaliwyd ymchwiliadau i achosion o unrhyw dan/orwariant sylweddol.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Detholwyd sampl o 4 cartref preswyl i'w harchwilio; o'r rheiny roedd 2 wedi dangos gorwariant ar ddiwedd 2015/16, a 2 wedi tanwario'n sylweddol. Wrth gynnal yr archwiliad, gwelwyd nad diffyg yn nhrefniadau monitro'r Gwasanaeth sydd wedi achosi'r gorwariant ar y cyfan. Gwelwyd fod mewnbwn rhagweithiol gan y Rheolwyr Ardal a'r Uwch Reolwr Gweithredol wrth geisio mynd i'r afael a'r meysydd ble gwelir gorwariant sylweddol. Trafodir isod yr hyn a ystyrir i fod yn brif achosion y gorwario yn ystod y flwyddyn 2015/16, a hyd yma yn 2016/17:

3.1.1 Yn y 2 gartref sydd wedi gorwario yn 2015/16, mae'r rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o'r costau staffio. Cafwyd gwybod bod lefelau absenoldebau staff wedi bod yn uchel yn y cartrefi yn gyffredinol, sydd yn achosi pryder i'r Gwasanaeth ac felly mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser mewn ymgais i reoli'r sefyllfa. Er bod y Rheolwyr yn teimlo bod cyfnodau o welliant wedi bod ar adegau, mae'r broblem yn parhau ar y cyfan. Cadarnhawyd hyn gan y ffigurau salwch ble gwelir bod cyfanswm o 40,020 awr (5,408 diwrnod) o salwch wedi bod rhwng cartrefi'r Cyngor yn ystod 2015/16, a 19,476 awr (2,632 diwrnod) hyd at hanner ffordd drwy 2016/17.

3.1.2 Mae gorwariant arwyddocaol i'w weld gan y cartrefi ar y cod Dodrefn – Pryniant (3001). Wrth archwilio hyd at lefel y trafodion unigol, gwelwyd nad yw'r gwariant o reidrwydd yn deillio o brynu dodrefn. Yma cofnodir gwariant megis gwaith atgyweirio eiddo'r cartref (yn cynnwys peiriannau golchi dillad) a gwasanaethu teclynnau codi (hoists). Ystyrir fod y rhain yn gostau na ellir eu hosgoi.

3.1.3 Mae gwaredu gwastraff clinigol (cwmni Cannon) yn ychwanegu at gostau anorfod y cartrefi. Cafwyd gwybod bod ymarferiad wedi ei gynnal i weld a oedd modd gwneud arbediad yma, ond y daethpwyd i'r canlyniad mai'r trefniant presennol yw'r rhataf.

3.1.4 Ar gyfer un o'r cartrefi a archwiliwyd, gwelwyd fod y costau teithio yn sylweddol uwch nag yn y 3 cartref arall. Cafwyd gwybod bod hyn o ganlyniad i gostau ail-leoli staff. Nid yw'r gyllideb o £250 y flwyddyn wedi bod yn ddigon i dalu am y costau, ac oherwydd bod y cartref hwn yn un o'r rhai sy'n wynebu'r anawsterau staffio, mae'r gyllideb hon dan bwysau yn gyffredinol.

3.1.5 Gwelwyd bod un cartref wedi gwario bron i £650 ar y cod Defnyddiau Swyddfa (3939) oddeutu hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol gyfredol, a bod tua £600 o hwnnw yn wariant ar inc argraffydd. Mae hwn yn sylweddol uwch na'r cartrefi eraill ac felly'n fater sydd angen sylw.

3.1.6 Ymddengys bod costau ffôn dau o'r cartrefi a archwiliwyd yn uchel, ac ystyrir fod angen gweithrediad yma i sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn talu mwy na sydd ei angen ar gytundebau ffôn.

3.1.7 Ymholwyd os yw Rheolwyr a Chlercod y cartrefi gyda neu eisiau mynediad i'r cyfriflyfr ariannol er mwyn cael gweld trafodion unigol, ac o bosibl leihau baich gwaith yr Unedau Taliadau a Chyfrifeg mewn perthynas ag ymateb i ymholiadau. Mynegodd staff 1 cartref y byddai cael mynediad i'r cyfriflyfr o ddefnydd iddynt.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Rheolaeth Gyllidebol - Darparu, gan fod rheolaethau wedi eu sefydlu o fewn y Gwasanaeth i fynd i'r afael a'r gorwariant ar draws y cartrefi, ond fod rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o anawsterau staffio, sydd yn fater sy'n derbyn sylw rheolaidd gan y Rheolwyr. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau penodol canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Parhau â'r gwaith rhagweithiol o geisio rheoli lefel absenoldebau staff;
- Ymchwilio i gostau argraffu'r cartrefi, ac ystyried a oes modd gwneud arbediad yma;
- Cynnal ymchwiliad i gostau ffôn y cartrefi, er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei dderbyn.

Atodiad 16

**GRANT CEFNOGI POBL**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Derbyniodd Cyngor Gwynedd dros £5 miliwn o grant gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2015-16 fel rhan o gynllun Cefnogi Pobl. Mae’r cynllun yn comisiynu ac ariannu dros 25 o ddarparwyr i gynnig cymorth i unigolion bregus i gadw eu tenantiaeth ac osgoi digartrefedd, gyda’r nod o alluogi’r unigolion i fyw yn annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol yn gysylltiedig â thai. Gall y gwasanaeth gael ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn neu mewn hostel, cartrefi gwarchodol, neu unrhyw dŷ lle ceir gefnogaeth. Mae’r cynllun yn rhoi cymorth i amrediad eang o bobl, megis pobl hŷn, pobl gyda phroblemau trais domestig, pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau yn ogystal ag anabledd dysgu.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau cywirdeb tystysgrif archwilio grant Cefnogi Pobl ar gyfer 2015-16, drwy wirio’r costau hawliwyd â’r nifer o achosion adroddwyd, yn ogystal â sicrhau bod yr Uned wedi cydymffurfio ag amodau’r llythyr cynnig grant, ymarfer da a rheoliadau gweithdrefn ariannol y Cyngor.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Darganfuwyd fod Gwynedd wedi hawlio a gwario’r grant Cefnogi Pobl yn llawn yn ystod 2015-16. Cysonwyd y gwariant gyda’r cyfriflyfr a dilynwyd sampl o gostau yn ôl i’w ffynonellau, gan gynnwys gwirio anfonebau a dalwyd i ddarparwyr allanol yn ogystal â siwrneli ble darparwyd y gofal gan Unedau eraill o fewn y Cyngor.

3.2 Dilynwyd sampl o daliadau a wnaethpwyd i ddarparwyr allanol yn ôl i’w cytundebau gyda’r Cyngor, a gwelwyd eu bod yn briodol.

3.3 Fel rhan o’r cytundeb, mae’r Uned Cefnogi Pobl yn cynnal ymweliadau monitro cyfnodol o’r darparwyr er mwyn sicrhau bod yr hyn a gaiff ei ddarparu yn cwrdd â’r safonau disgwyliedig.

3.4 Gwiriwyd y nifer o ‘ddeilliannau’ adroddwyd i Lywodraeth Cymru, ar gyfer y ddau gyfnod o fewn y flwyddyn. Bwriad hyn yw casglu gwybodaeth am y nifer a’r math o gefnogaeth a rhoddir. Mae’r darparwyr yn cyflwyno’r wybodaeth yma ar gyfer pob unigolyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel corff arweiniol Rhanbarth Cefnogi Pobl Gogledd Cymru, sydd wedyn yn anfon adroddiad crynodeb o’r basdata i Gyngor Gwynedd i’w wirio a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, derbynnir taenlen sy’n cynnwys holl fanylion pob unigolyn sy’n derbyn cymorth. Defnyddir y wybodaeth yma gan yr Uned er mwyn dethol sampl o ddeilliannau i wirio wrth gynnal ymweliadau monitro â’r darparwyr. Gwelwyd fod yr adroddiadau yma yn cysoni gyda’r hyn adroddir i Lywodraeth Cymru, a bod yr Uned yn eu dilysu wrth eu hymweld.

3.5 Mae'r Uned Cefnogi Pobl yn cyhoeddi Cynllun Comisiynu Lleol yn flynyddol, gyda'r bwriad o amlinellu'r cyflenwad presennol o wasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai, asesu anghenion pobl fregus yn y dyfodol yng nghyd-destun tai ac i adolygu prosiectau sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, gwelwyd ar amser yr archwiliad bod y Cynllun sydd ar wefan y Cyngor yn berthnasol i 2013-15, ble mae'r atodiad yn cynnwys dyfrnod 'drafft'. Cytunodd yr Uned i gyfnewid yr adroddiad yma gyda Chynllun Gweithredol 2015-18, a gwelwyd bod hyn bellach wedi ei weithredu.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Grant Cefnogi Pobl 2015-16 gan fod rheolaethau priodol mewn lle a'u bod wedi eu dilyn. Gellir datgan fod y manylion ar y dystysgrif archwilio yn gywir. Mae'r Uned wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Diweddaru y Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl sydd ar wefan y Cyngor.

Atodiad 17

**CARTREF PRESWYL PLAS PENGWAITH, LLANBERIS**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

**1. Cefndir**

1.1 Lleolir cartref preswyl Plas Pengwaith ym mhentref Llanberis. Mae'r cartref wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 32 o bobl, ac roedd 26 o breswylwyr wedi eu cofrestru yn y cartref ar ddiwrnod yr ymweliad. Mae'r cartref hefyd yn cynnig gofal dydd i unigolion sydd am wneud defnydd o'r gwasanaeth ond sydd ddim yn preswylio yno.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal cartref preswyl Plas Pengwaith yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Gwelwyd fod rheolaeth dda dros drefniadau'r cartref yn gyffredinol, gyda mewnbwn cadarn yn cael ei gynnig gan Reolwr y Cartref a'r Is-Reolwr. Teimlir y gellir tynhau ar y trefniadau mewn rhai meysydd, yn bennaf er mwyn cryfhau'r rheolaethau sydd yn bodoli eisoes, fel yr amlinellir yn y pwyntiau isod.

3.2 Nid yw hyfforddiant staff yn gwbl gyfredol, fodd bynnag roedd Rheolwr y Cartref yn ymwybodol o'r sefyllfa ac eisoes wedi mynd i'r afael â'r mater.

3.3 Nid oedd tystiolaeth ffurfiol ar gael (e.e. ar ffurf tystysgrif) o gymwysterau'r staff. Mae hyn yn gyfrifoldeb sydd wedi ei ddirprwyo i'r staff eu hunain, ac fe welwyd ar y cyfan nad yw eu ffeiliau'n cael eu cadw'n gyfredol.

3.4 Nid yw staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol pob deufis, sydd yn ddisgwyliad a osodir yn y Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

3.5 Gwelwyd fod mân gamgymeriadau cyfrifo o fewn taflenni amser 1 aelod o staff o'r sampl a wiriwyd. Serch hynny, gwelwyd fod rhai ohonynt wedi eu cywiro yn ystod y broses o'u cymeradwyo i'w talu. Nid yw'r camgymeriadau'n cael eu hystyried yn faterol hyd yma, fodd bynnag cytunwyd y byddai'r mater yn derbyn sylw pellach.

3.6 Roedd camgymeriadau i'w gweld yng nghardiau gwyliau 2 aelod o staff, o ran y nifer dyledus o oriau oedd wedi eu dyrannu iddynt ar gyfer y flwyddyn gwyliau. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr a'r Clerc yn gwirio'r holl gardiau gwyliau o ganlyniad, ac fe dderbyniwyd cadarnhad ganddynt y diwrnod canlynol eu bod yn gywir.

3.7 Nid oes stamp dyddiad yn cael ei ddefnyddio ar anfonebau, a all achosi i'r amser a gymerir i dalu cyflenwyr ymddangos yn hirach nag ydyw mewn gwirionedd

3.8 Ystyrir bod lle i fireinio'r trefniadau o ran cynnal y profion tân, gan y gwelwyd o'r llyfr log bod rhai profion wedi eu hepgor fan hyn a fan draw.

3.9 Nid oedd y posteri 'Diogelu' / 'Safeguarding' i'w gweld yn y cartref, felly fe ddarparwyd rhai ar ddiwrnod yr archwiliad ac fe'u harddangoswyd ar unwaith.

3.10 Nid yw pob aelod o staff sy'n darparu meddyginiaeth wedi arwyddo i ddatgan eu bod wedi darllen a deall y Polisi Meddyginiaeth, ond cafwyd gwybod bod hyn yn broses sydd ar waith beth bynnag.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Cartref Preswyl Plas Pengwaith gan fod rheolaethau wedi eu sefydlu, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Parhau â'r gwaith o sicrhau bod hyfforddiant staff yn gyfredol.
- Atgoffa'r staff i gynnwys tystysgrifau yn eu ffeiliau hyfforddiant, gan wirio'r sefyllfa'n gyfnodol.
- Mireinio'r trefniadau o ran goruchwylio staff i sicrhau eu bod yn bodloni'r rheoliadau.
- Gwirio'r nifer o oriau dyledus sydd wedi eu cofnodi ar gerdyn gwyliau cyfredol pob aelod o staff.
- Defnyddio stamp dyddiad i farcio anfonebau pan fyddant yn cael eu derbyn yn y cartref.
- Cadw golwg fanylach ar y profion tân (llyfr log tân), gan sicrhau nad oes unrhyw brawf yn cael ei hepgor.
- Parhau â'r gwaith o gylchredeg y Polisi Meddyginiaeth, gan sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol wedi arwyddo i ddatgan eu bod wedi ei ddarllen.

Atodiad 18

## CARTREF PRESWYL LLYS CADFAN, TYWYN
## OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

### 1. Cefndir

1.1 Lleolir cartref preswyl Llys Cadfan yn nhref Tywyn. Mae’n cynnwys 28 ystafell wely, gyda 8 ohonynt yn unedau arbenigol ar gyfer unigolion gydag anghenion cymhleth neu ddwys. Mae 2 o’r gwlâu wedi eu cadw ar gyfer gofal seibiant a canolraddol. Mae’r cartref hefyd yn cynnig gofal dydd i unigolion sydd am wneud defnydd o’r gwasanaeth ond ddim yn preswylio yno.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal cartref preswyl Llys Cadfan yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau’r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a’u heiddo’n cael eu diogelu.

### 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Mae naws gartrefol a chyfeillgar i’r cartref ac mae’r rheolwr yn amlwg yn gwerthfawrogi ymroddiad y staff i’w gwaith.

3.2 Gwelwyd nad yw staff yn cael eu goruchwylio mor aml â disgwyliadau Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) a’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, sy’n mynegi’r angen i staff gael eu goruchwylio pob 2 fis. Defnyddir goruchwyliaeth i wella gwasanaeth, gyda goruchwyliaeth ychwanegol yn digwydd fel yr angen. Cytunwyd i sicrhau nad yw staff yn mynd llawer mwy nag 2 fis heb oruchwyliaeth, oni bai mewn achosion arbennig megis salwch neu wyliau.

3.3 Yng nghyd-destun y ffaith fod y cartref yn debygol o symud i system archebu e-gaffael yn y dyfodol agos, nid oedd diben mewn archwilio yn drylwyr drefniadau prosesu anfonebau. Fodd bynnag gwelwyd bod stampio anfonebau ar y diwrnod derbyn yn gam sydd eisoes wedi ei weithredu’n ddiweddar i wella rheolaeth a dangosydd prydlondeb talu anfonebau.

3.4 Dim ond un person sydd yn arwyddo, ac felly'n gwirio, y ffurflenni TR34 bancio arian, sy’n groes i’r rheoliadau ariannol. Cynyddir hyn y risg o fethiant i adnabod camgymeriadau , neu incwm ddim yn cyrraedd y Cyngor.

3.5 Gwelwyd fod y cartref yn oedi cyn hawlio arian imprest yn ôl gan y Cyngor. Nid oedd y rheolwr yn ymwybodol o'r canllawiau ar gyfer cyfrifon imprest a trafodwyd yr angen i beidio gwario dros 2/3 o gyfanswm y cyfrif cyn hawlio'r arian yn ôl.

3.6 Darganfuwyd ar ddiwrnod yr ymweliad bod thermomedr yr oergell meddyginiaeth wedi torri ac felly ni chofnodwyd y tymheredd dros y penwythnos. Er bod yr oergell yn oer ac yn debygol o fod yn gweithio'n iawn, gallai rhywbeth wedi mynd o'i le ac nid oedd trefn i hysbysu'r rheolwr fod y thermomedr yn ddiffygiol.

4. **Barn yr Archwiliad**

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Cartref Llys Cadfan gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Newid y drefn goruchwylio er mwyn sicrhau fod staff yn cael eu goruchwylio yn rheolaidd pob 2 fis neu mor agos â phosib i hynny mewn achos o salwch neu wyliau.
- Parhau i stampio anfonebau pryd fyddent yn cyrraedd y cartref.
- Sicrhau fod ail berson cyfrifol yn gwirio ffurflenni bancio TR34 ac yn eu harwyddo i ardystio fod hynny wedi ei wneud.
- Gwneud ceisiadau imprest yn fwy aml gan gymryd i ystyriaeth y rheol o beidio gwario dros 2/3 o'r cyfanswm cyn gwneud cais am ad-daliad.
- Caffael thermomedr newydd ar gyfer oergell meddyginiaeth y cartref.
- Trafod a llunio trefn gyda staff ble mae diffygion yn cael eu hadrodd a'u datrys yn syth, yn benodol ble mae meddyginiaeth a diogelwch cleientiaid dan sylw.

Atodiad 19

**GRANT CRAIDD CYFIAWNDER IEUENCTID**
**PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i gydweithio gyda'r Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub ac i sefydlu Tîm Troseddau'r Ifanc ar gyfer eu hardaloedd gan sicrhau bod adnoddau priodol i gynnal amrywiaeth o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn unol â Rhan 38(4) o'r Ddeddf. Derbyniwyd grant gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr i'w ddefnyddio yn unol ag amodau rhan 41(5) o'r Ddeddf. Mae pwrpas y grant wedi ei ddiwygio gan *"Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr Gorchymyn 2015, Erthygl 2c"*. Defnyddir yr arian i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- gostyngiad mewn ail-droseddu ieuenctid,
- gostyngiad yn y niferoedd o droseddwyr newydd i'r system cyfiawnder,
- gostyngiad yn y defnydd o warchodaeth ieuenctid,
- diogelwch cyhoeddus effeithiol,
- ac amddiffyniad effeithiol,
- mynediad i wasanaethau i'r bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

Caiff y Grant ei weinyddu gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer ardaloedd Gwynedd a Môn gyda Cyngor Gwynedd yn arwain.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cydymffurfio gydag amodau a thelerau'r Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid, bod trefniadau rheolaeth gyllidebol, archebu a derbyn nwyddau a chyflogaeth briodol yn bodoli.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymddengys bod rheolaethau mewnol cryf gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gweinyddu'r Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid yng Ngwynedd a Môn. Fodd bynnag, mae rhai materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Wrth archwilio sampl o anfonebau gwelwyd nad oedd 4 allan o 16 anfoneb wedi eu stampio gyda dyddiad derbyn yr anfoneb. Mae'n bwysig nodi'r dyddiad derbyn ar yr anfoneb, oherwydd y dyddiad hwnnw ddylai'r Rheolwr Swyddfa ei gofnodi yn y blwch 'Pwynt Treth' ar y slip cyfeirebu TR252.

3.1.2 Yn ystod yr archwiliad nid oedd yn bosib cysoni'r archebion yn erbyn yr anfonebau a oedd wedi eu talu, oherwydd nid oedd trefn o gwblhau archebion ar gyfer popeth a archebwyd. Cafwyd cadarnhad gan y Gwasanaeth y byddent yn y dyfodol agos yn symud drosodd i'r system e-gaffael ar gyfer archebu. Fodd bynnag, yn y cyfamser mae'n ymarfer da i godi archebion pan archebir nwyddau/gwasanaethau fel bod trywydd digonol yn bodoli. Mae hefyd yn gymorth os yw swyddogion sydd wedi

archebu nwyddau/gwasanaethau yn absennol, er mwyn galluogi swyddogion eraill i wirio’r nwyddau a dderbynnir ynghyd â phrosesu’r anfonebau sydd wedi eu derbyn.

3.1.3 Yn amodau a thelerau’r grant fe nodir bod disgwyliad i’r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid gyflwyno crynodeb o incwm a gwariant yn manylu ar wariant yn erbyn y grant ynghyd â chyllideb gyflawn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid am y cyfnod 01/04/15 – 30/09/15 i’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid erbyn yr 30/11/15. Ni gyflwynwyd y crynodeb yma i’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid tan fis Chwefror 2016.

## 4. <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau gweinyddu’r Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid yng Ngwynedd a Môn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- Gwasanaeth i sicrhau bod pob anfoneb yn cael eu stampio gyda dyddiad derbyn ac yn cael eu prosesu a’u hanfon i’r Adain Taliadau o fewn yr wythnos.
- Gwasanaeth i sicrhau bod archeb swyddogol yn cael ei chwblhau bob amser.
- Sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o'r dyddiadau cau canol tymor a bod y Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn casglu'r wybodaeth ar amser.

**GRANT REFENIW DECHRAU’N DEG**
**PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Dechrau’n Deg yn rhan o Raglen Blynyddoedd Cynnar i deuluoedd a phlant dan 4 oed sy’n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae pedair elfen graidd i Ddechrau’n Deg sef Gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel, rhad ac am ddim i blant 2-3 oed, gwasanaeth estynedig gan Ymwelwyr Iechyd, mynediad at Raglenni Rhiant a datblygiad iaith cynnar. Caiff y rhaglen ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Gwelwyd bod Dechrau’n Deg yn dod a nifer o asiantaethau at ei gilydd gan gynnwys cydweithio â Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr. Mae’r rhaglen Dechrau’n Deg yn cael ei gynnig i ambell dalgylch yng Ngwynedd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Sicrhau bod rheolaeth fewnol briodol ar gyfer gweinyddu’r Grant Dechrau’n Deg sy’n ymwneud â sicrhau bod yr arian grant yn cael ei wario yn unol ag amodau a thelerau’r grant. Dethol sampl o daliadau ar ffurf anfonebau, siwrnalau a chyflogau a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd mewn perthynas â’r gwahanol elfennau o’r grant a sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Cadarnhau bod trefniadau priodol ar gyfer monitro'r grant a hawlio cyllid y grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymddengys bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli ar gyfer gweinyddu’r Grant Refeniw Dechrau’n Deg, fodd bynnag mae materion angen sylw fel a ganlyn:

3.1.1 Wrth archwilio sampl o anfonebau gwelwyd nad oedd 12 allan o 17 anfoneb wedi eu stampio gyda’r dyddiad y derbyniwyd hwy gan y gwasanaeth. Mae’n bwysig nodi'r dyddiad y derbynnir yr anfoneb, oherwydd y dyddiad hwnnw dylai’r swyddogion gweinyddol ei ddefnyddio i gofnodi yn y blwch ‘Pwynt Treth’ ar y slip cyfeirebu TR252.

**4. <u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau gweinyddu’r Grant Refeniw Dechrau’n Deg gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- Wedi diweddaru staff gweinyddol Plas Pawb a Tŷ Cegin i stampio dyddiad derbyn ar anfonebau. Hefyd wedi atgoffa staff sydd yn ardystio anfonebau fod angen stamp derbyn arnynt.

# FFIOEDD MOT
# PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

## 1. Cefndir

1.1 Mae gan Gyngor Gwynedd ddau weithdy sy'n darparu gwasanaeth MOT i gerbydau, un yng Nghaernarfon ac un yn Nolgellau. Mae'r gweithdai yn darparu gwasanaeth i fflyd y Cyngor (hyd at 3.5tunnell) ac yn agored i'r cyhoedd yn ogystal.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau ariannol priodol ynghlwm â trefniadau gwasanaeth MOT y Cyngor. Cyflawnwyd hyn drwy adolygu trafodion y cyfriflyfr ariannol am 2015-16 a 2016-17 gan wirio bod y trefniadau casglu incwm yn ddigonol a bod taliadau i weithdai MOT allanol yn briodol.

## 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwiriwyd y cyfriflyfr am wariant ac incwm profion MOT a dengys bod Adrannau'r Cyngor yn gwneud defnydd priodol o weithdai MOT y Cyngor. Fodd bynnag, gwelwyd yn ogystal fod y Cyngor yn gwneud defnydd o weithdai MOT allanol. Mae hyn yn deillio o'r ffaith nad oes gan y Cyngor y gallu i gynnal profion MOT ar gerbydau dros 3.5 tunnell felly mae'n rhaid mynd at ddarparwyr allanol mewn achosion o'r fath. Yn ogystal, nid oes gan y Cyngor weithdy MOT ym Mhwllheli ac felly mae cerbydau yr ardal yn mynd at gwmni lleol.

3.2 Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rhestr o'r uchafswm prisiau gall ddarparwr profion MOT ei godi ar gwsmeriaid. Ers 2010, nid oes gan y Cyngor yr hawl i godi pris uwch na £54.85 ar gyfer MOT dosbarth 4, sef ceir cyffredinol. Mae'r Cyngor yn codi £50 am MOT o'r fath. Gwelwyd o gofnodion Taflen Benderfyniad Aelod Cabinet, 17/02/15 fod ffioedd 2015/16 wedi eu cytuno ar lefel briodol, ond ni dderbyniwyd cofnod cyfatebol o ffioedd 2016/17.

3.3 Gan fod gan y Cyngor orsafoedd sy'n darparu profion MOT, drwy gyfraith mae'n rhaid i'r gwasanaeth fod ar gael i'r cyhoedd yn ogystal. Nid yw'r Cyngor yn hysbysu'r gwasanaeth yma yn ormodol, nac yn cynnig prisiau isel i ddenu cwsmeriaid. Mae hyn yn deillio o feirniadaeth hallt dderbyniodd y Cyngor yn y gorffennol am ddenu cwsmeriaid gan fusnesau lleol sydd hefyd yn darparu'r gwasanaeth. Nid yw'r strategaeth fusnes yma a'r opsiwn o newid y ffioedd wedi cael ystyriaeth fel rhan o 'Adolygiad Strategol Gwasanaeth Priffyrdd' (Ionawr 2016).

3.4 Darganfuwyd nad yw Gweithdy Dolgellau yn bancio arian yn ddigon aml. Gwelwyd nad oes dim gwybodaeth ychwanegol ar y TR34 (oni bai am 'MOT Tests' a'r cyfanswm a dalwyd i'r banc) a dim ond un swyddog sy'n eu harwyddo.

3.5 Dengys bod Gweithdai Cibyn yn bancio arian yn fwy aml gyda gwerth cyfartaledd llai. Mae’r TR34 hefyd yn rhestru pob taliad yn unigol, gan gynnwys rhif y dderbynneb a gan bwy dderbyniwyd y taliad. I leihau'r risgiau sy’n gysylltiedig â chadw arian ar y safle, ac i gynorthwyo’r cwsmeriaid, mae’r Gwasanaeth yn edrych i mewn i’r posibilrwydd o gael peiriannau fydd yn eu galluogi i dderbyn taliadau drwy gerdyn.

**4. Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Ffioedd MOT, gan fod rheolaethau yn bodoli, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae’r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- Hysbysu Gweithdy Dolgellau bod angen cynyddu’r amlder bancio, a manylu mwy ar y TR34.
- Parhau i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno peiriannau talu gyda cherdyn yn y gweithdai.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 RHAGFYR 2016** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2016/17 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 18 Tachwedd 2016 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| Statws yr Archwiliad | Nifer |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 19 |
| Crewyd Papurau Gwaith | 1 |
| Gwaith maes ar y gweill | 17 |
| Disgwyl Adolygiad | 1 |
| Adroddiad Drafft | 1 |
| Adroddiad Terfynol | 43 |
| **Cyfanswm** | **82** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 8 |

2.2 Targed perfformiad 2016/17 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2017. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 18 Tachwedd 2016 oedd **52.44%** - allan o'r **82** archwiliad unigol yng nghynllun 2016/17 roedd **43** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Mae'r archwiliad 'Taliadau Annibyniaeth Bersonol' oedd yn y cynllun gwreiddiol wedi ei ganslo. Gwnaethpwyd hyn yn dilyn y gofyniad i Archwilio Mewnol gynnal archwiliad ar allbynnau 'Grant Cefnogi Pobl' yn unol ag amodau'r grant. Roedd 15 diwrnod wedi ei neilltuo ar gyfer yr archwiliad wreiddiol a throsglwyddwyd y dyddiau ar gyfer cynnal adolygiadau ar allbynnau'r 'Grant Cefnogi Pobl'.

3.2 Roedd 5 diwrnod wedi ei neilltuo ar gyfer archwiliad 'Cronfa'r Degwm', fodd bynnag, eto eleni nid yw'r trothwyo incwm (£25,000) ar gyfer cynnal archwiliad wedi ei gyrraedd ac felly penderfynwyd defnyddio'r dyddiau a glustnodwyd ar gyfer yr archwiliad ar gyfer cynnal adolygiad o drefniadau 'Cau i Lawr Prosiect Storiel'.

3.3 Bu i un aelod o'r Tîm adael cyflogaeth y Cyngor ddiwedd Hydref 2016, felly bydd adolygiad o'r Cynllun Archwilio yn anorfod yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael. Penderfynwyd mai'r archwiliad a gaiff ei chanslo i adlewyrchu'r prinder adnoddau hyd yma yw 'Trefniadau Rheoli Ymadawiadau Cynnar' (20 diwrnod). Mae tebygolrwydd uchel y bydd canslo archwiliadau eraill yn anochel os yw'r sefyllfa bresennol yn parhau.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2016/17, cynnig sylwadau arno, cymeradwyo'r addasiadau, a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17

Atodiad 1

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-09/2017 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **8.81** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-09/2017dep | Trefniadau Rheoli Ymadawiadau Cynnar | 20.00 | -20.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-11/2017DBS | Trefniadau Diogelu - Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.57** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-14/2017coed | Iechyd a Diogelwch - Coed | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.72** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-19/2017/001 | Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.27** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-19/2017/002 | Trefniadau Diogelu - y Strwythur Gweithredol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-19/2017/003 | Trefniadau Diogelu- Sefydliadau | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **0.94** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2017cor | Asesiad Corfforaethol | 10.00 | -10.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 1-CPGV-02/2017 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **2.26** | Wedi ei gynllunio |
| 2-ADN-CGC-DPA/2017 | Rheoli Gwybodaeth | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **15.51** | Adroddiad Terfynol |
| 2-ADN-CGC-DPA/2017cy | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | 0.00 | 6.00 | **6.00** | **1.14** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AO-ARL-01/2017 | Defnydd o Gardiau Credyd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **4.23** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AO-ARL-05/2017 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | 50.00 | 0.00 | **50.00** | **17.46** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cynllunio Argyfwng** | | | | | | |
| BC-PER-01/2017tan | Cyflenwadau Tanwydd - Cynlluniau Rhanbarthol a Lleol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.51** | Adroddiad Terfynol |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2017GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion | 5.00 | 7.00 | **12.00** | **17.07** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2017GGA | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 20.00 | -7.00 | **13.00** | **10.86** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2017ol16 | Grant Addysg Ôl-16 | 2.00 | 0.00 | **2.00** | | Wedi ei gynllunio |
| EADDA03/2017 | Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **6.53** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA06/2017hlon | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **18.81** | Adroddiad Terfynol |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA15/2017 | Ystadegau a Chyfrifiadau - Uwchradd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA18/2017 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgolion Cynradd | 25.00 | -25.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| EADDA18/2017/2010 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Beddgelert | 0.00 | 4.10 | **4.10** | **7.86** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/2048 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Bro Plenydd | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **8.23** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/2104 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Eifion Wyn | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **7.59** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/2210 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Talsarnau | 0.00 | 4.10 | **4.10** | **8.10** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/3029 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Tregarth | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **7.90** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA18/2017/3300 | Rheolaeth Gyllidebol - Ysgol Santes Helen | 0.00 | 4.20 | **4.20** | **8.47** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA35/2017 | Ysgolion - Cyffredinol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.91** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDAYC/2017 | Diogelwch Gwybodaeth mewn Ysgolion | 25.00 | -25.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| EADDAYC/2017/2008 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Abererch | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.20** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2028 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Penybryn | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.41** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2039 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Crud y Werin | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.32** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2085 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Penisarwaen | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.37** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2089 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Bro Lleu | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.59** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2103 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Sarn Bach | 0.00 | 2.70 | **2.70** | **3.32** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2187 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Dinas Mawddwy | 0.00 | 2.70 | **2.70** | **3.40** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2192 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Edmwnd Prys | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.54** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2017/2213 | Diogelwch Gwybodaeth - Ysgol Bro Hedd Wyn | 0.00 | 2.80 | **2.80** | **3.24** | Adroddiad Terfynol |

## CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

### Caffael ac Effeithlonrwydd

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BE-POL-08/2017 | System eGaffael - Trothwyon Goddefiant | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.82** | Adroddiad Terfynol |

### Cofrestru

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BB-YSG-05/2017 | Gwasanaeth y Crwner | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.08** | Adroddiad Terfynol |

## CYLLID

### Ar draws yr adran

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AW-TG-12/2017tg | Diogelwch Systemau TG | 30.00 | 0.00 | **30.00** | | Wedi ei gynllunio |

### Ariannol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AD-DY-01/2017 | System Dyledwyr - Anfonebau gyda statws "Canslo" | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.88** | Adroddiad Terfynol |
| AE-TAL-01/2017tro | Trothwyon Gwirio | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **8.73** | Adroddiad Terfynol |

### Cyfrifeg

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AN-ACY-09/2017 | Strwythur Codio | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **8.70** | Adroddiad Terfynol |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2017dhp | Taliadau Tai Dewisol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.89** | Adroddiad Terfynol |
| AB-BD-01/2017kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **4.84** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-01/2017dis | Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau (Pobl) | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **10.95** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2017ipo | System Treth Cyngor - Connect | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AC-TR-11/2017dis | Trethi Busnes - Gostyngiadau Elusennau | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **8.28** | Adroddiad Terfynol |

## ECONOMI A CHYMUNED

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2017 | Cronfa'r Degwm | 5.00 | -5.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | | | | | |
| EDIW-MU-03/2017 | Storiel - Trefniadau Llywodraethu a Rheoli | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **7.12** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EDIW-MU-03/2017/002 | Storiel - Cau i Lawr y Prosiect | 0.00 | 5.00 | **5.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2017 | Canolfannau Hamdden | 40.00 | -40.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| EHAMAC6404/2017 | Canolfan Byw'n Iach a Gweithgareddau Dŵr Bangor | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **12.46** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6405/2017 | Canolfan Hamdden Plas Silyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.56** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6422/2017 | Canolfan Hamdden Dwyfor | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **18.28** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6448/2017 | Canolfan Hamdden Bro Dysynni | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.15** | Adroddiad Terfynol |
| **Llyfrgelloedd** | | | | | | |
| EADDI01/2017 | Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.20** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | | | | | |
| EHAMM-01/2017 | Hafan | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.21** | Wedi ei gynllunio |
| EHAMM-02/2017 | Gwerthiant Disel | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **9.82** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EHAMT-01/2017 | Casglu Incwm Traethau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.75** | Adroddiad Terfynol |

## OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-ARALW/2017 | Trefniadau Parhad Busnes-Gwasanaeth | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.92** | Adroddiad Drafft |
| 5-GOF-X-CYLL/2017 | Rheolaeth Gyllidebol - Darparu | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **14.26** | Adroddiad Terfynol |
| GCC-02/2017 | Diogelu Rhag Colli Rhyddid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **11.28** | Gwaith Maes ar y gweill |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GDAPR-GC05/2017 | Gweithwyr Cefnogol - Oedolion | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Busnes** | | | | | | |
| 5-GOF-CWYN/2017 | Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.50** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cefnogi Pobl** | | | | | | |
| GDAPR-SP01/2017 | Grant Cefnogi Pobl | 0.00 | 15.00 | **15.00** | **10.42** | Adroddiad Terfynol |
| **Gofal Cymunedol** | | | | | | |
| GDAPR-GC02/2017gw | Gwyliau Gofalwyr Cymunedol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.19** | Adroddiad Terfynol |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GCC-07/2017 | Taliadau Uniongyrchol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.62** | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-C01/2017 | Taliadau Annibyniaeth Bersonol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.20** | Wedi ei ganslo |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1340/2017 | Plas Pengwaith, Llanberis | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.28** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1344/2017 | Plas Gwilym, Penygroes | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.46** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1355/2017 | Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.10** | Disgwyl Adolygiad |
| 5-GOF-CART1357/2017 | Llys Cadfan, Tywyn | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **16.51** | Adroddiad Terfynol |
| GDARP-D07/2017 | Tai Cefnogol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.08** | Wedi ei gynllunio |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | | | | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | | | | | |
| 5-GOF-X-PL/2017 | Grantiau | 24.00 | -24.00 | **0.00** | | Wedi ei ganslo |
| 5-GOF-X-PL/2017CI | Grant Craidd Cyfiawnder Ieuenctid | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **16.42** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-PL/2017DD | Grant Refeniw Dechrau'n Deg | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **17.20** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-X-PL/2017pgg | Prosiect Gyda'n Gilydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.34** | Wedi ei gynllunio |
| GGWAS-P03/2017 | Gweithwyr Cefnogol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **2.69** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GGWAS-PLANT4/2017 | Mabwysiadu | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **2.94** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2017 | Ffioedd MOT | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.70** | Adroddiad Terfynol |
| PPR-GW03/2017 | Rheolaeth Fflyd | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **1.09** | Wedi ei gynllunio |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | | | | | |
| PBW-05/2017 | Gwastraff Masnachol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.68** | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | | | | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2017fl | System Flare | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| 2ADN-GGYC-GYC/2017ia | Iechyd Anifeiliaid | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **4.66** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | | | | | |
| BA-EID-05/2017 | Cynlluniau Cyfalaf Eiddo'r Cyngor | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2017 | Trefniadau Recriwtio a Phenodi | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| PYMG-CON/2017gor | Goramser | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **15.69** | Adroddiad Terfynol |
| PYMG-CON/2017pp | Cynlluniau Prosiect | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |

PWYLLGOR: **PWYLLGOR ARCHWILIO**

DYDDIAD: **1 RHAGFYR 2016**

TEITL: **ADOLYGU'R CYFANSODDIAD**

PWRPAS YR ADRODDIAD: **ADRODD AR ADOLYGIAD Y CYFANSODDIAD**

AWDUR: **IWAN G D EVANS – SWYDDOG MONITRO**

GWEITHREDIAD: **ER PENDERFYNIAD**

---

**1. Cefndir**

Fe fabwysiadwyd y Cyfansoddiad diwygiedig gan y Cyngor yng Ngorffennaf 2014. Roedd yn seiliedig ar gyfansoddiad model oedd wedi ei ddatblygu yn genedlaethol.

Yn amlwg mae mabwysiadu cyfansoddiad newydd yn waith sylweddol o safbwynt llywodraethu a bu gweithgor o'r Pwyllgor Archwilio yn cefnogi'r Swyddog Monitro yn y gwaith gwreiddiol yma. Fe fyddwch yn ymwybodol fod newidiadau i'r Cyfansoddiad wedi eu hadrodd i'r Cyngor o bryd i'w gilydd ers ei fabwysiadu. Mae'r newidiadau yma yn bennaf wedi deillio o newidiadau deddfwriaethol ac ambell fater oedd angen ei gryfhau neu egluro . Fodd bynnag wedi 2 flynedd o weithredu'r Cyfansoddiad roeddwn o'r farn ei bod yn amserol cymryd trosolwg o'i weithrediad ac agor trafodaeth ar hyn. Nid oedd yn fwriad mynd ati i ail ysgrifennu'r cyfansoddiad ond yn hytrach sicrhau ei fod yn gweithio i'r Cyngor ac adnabod ardaloedd ble roedd angen eglurdeb gwell neu addasu.

**2. Sefydlu Gweithgor**

Mae'r gwaith cychwynnol yma wedi ysgogi ar rai materion sydd angen sylw dyfnach a manylach. Er nad yw'r materion yma yn anorfod yn newidiadau sylfaenol gall fod angen pwyso a mesur oblygiadau rhai newidiadau o safbwynt trefniadau'r Cyngor. Felly I'r perwyl yma ac wrth fapio allan y llwybr ar gyfer dod a'r materion yma gerbron y Cyngor byddwn yn awyddus i ail sefydlu'r gweithgor o 7 aelod i gefnogi'r gwaith yma. Nid wyf yn rhagweld y bydd angen nifer o gyfarfodydd ond bydd yn fforwm i roi barn ar y ffordd ymlaen.

**3. Addasu Rheolau Gweithdrefn Ariannol**

Wrth symud ymlaen i gynnal yr adolygiad daeth rhai materion i'r amlwg allai gael sylw yn syth. Bydd adroddiad yn mynd gerbron y Cyngor ym Mis Rhagfyr yn adrodd ar ddiwygiadau i hawliau dirprwyedig swyddogion sydd yn adlewyrchu newidiadau adrannol a deddfwriaethol.

Yn ychwanegol gofynnwyd i addasu'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

Ar hyn o bryd mae darpariaeth yn y Rheoliadau Ariannol fel a ganlyn

16.6.37 Yn sgil derbyniadau cyfalaf a ddaw o waredu eiddo, heblaw lle mae penderfyniad i'r gwrthwyneb gan y Cabinet fe aiff 20% i'r adran (hyd at uchafswm o £20,000) a'r gweddill i gronfa gorfforaethol. Bydd gan y Prif Swyddog hawl i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf sydd o fewn rheolaeth yr adran lle bo gwerth y defnydd hwnnw

hyd at £50,000 yn unol â'r rheolau ynglŷn â throsglwyddiadau yn Rhan 3. Bydd angen cymeradwyaeth Cabinet ar gyfer defnydd o'r fath lle bo'r swm dros £50,000.

Mae'n deg dweud fod y drefn hon wedi ei sefydlu ar adeg be roedd sefyllfa ariannol y Cyngor yn gwbl wahanol i'r hyn a welwn heddiw. Bryd hynny hefyd roedd llawer llai o reolaeth ganolog ar faterion Eiddo ac roedd yn perthyn i gyfnod cyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Asedau.

Erbyn heddiw mae holl Eiddo'r Cyngor wedi ei ddatgan yn adnodd corfforaethol ac mae'n cael ei reoli'n ganolog. Mae'r sefyllfa ariannol wedi newid yn gyfan gwbl wrth gwrs a prin yw'r anogaeth sydd angen ei roi i adrannau ryddhau eiddo a danddefnyddir erbyn heddiw gan y bydd yn eu galluogi i wneud arbedion refeniw.

Gyda'r Cyngor yn wynebu toriadau enbyd yn y cyllid cyfalaf fydd ar gael i wireddu'r blaenoriaethau fydd yn ein rhaglen gyfalaf, mae angen cymryd y cyfle i sicrhau ein bod yn uchafu'r cyfalaf fydd ar gael i wireddu'n blaenoriaethau yn dilyn gwerthu asedau. Yn sgil y drefn bresennol o ganiatáu i Adrannau gadw 20% o bob derbynneb cyfalaf (hyd at uchafswm o £20,000), bu i £877,000 gael ei ddyrannu ar gyfer blaenoriaethau Adrannol yn hytrach na'i gyfeirio yn uniongyrchol tuag at y blaenoriaethau sydd wedi eu cynnwys yn ein rhaglen gyfalaf. Os fydd gan Adran gais teilwng i gadw cyfran o dderbynneb cyfalaf yn y dyfodol yna bydd modd gwneud cais penodol. Bryd hynny bydd Aelodau yn gallu cloriannu'r buddion a'r risgiau ynghlwm i'r cynllun penodol hwnnw.

Y newid a argymhellir yw dileu rhan gyntaf y paragraff:

16.6.37 ~~Yn sgil derbyniadau cyfalaf a ddaw o waredu eiddo, heblaw lle mae penderfyniad i'r gwrthwyneb gan y Cabinet fe aiff 20% i'r adran (hyd at uchafswm of £20,000) a'r gweddill i gronfa gorfforaethol.~~ Bydd gan y Prif Swyddog hawl i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf sydd o fewn rheolaeth yr adran lle bo gwerth y defnydd hwnnw hyd at £50,000 yn unol â'r rheolau ynglŷn â throsglwyddiadau yn Rhan 3. Bydd angen cymeradwyaeth Cabinet ar gyfer defnydd o'r fath lle bo'r swm dros £50,000.

Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y newid arfaethedig.

**Argymhelliad :**

1. Nodi'r Adroddiad
2. Penodi Gweithgor o 7 Aelod i ystyried canfyddiadau Adolygiad y Cyfansoddiad
3. Argymell y newid i'r Rheoliadau Ariannol.